Adrodiad Ymchwil Tai HRR 06/04 - Rhagfyr 2004

# Gwerthuso Cyfranogiad Tenantiaid mewn Rheoli a Dylunio Tai

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Mae Copïau ychwanegol o'r adroddiad hwn ar gael yn rhad ac am ddim oddi wrth:

**Helen Wyatt**
Uned Ymchwil a Gwybodaeth
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 1718
E-bost: helen.wyatt@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.tai.cymru.gov.uk/

ISBN 0 7504 3604 2
© Hawlfraint y Goron 2004
Cynlluniwyd gan CartoGraffeg
Cysodi gan Gwasanaethau Presesi Testun

# Cynnwys

Diolchiadau

1 Cyflwyniad 1
1.1 Cefndir yr ymchwil 1
1.2 Nodau ac amcanion 2
1.3 Methodoleg 2
1.4 Strwythur yr adroddiad 4

2 Gwerthusiad o astudiaethau a chanllawiau arferion da eraill 7

3 Dadansoddiad yn cymharu'r fframwaith cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru â'r rheiny yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon 13

4 Gwerthusiad o gompactau cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru 21

5 Canfyddiadau'r arolwg ar ffurf holiadur, grwpiau ffocws astudiaeth achos, cyfweliadau dros y ffôn a chyfweliadau â sefydliadau cenedlaethol 29
5.1 Cyflwyniad 29
5.2 Safbwyntiau budd-ddeiliaid am gynnwys tenantiaid 29
5.3 Sut y cynhwysir tenantiaid 34
5.4 Canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid 44
5.5 Problemau wrth gynnwys tenantiaid 59
5.6 Adnoddau a hyfforddiant 66
5.7 Compactau cyfranogiad tenantiaid 72
5.8 Syniadau ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid 77

6 Crynodeb a chasgliadau 83

7 Argymhellion 91

8 Atodiadau
1 Rhestr o'r rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil 97
2 Disgrifiad manwl o'r fethodoleg 101
3 Llyfryddiaeth yn nodi astudiaethau a chanllawiau arferion da eraill 105
4 Arweiniad i'r safonau craidd ar gyfer compactau tenantiaid 107
5 Mwy o wybodaeth ac adnoddau 111

# Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r llu o gyrff ac unigolion sydd wedi cyfrannu i'r ymchwil. Ceir rhestr lawn o'r rheiny a gymerodd ran yn Atodiad 1

Hoffem ddiolch yn arbennig i'r cyrff canlynol a rannodd eu profiadau fel rhan o'r astudiaethau achos

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Gwynedd
- Cymdeithas Dai Charter
- Cymdeithas Tai Abertawe
- Cymdeithas Tai Cadwyn
- Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru
- Dinas a Sir Abertawe

Hoffem ddiolch hefyd i'r canlynol:

- Grŵp Llywio'r Prosiect ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyfieithydd
- Ymgynghorwyr y Prosiect

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir yr ymchwil

1.1.1 Fe gomisiynodd Llywodraeth y Cynulliad y gwerthusiad hwn o gyfranogiad tenantiaid o reoli a dylunio tai cymdeithasol ledled Cymru, yn unol â'r Strategaeth Dai Genedlaethol, **Cartrefi Gwell i Bobl Cymru**, sy'n nodi bod Llywodraeth y Cynulliad yn ymrwymo i wneud y canlynol:

- gwella cyfraniad, ac ehangu'r rhan a gymerir gan denantiaid er mwyn ategu ac atgyfnerthu'r modd y caiff Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella/Gwerth Gorau eu rhoi ar waith ym maes Tai;
- darparu gwasanaethau tai mwy effeithlon gyda phenderfyniadau o ansawdd gwell a gwelliannau cynaliadwy ym mherfformiad cynghorau a chymdeithasau tai a fydd o les i bawb; a
- rhoi tenantiaid wrth galon rheoli gwasanaethau tai yn y dyfodol.

Mae egwyddorion Gwelliant Parhaus a Gwerth Gorau'n arbennig o bwysig i'r astudiaeth, gan eu bod yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol gynnwys tenantiaid yn y prosesau cynllunio, gosod safonau, adolygu, gwneud penderfyniadau a phennu disgwyliadau o ran cynnydd, a datblygu mecanweithiau sy'n sicrhau bod tenantiaid yn cael eu cynnwys yn y broses o reoli tai ar lefelau gweithredol a strategol.

1.1.2 Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi pennu nifer o nodau ar gyfer cynyddu a gwella'r rhan a gymerir gan denantiaid yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch materion yn ymwneud â thai.

Mae'r rhain yn deillio i raddau helaeth o Ganllawiau'r Cynulliad **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru (2000)**. Fel cymorth i gyrraedd y nodau hyn, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi:

- paratoi canllawiau arferion da yng nghyswllt cyfranogiad tenantiaid ar gyfer landlordiaid cymdeithasol;
- darparu canllawiau er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi cytundebau ffurfiol (compactau cyfranogiad tenantiaid) â'u tenantiaid, a chanllawiau ar wahân i'w gwneud yn ofynnol i gymdeithasau tai ddatblygu compactau;
- rhoi nawdd i Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru, er mwyn iddynt ddarparu gwybodaeth, cyngor, hyfforddiant, seminarau a chynadleddau annibynnol ar gyfer tenantiaid a thrigolion;
- rhoi nawdd i'r Ganolfan Adnoddau Genedlaethol i Denantiaid a'r Cynllun Grantiau Grymuso Tenantiaid, i alluogi grwpiau tenantiaid i wella ansawdd cyfranogiad tenantiaid a'r broses o gynnwys tenantiaid; a
- gwahodd landlordiaid cymdeithasol i gyflwyno cynigion yn flynyddol yn unol â themâu 'cyfranogiad tenantiaid', fel rhan o'r Rhaglen Grantiau Rheoli Tai Cymdeithasol.

1.1.3 Aethpwyd ati fel rhan o'r prosiect ymchwil i wneud y canlynol:

- pwyso a mesur er mwyn gweld i ba raddau y mae'r mentrau uchod yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion yn y Strategaeth Dai Genedlaethol o safbwynt cyfranogiad tenantiaid;

- cael dealltwriaeth well o'r ffordd y mae tenantiaid yng Nghymru'n cyfranogi o ddylunio a rheoli eu cartrefi;

- cael darlun manwl o lefelau ac effeithiau cyfranogiad tenantiaid; a

- cyflwyno canllawiau i Lywodraeth y Cynulliad o ran y ffordd orau o hyrwyddo'r mathau mwyaf effeithiol o gyfranogiad yn y dyfodol.

## 1.2 Nodau ac Amcanion

1.2.1 Nod penodol yr ymchwil oedd cael darlun manwl o lefel, ansawdd a natur y gweithgarwch cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru ar lefel strategol ac ar lefel rheoli gweithredol yng nghyswllt gwasanaethau tai, a chanfod ym mha ffyrdd y mae hyn o fantais i'r broses o ddylunio a rheoli tai cymdeithasol.

1.2.2 Roedd amcanion yr ymchwil fel a ganlyn:

i) gwerthuso llenyddiaeth ymchwil o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gostau a manteision cynnwys tenantiaid yn y prosesau o ddylunio a rheoli eu cartrefi;

ii) archwilio rôl compactau cyfranogiad tenantiaid o ran arwain at gyfranogiad tenantiaid mewn prosesau dylunio a rheoli tai cymdeithasol;

iii) asesu lefel, ansawdd a natur y rhan a chwaraeir gan denantiaid mewn prosesau dylunio a rheoli tai cymdeithasol yng Nghymru er mwyn casglu gwybodaeth gychwynnol gynhwysfawr am weithgarwch;

iv) amlygu enghreifftiau mewn astudiaethau achos o ddylanwad cadarnhaol a negyddol cyfranogiad tenantiaid ar reoli a dylunio tai; ac

v) awgrymu'r ffordd orau i Lywodraeth y Cynulliad Cymru sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid ledled Cymru yn elwa ar y manteision ar gyfer rheoli a dylunio tai a all ddod yn sgîl cyfranogiad tenantiaid.

## 1.3 Methodoleg

1.3.1 Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Tachwedd 2003 a mis Mawrth 2004. Cysylltwyd â phob un o'r 22 awdurdod lleol, y 29 prif gymdeithas dai, 333 o grwpiau tenantiaid a thrigolion ac amrediad o ddarparwyr cymorth.

Ar y cyfan, anfonodd 130 o gyrff sy'n cynrychioli landlordiaid a thenantiaid, darparwyr cymorth a chyrff cenedlaethol eu safbwyntiau ar ffurf holiaduron a chyfweliadau dros y ffôn, a chymerodd cyfanswm o 170 o denantiaid ac aelodau unigol o staff ran mewn grwpiau ffocws. Roedd yr ymchwil wedi'i bwriadu i gasglu gwybodaeth a safbwyntiau gan gydbwysedd o denantiaid a landlordiaid. Serch hynny, roedd nifer yr ymatebion a gafwyd gan denantiaid yn fwy na'r rheiny a gafwyd gan landlordiaid ym mhob rhan o'r ymchwil heblaw'r cyfweliadau dros y ffôn.

I grynhoi, mae'r safbwyntiau a fynegir yn yr ymchwil yn seiliedig ar sylwadau

- 92 o gyrff tenantiaid;

- 51 landlord cymdeithasol; a
- 10 darparwr cymorth.

a safbwyntiau unigol

- 98 o denantiaid; a
- 72 aelod o staff sy'n gweithio i landlordiaid cymdeithasol

Yn ogystal â hynny, casglwyd safbwyntiau gan 5 sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli tenantiaid, landlordiaid cymdeithasol a darparwyr cymorth.

Ceir rhestr gyflawn o'r rheiny a gymerodd ran yn yr ymchwil yn **Atodiad 1**.

1.3.2 Roedd tri cham i'r ymchwil. Caiff y rhain eu crynhoi isod.

Roedd **Cam 1** yn cynnwys casglu, cyfosod a dadansoddi data cychwynnol gan sefydliadau tenantiaid, landlordiaid cymdeithasol, a darparwyr cymorth. Gwnaed hyn gan ddefnyddio'r dulliau a ddisgrifir isod.

Fe anfonwyd holiaduron at bob un o'r 333 o sefydliadau tenantiaid sydd yng nghronfa ddata TPAS Cymru, pob un o'r 22 awdurdod lleol, y 29 prif gymdeithas dai, ac at nifer o ddarparwyr cymorth gan gynnwys pwyllgor rheoli a chyfarwyddwr dros dro Cymorth. Roedd yr holiaduron yn ymgais i gasglu data a safbwyntiau am weithgarwch cyfranogiad tenantiaid ledled Cymru. Derbyniwyd cyfanswm o 112 o holiaduron wedi'u cwblhau. Dyma fanylion yr ymatebion a dderbyniwyd:

| **Ymatebwyr** | **Nifer** | **% wedi ymateb** |
|---|---|---|
| Sefydliadau tenantiaid | 78 | 23% |
| Awdurdodau lleol | 14 | 64% |
| Cymdeithasau tai | 20 | 69% |

**Dalier sylw:** cafwyd ymatebion gan gyfanswm o 5 o ddarparwyr cymorth er ei bod yn anodd dweud pa ganran a ymatebodd oherwydd diffyg cronfa ddata unedig.

Roedd y cyfanswm isel o ran ymatebion gan sefydliadau tenantiaid efallai fod hyn yn rhannol o ganlyniad i'r anhawster cael gwybodaeth gywir a manylion cyswllt cywir ar gyfer cymdeithasau tenantiaid a thrigolion.

Yn dilyn derbyn yr holiaduron wedi'u cwblhau, cynhaliwyd 33 o gyfweliadau dros y ffôn ag aelodau o staff, aelodau o fyrddau, aelodau awdurdodau lleol a thenantiaid mewn amrediad o sefydliadau er mwyn ymdrin ymhellach â rhai materion penodol.

Cynhaliwyd cyfweliadau â 5 sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli tenantiaid a landlordiaid er mwyn cael eu safbwyntiau.

1.3.3 Roedd **Cam 2** yn cynnwys cyfosod a dadansoddi gwybodaeth am gompactau cyfranogiad tenantiaid, cymharu fframweithiau ar gyfer cyfranogiad sy'n bodoli ledled y DU, ac adnabod enghreifftiau o arferion da.

Ysgrifennwyd at bob un o'r 22 o awdurdodau lleol a'r 29 prif gymdeithas dai, gan ofyn am gopïau o'u compactau cyfranogiad tenantiaid. Derbyniwyd a

dadansoddwyd cyfanswm o 39 compact cyfranogiad tenantiaid gan landlordiaid cymdeithasol.

Casglwyd manylion fframweithiau cyfranogiad tenantiaid o Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Cafodd y rhain eu dadansoddi a'u cymharu â fframwaith cyfranogiad tenantiaid Llywodraeth y Cynulliad.

Gwerthuswyd siampl o astudiaethau eraill o gyfranogiad tenantiaid, ac casglwyd a enghreifftiau o arferion da.

1.3.4 Roedd **Cam 3** yn cynnwys gwahodd chwe landlord i fod yn rhan o astudiaeth achos a chymryd rhan mewn pedair trafodaeth grŵp ffocws yr un, i drafod profiadau gwahanol fudd-ddeiliaid o gyfranogiad tenantiaid.

Dewiswyd tair cymdeithas dai a thri awdurdod lleol yn unol â meini prawf a oedd yn sicrhau ein bod yn cynnwys amrediad cynrychiolaidd.

Roedd cyfansoddiad y pedwar grŵp ffocws ym mhob corff fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Grŵp ffocws 1 | Staff, aelodau o'r bwrdd ac aelodau o'r awdurdod lleol sy'n gweithio ar lefel strategol |
| Grŵp ffocws 2 | Staff sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen |
| Grŵp ffocws 3 | Cynrychiolwyr tenantiaid o sefydliadau tenantiaid cyfansoddiadol a/neu gydnabyddedig |
| Grŵp ffocws 4 | Tenantiaid nad ydynt fel arfer yn cyfranogi o strwythurau ffurfiol gyda'u landlord. Roedd y rhain yn cynnwys: - pobl ag anableddau dysgu; - tenantiaid sy'n bobl dduon ac yn lleiafrifoedd ethnig; - pobl ifanc; - pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac mewn stoc wasgarog; - pobl ag anableddau corfforol; a - tenantiaid tai lloches. |

Ceir disgrifiad manwl o'r fethodoleg, gan gynnwys dadansoddiad o'r niferoedd a gymerodd ran yn yr ymchwil yn **Atodiad 2**.

## 1.4 Strwythur yr adroddiad

1.4.1 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

Mae **adran 2** yn cynnwys y llenyddiaeth ymchwil sy'n bodoli ledled y DU, ar gostau a manteision cynnwys tenantiaid yn y prosesau ar gyfer dylunio a rheoli'u cartrefi.

Mae **adran 3** yn cymharu fframwaith cyfranogiad tenantiaid Llywodraeth y Cynulliad â'r rheiny yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae **adran 4** yn cynnwys dadansoddiad o gompactau cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru er mwyn canfod a ydynt yn cydymffurfio â chanllawiau

Llywodraeth y Cynulliad o ran y safonau craidd ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid.

Mae **adran 5** yn amlinellu canfyddiadau'r arolwg ar ffurf holiaduron a wnaed ymhlith sefydliadau genedlaethol a sefydliadau tenantiaid er mwyn cael gwybodaeth gychwynnol am weithgarwch cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru. Hefyd, mae'r adran yn defnyddio's wybodaeth a gasglwyd trwy'r grwpiau ffocws astudiaeth achos a'r cyfweliadau dros y ffôn, sy'n amlygu enghreifftiau o ddylanwad cadarnhaol a negyddol cyfranogiad tenantiaid ar reoli a dylunio tai.

Mae **adran 6** yn cynnwys crynodeb a chasgliadau cyffredinol yr ymchwil.

Mae **adran 7** yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad, landlordiaid cymdeithasol, sefydliadau tenantiaid a sefydliadau cenedlaethol, o ran gwelliannau er mwyn sicrhau bod tenantiaid yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn prosesau rheoli a dylunio tai.

Mae pob pennod yn cynnwys crynodebau o'r pwyntiau allweddol sy'n deillio o bob rhan o'r ymchwil.

**Nodyn ar derminoleg**

Ym mhob rhan o'r adroddiad defnyddiwyd y termau 'cyfranogiad tenantiaid' a 'chynnwys tenantiaid' wrth gyfeirio at y broses o adael i denantiaid leisio barn am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn. Y rheswm yw bod y ddau derm wedi cael eu defnyddio'n rheolaidd gan denantiaid ac aelodau o staff a gymerodd ran yn yr ymchwil, ac oherwydd bod rhai cyfranogwyr weithiau'n meddwl mai 'cynnwys tenantiaid' oedd y ffordd orau o ddisgrifio'r amrediad o brosesau a dulliau a adnabuwyd yn ystod yr ymchwil ar gyfer gadael i denantiaid leisio barn.

Defnyddir y term 'sefydliad tenantiaid' ym mhob rhan o'r adroddiad i ddisgrifio cymdeithasau, ffederasiynau, fforymau neu baneli cyfansoddiadol a/neu gydnabyddedig sy'n cynrychioli tenantiaid. Gallai'r cyrff hyn hefyd gynnwys aelodau sy'n dlesddalwyr, yn berchentywyr a thrigolion eraill yn y gymuned.

Yn ogystal â hynny, ym mhob rhan o'r adroddiad:

- defnyddir y term cymdeithas dai yn hytrach na landlord cymdeithasol cofrestredig;
- defnyddir y term landlord cymdeithasol fel term cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol a chymdeithasau tai;
- defnyddir y term dylunio gan olygu dylunio tai ac ystadau newydd yn ogystal ag adfywio neu wella ystadau ac eiddo;
- defnyddir y term tenant cysylltiedig i ddisgrifio cynrychiolwyr sefydliadau tenantiaid, a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws;
- defnyddir y term tenant anghysylltiedig i ddisgrifio tenantiaid nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliadau tenantiaid, a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws;
- defnyddir y term aelod etholedig i ddisgrifio cynghorydd awdurdod lleol;
- defnyddir y term aelod o fwrdd i ddisgrifio aelod o fwrdd rheoli cymdeithas dai.

# 2 Gwerthusiad o Astudiaethau a Chanllawiau Arferion Da

## 2.1 Cyflwyniad

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn gwerthuso llenyddiaeth ymchwil o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gostau a manteision cynnwys tenantiaid yn y prosesau ar gyfer dylunio a rheoli eu cartrefi. Mae'r bennod yn adnabod themâu a materion allweddol o werthusiad o astudiaethau eraill a chanllawiau arferion da yng nghyswllt cyfranogiad tenantiaid. Adnabuwyd y themâu a'r materion allweddol trwy:

- adolygu astudiaethau diweddar a wnaed yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i werthuso gwahanol elfennau cyfranogiad tenantiaid. Adnabuwyd yr astudiaethau trwy chwilio drwy lenyddiaeth gan gyfeirio'n benodol at ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar gan adrannau'r llywodraeth a'r cyrff rheoleiddiol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. O ran pob un o'r deuddeg astudiaeth a adnabuwyd, casglwyd gwybodaeth am y rhychwant a'r dulliau, y prif ganfyddiadau ac argymhellion. Wedyn adnabuwyd themâu a oedd yn gyffredin rhwng yr astudiaethau a chaiff y rhain eu disgrifio yn adran 2.2;

- adolygu canllawiau arferion da presennol yng nghyswllt cyfranogiad tenantiaid. Archwiliwyd y canllawiau arferion da o'r deuddeg astudiaeth. Yn ogystal â hynny, adolygwyd canllawiau arferion da a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Sefydliad Tai Siartredig, y Comisiwn Archwilio, y Gweithlu Tai Cymunedol a'r Gorfforaeth Dai. Adnabuwyd pwyntiau cyffredinol a phenodol yn y canllawiau arferion da yn unol â'r themâu cyffredin a adnabuwyd yng nghanfyddiadau'r astudiaethau a adolygwyd;

- adnabod enghreifftiau o arferion da ac o arloesi ymhlith amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys yr astudiaethau a'r canllawiau arferion da, Uned Arferion Da'r Sefydliad Tai Siartredig, HouseMark ac arferion cadarnhaol a adnabuwyd mewn adroddiadau ar archwiliadau gan y Comisiwn Archwilio. Adnabuwyd enghreifftiau a oedd yn adlewyrchu'r themâu cyffredin yn ogystal ag enghreifftiau o arloesi. Ceir crynodebau o'r enghreifftiau hyn, pan fo hynny'n briodol, yn adran 5 yr adroddiad;

Ceir rhestr o'r holl astudiaethau a chanllawiau y cyfeirir atynt yn y bennod hon yn y llyfryddiaeth yn Atodiad 3.

## 2.2 Themâu cyffredin o ymchwil flaenorol

2.2.1 Er bod yr amrediad o astudiaethau a adolygwyd yn eang, mae'n bosib adnabod nifer o themâu cyffredin a gaiff eu crynhoi isod.

### Cysylltiad rhwng perfformiad da ac ymgynghori â/cynnwys defnyddwyr gwasanaethau

2.2.2 Roedd dwy o'r astudiaethau - **An Interim Evaluation of Tenant Participation Compacts**, a gyhoeddwyd gan ODPM yn 2003 ac **A Study of Methodologies for Obtaining Customers Views of Service Quality**, a gyhoeddwyd gan Communities Scotland yn 2003 – yn cael bod cyswllt amlwg rhwng sefydliadau a oedd yn perfformio'n dda ac a oedd â diwylliant perfformiad cryf, ac ymrwymiad i geisio safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, a defnyddio'r safbwyntiau hyn wrth wneud penderfyniadau a chysylltu cyfranogiad tenantiaid â safonau gwell wrth ddarparu gwasanaethau.

### Cydraddoldebau

2.2.3 Soniwyd am bwysigrwydd cysylltu â grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a diwallu eu hanghenion mewn chwech o'r astudiaethau. Mae landlordiaid yn gyson yn chwilio am gyngor ac enghreifftiau o ffyrdd priodol ac effeithiol o wneud hyn. Roedd yr astudiaeth gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a oedd yn archwilio'r rhan a gymerir gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac unigolion o'r cymunedau hynny yn y broses gwerthuso dewisiadau stoc yn cydnabod bod grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn un o'r nifer o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli mewn gweithgareddau cynnwys tenantiaid. (ODPM, 2004). Mae grwpiau eraill yn cynnwys pobl ifanc, pobl sy'n byw mewn tai gwasgaredig a.y.b. Mae angen integreiddio mecanweithiau anffurfiol a rhagweithiol ar gyfer cynnwys tenantiaid o grwpiau tangynrychioledig mewn prosesau cyfranogiad ehangach.

### Dewisiadau ar gyfer cyfranogiad

2.2.4 Roedd pump o'r astudiaethau'n mynegi pryder ynghylch y pwyslais ar strwythurau ffurfiol ar gyfer cyfranogiad a chynnwys tenantiaid, gan nodi y gallai hyn arwain at eithrio unigolion a rhai grwpiau, ac y gallai wneud i'r broses gwneud penderfyniadau fod wedi'i chanoli ar nifer fechan o denantiaid. Nid yw strwythurau ffurfiol o anghenraid yn gynrychiolaidd, hyd yn oed os cânt eu diogelu gan ddatganiadau am gyfleoedd cyfartal, cyfansoddiadau ysgrifenedig a.y.b, ac nid yw cynrychiolwyr tenantiaid bob amser yn mynd ati'n ffurfiol i gynrychioli safbwyntiau amrediad o denantiaid. Gwnaeth arolwg testun blaenorol Tai Cymru o gyfranogiad tenantiaid y sylw bod nifer o gymdeithasau tai'n cael bod arnynt angen model hyblyg ar gyfer cyfranogiad tenantiaid a oedd yn ymorol am yr hyn sy'n well gan denantiaid o ran strwythurau ffurfiol ac anffurfiol. (Tai Cymru, 1998). Roedd pump o'r astudiaethau'n gytûn bod angen amrediad eglur ac eang o ddewisiadau ar gyfer cyfranogiad sy'n cynnwys ac yn cyfreithloni rhwydweithiau a chysylltiadau anffurfiol, ac mae nifer o enghreifftiau da o ddulliau o'r fath ar waith.

2.2.5 Roedd astudiaeth yr ODPM o'r rhan a gymerir gan gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac unigolion o'r cymunedau hynny yn y broses gwerthuso dewisiadau stoc yn pwysleisio y gellir defnyddio digwyddiadau byr-dymor sy'n gofyn am gyfathrebu ac ymgynghori â thenantiaid/trigolion, megis gwerthusiadau o ddewisiadau stoc, fel hwb i ddatblygu strategaethau a chyfleoedd yn y tymor hirach ar gyfer cynnwys tenantiaid yn effeithiol, (ODPM, yn y gwaith a ddyfynnwyd).

### Casglu a gweithredu ar safbwyntiau defnyddwyr

2.2.6 Cafodd tair o'r astudiaethau, yn enwedig **A Study of Methodologies for Obtaining Customers Views of Service Quality** a gyhoeddwyd gan Communities Scotland yn 2003, fod amrediad o ddulliau'n cael eu defnyddio i gasglu safbwyntiau defnyddwyr, ond nad yw'r dull mwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio bob amser. Daeth yr ymchwil hon i'r casgliad fod angen i'r broses o gasglu safbwyntiau defnyddwyr ganolbwyntio ar asesu'r blaenoriaethau ar gyfer gwella. Daeth **Customer Involvement: Opportunities for Learning from the Private Sector?**, a gyhoeddwyd gan y Gorfforaeth Dai yn 2002, i'r casgliad y gallai cyrff ym maes tai wneud mwy i gasglu a gweithredu'n unol â safbwyntiau defnyddwyr wrth ddylunio cynnyrch a gwasanaethau.

### Adnoddau ar gyfer cyfranogiad

2.2.7 Cafodd y rhan fwyaf o'r astudiaethau fod amrediad eang o ran faint o adnoddau yr oedd landlordiaid yn eu buddsoddi mewn prosesau ar gyfer cyfathrebu â thenantiaid a chyfranogiad tenantiaid. Roedd ansicrwydd o ran beth oedd yn gyfanswm nawdd rhesymol, o ble dylai arian ddod (yn enwedig yn achos nawdd ar gyfer cyfranogiad tenantiaid) ac asesu gwerth am arian. Cafodd ymchwil y Gorfforaeth Dai i gyfranogiad tenantiaid a gyhoeddwyd yn 2000, nad oedd yn ymddangos bod cydberthynas rhwng yr arian sy'n cael ei wario a 'llwyddiant' cyfranogiad tenantiaid. (Y Gorfforaeth Dai, 2000). Serch hynny, cafodd ymchwil ddiweddar gan Communities Scotland fod perthynas amlwg rhwng y swm sy'n cael ei wario ar gyfranogiad tenantiaid a'i effeithiolrwydd. (Communities Scotland, 2004). Cafodd **Count Us In!** a gyhoeddwyd gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru a Ffederasiwn Tenantiaid Cymru ym 1998, fod cydberthynas rhwng yr adnoddau ar gyfer cyfranogiad a nifer y sefydliadau tenantiaid.

### Integreiddio cyfranogiad tenantiaid

2.2.8 Cafodd tair o'r astudiaethau nad oedd cyfranogiad tenantiaid yn cael ei integreiddio'n effeithiol gan sefydliadau ym mhob un o'u gweithgareddau a'i fod yn cael ei ystyried yn weithgaredd 'ar wahân' i weithgareddau craidd y corff. Roedd enghreifftiau penodol yn cynnwys diffyg cysylltiadau amlwg rhwng prosesau cyfranogiad a chynllunio busnes (Y Gorfforaeth Dai, yn y gwaith a ddyfynnwyd) a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol (Cyngor Defnyddwyr yr Alban, 2003), a diffyg hyfforddiant ym maes cyfranogiad tenantiaid ar gyfer aelodau o Fyrddau cymdeithasau tai (Y Gorfforaeth Dai, yn y gwaith a ddyfynnwyd).

### Mesur llwyddiant

2.2.9 O ystyried gofynion y fframweithiau cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae angen monitro a mesur llwyddiant cyfranogiad tenantiaid. Cafodd ymchwil gan Weithrediaeth yr Alban mai hon yw'r elfen o arferion ym maes cyfranogiad tenantiaid sydd wedi'i datblygu leiaf. (Communities Scotland, yn y gwaith a ddyfynnwyd). Cafodd y gwerthusiad interim o'r rhaglen Innovation into Action fod lle i gynnal hunanwerthusiad o weithgarwch cyfranogiad tenantiaid a phrosiectau unigol, yn ogystal â chynnal asesiadau allanol o faint y llwyddiant a gafwyd, (ODPM, 2003).

## 2.3 Canllawiau arferion da presennol

2.3.1 Mae nifer fawr o gyhoeddiadau sy'n cynnwys canllawiau arferion da yng nghyswllt cyfranogiad tenantiaid a chynnwys tenantiaid, yn ogystal â chanllawiau ehangach ar gyfer cyfathrebu â, a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau. Caiff y rheiny y cyfeiriwyd atynt at ddibenion yr ymchwil hwn eu rhestru yn **Atodiad 3**.

Mae rhai o'r canllawiau yr edrychwyd arnynt fel rhan o'r prosiect hwn yn gyfres o awgrymiadau o ran yr hyn y dylai landlordiaid ei wneud, tra bo canllawiau eraill yn fwy manwl, yn egluro sut y gellir cael arferion gwell. Mae'r ddau fath o ganllawiau fel arfer yn cael eu cyflwyno ynghyd ag enghreifftiau o ffyrdd y cafodd yr egwyddorion eu rhoi ar waith gan sefydliadau landlord unigol. Mae amrediad y bennod hon yn cwmpasu'r ddau fath o ganllawiau.

Caiff rhai pwyntiau penodol yn y canllawiau arferion da eu crynhoi isod, yn ôl y themâu cyffredin a adnabuwyd mewn astudiaethau presennol. Bydd yn amlwg o'r pwyntiau hyn bod cryn amrywiaeth o ran lefel y manylder mewn canllawiau arferion da. Mae canllawiau'n cynnwys rhai pwyntiau penodol iawn y gellir eu troi'n gymharol rwydd yn weithredu ymarferol gan sefydliadau, a rhai pwyntiau eang iawn y mae'n bosib, oni bai eu bod yn cael eu cysylltu ag enghreifftiau ymarferol o ffyrdd o gyflawni'r amcanion yn y datganiadau, na fyddant yn arbennig o ddefnyddiol i denantiaid, swyddogion, aelodau o fyrddau neu gynghorwyr.

### Cysylltiad rhwng perfformiad da ac ymgynghori â, a chynnwys tenantiaid

2.3.2 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer landlordiaid yn cynnwys y canlynol:

- cynnwys tenantiaid yn y gwaith i wella gwasanaethau trwy ddulliau megis siopa dirgel, rheithgor tenantiaid, a.y.b.;
- gweithredu systemau gwybodaeth da er mwyn rhannu gwybodaeth o fewn sefydliadau a rhwng sefydliadau;
- sicrhau ymrwymiad i, a darparu diwylliant ar gyfer, cyfathrebu â, a chynnwys defnyddwyr gwasanaethau;
- sicrhau bod mecanweithiau effeithiol yn bodoli er mwyn cael adborth ar wasanaethau a'u bod yn cael eu defnyddio gan yr holl gwsmeriaid, bod gwasanaethau'n cael eu newid o ganlyniad i adborth a bod monitro'n digwydd er mwyn gweld a yw lefelau bodlonrwydd wedi codi o ganlyniad i'r newidiadau a wnaed.

### Cydraddoldebau

2.3.3 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer landlordiaid yn cynnwys:

- mae'n rhaid wrth gamau ymarferol er mwyn cyfathrebu a chynyddu galluoedd wrth gysylltu â thenantiaid a grwpiau BME, pobl sydd ag anawsterau llythrennedd, tenantiaid sydd wedi'u hynysu'n ffisegol a phob grŵp arall;
- sicrhau y ceir amrywiaeth mewn strwythurau cynrychiolaidd;
- bydd strategaeth dda ar gyfer cyfranogiad tenantiaid yn:
    - cydnabod amrywiaeth y cymunedau a phwysigrwydd addasu mecanweithiau cynnwys tenantiaid fel eu bod yn effeithiol i bob un ohonynt; a
    - mynd ati'n rhagweithiol i ymwneud â phob rhan o'r gymuned.

### Dewisiadau ar gyfer cyfranogiad

2.3.4 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer landlordiaid yn cynnwys:

- cynnal archwiliad o denantiaid fel y gellir darparu dewisiadau ar gyfer cyfranogiad sy'n diwallu gwahanol anghenion;
- rhoi anogaeth i gymryd rhan ar bob lefel;
- sicrhau bod y strategaeth cyfranogiad tenantiaid yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer cynnwys unigolion a grwpiau a'i bod yn cael ei datblygu a'i hadolygu gyda thenantiaid yn chwarae rhan weithredol;

- mynd â chyfranogiad at y tenantiaid yn hytrach na disgwyl iddynt hwy ddod at y sefydliad;
- darparu dulliau ymarferol ar gyfer tenantiaid; a
- defnyddio rhwydweithiau a grwpiau, grwpiau ffydd neu gymunedol presennol a'u gweithgareddau yn hytrach na chreu strwythurau a gweithgareddau newydd.

### Casglu a gweithredu ar safbwyntiau defnyddwyr

2.3.5 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer landlordiaid yn cynnwys:

- cynnal archwiliad o denantiaid a'u gofynion er mwyn gallu addasu gwybodaeth at wahanol grwpiau/diddordebau;
- defnyddio cronfa ddata er mwyn cofnodi gwybodaeth megis y dulliau cyfathrebu y mae'n well gan bobl eu defnyddio, materion yn ymwneud ag amrywiaeth, cynigion i gyfranogi o weithgarwch ymgynghori yn y dyfodol a.y.b.;
- adolygu arferion gweithio presennol ynghyd â chyflwyno technegau ar gyfer cynnwys cwsmeriaid fel y gellir mynd i'r afael â materion a adnabuwyd wrth ymgynghori;
- rhoi adborth ar yr hyn sydd wedi digwydd i'r safbwyntiau/sylwadau a'r hyn sydd wedi cael ei wneud o ganlyniad;
- un o egwyddorion ymgynghori a chynnwys effeithiol yw dangos canlyniadau gwirioneddol.

### Adnoddau ar gyfer cyfranogiad

2.3.6 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer landlordiaid yn cynnwys:

- rhoi cymorth i gyrff tenantiaid;
- adnabod anghenion o ran hyfforddiant a chymorth a gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â hwy;
- bod yn realistig wrth lunio cyllidebau, gan gynnwys costau teithio, costau ffôn, cyfarfodydd a hyfforddiant, gofal plant a chostau gofal eraill a choll enillion.

### Prif-ffrydio cyfranogiad

2.3.7 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer tenantiaid yn cynnwys:

- sefydlu ymrwymiad i gyfranogiad tenantiaid ymhlith aelodau o staff;
- dylid cael ymrwymiad a newid gydag awdurdod a chefnogaeth amlwg yr uwch-reolwyr;
- cynyddu amlygrwydd cyfranogiad tenantiaid, gan ei drin fel rhywbeth sy'n effeithio ar y gymdeithas gyfan;
- sefydlu strwythur priodol i hybu cyfranogiad a rhoi cymorth priodol;
- sicrhau nad yw dihidrwydd tenantiaid yn cael ei gamddehongli fel bodlonrwydd tenantiaid;
- sicrhau bod unrhyw aelod o staff sy'n gweithio'n benodol ym maes cyfranogiad tenantiaid wedi'i ynysu oddi wrth waith prif-ffrwd y corff;

- bydd strategaeth dda ar gyfer cyfranogiad tenantiaid:
  - yn gysylltiedig â chamau i greu newid diwylliannol o fewn y corff;
  - yn cynnwys defnyddwyr a staff ar bob lefel; ac
  - yn derbyn yr angen i roi rhwydd hynt i ddefnyddwyr bennu'r agenda.

### Mesur llwyddiant

2.3.8 Mae canllawiau penodol a ddarparwyd ar gyfer landlordiaid yn cynnwys:

- gwerthuso popeth
- dysgu o brofiadau eraill
- cynnwys yr holl fudd-ddeiliaid wrth adnabod yr hyn sy'n gyfystyr â llwyddiant a monitro'r broses
- bydd strategaeth dda ar gyfer cyfranogiad tenantiaid yn:
  - cynnwys nodau y gellir eu cyrraedd ac y pennwyd amserlen ar eu cyfer; a
  - cynnwys mecanweithiau ar gyfer gwerthuso ac adolygu.

**Pwyntiau allweddol: gwerthusiad o astudiaethau a chanllawiau arferion da eraill**

- Cafodd astudiaethau fod cyswllt rhwng cyrff sy'n perfformio'n dda ac ymrwymiad i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau'n effeithiol.
- Cafodd astudiaeth gan yr ODPM fod nifer o grwpiau ac unigolion yn cael eu tangynrychioli mewn gweithgareddau cynnwys tenantiaid, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd yr astudiaethau'n gytûn bod angen amrediad eang o ddewisiadau ar gyfer cyfranogiad sy'n cyfreithloni rhwydweithiau anffurfiol yn ogystal â strwythurau ffurfiol.
- Cafodd y rhan fwyaf o astudiaethau fod amrediad eang o ran faint o adnoddau y mae landlordiaid yn eu buddsoddi er mwyn mynd ar drywydd cyfranogiad tenantiaid.
- Roedd casgliadau astudiaethau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn groes i'w gilydd o ran y cydberthynas rhwng arian sy'n cael ei wario a chyfranogiad effeithiol.
- Cafodd rhai astudiaethau fod cyfranogiad tenantiaid yn cael ei ystyried yn weithgaredd 'ar wahân' i waith craidd sefydliadau.
- Cafodd ymchwil yn yr Alban mai monitro a mesur cyfranogiad yw'r elfen o arferion ym maes cyfranogiad tenantiaid sydd wedi cael ei datblygu leiaf.

# 3 Dadansoddiad yn Cymharu'r Fframwaith Cyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru â'r Rheiny yn Lloegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Roedd yr adran hon yn ymwneud ag archwilio a chymharu fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cyfranogiad tenantiaid mewn awdurdodau lleol a chymdeithasau tai â'r fframweithiau sydd mewn grym yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ceir rhestr o'r cyfeiriadau ar gyfer pob fframwaith yn **Atodiad 4**.

## 3.2 Fframweithiau ar gyfer cynnwys tenantiaid yn y DU

3.2.1 Yng Nghymru a Lloegr mae cyfranogiad tenantiaid ar gyfer tenantiaid sicredig wedi'i gynnwys yn Adrannau 104, 105 a 106 Deddf Tai 1985, sy'n rhoi hawliau i denantiaid unigol:

- gael gwybodaeth am amodau'u tenantiaeth, polisïau a gweithdrefnau'u landlordiaid ar gyfer dyrannu cartrefi, eu hawliau hwy fel tenantiaid, a rhwymedigaethau'u landlordiaid o ran atgyweirio;
- bod yn rhan o broses ymgynghori ynghylch newidiadau i'r broses reoli tai; a
- cael gwybodaeth am drefniadau'u landlordiaid ar gyfer ymgynghori â thenantiaid.

3.2.2 Mae canllawiau ar gyfer ymgynghori â thenantiaid, a baratowyd i gyd-fynd â Deddf Tai 1995 yng Nghymru a Lloegr, yn cydnabod bod angen i gynrychiolwyr tenantiaid a grwpiau o denantiaid allu chwarae rhan lawn yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch cyfeiriad y gwasanaeth tai.

3.2.3 Mae gan denantiaid hawl hefyd i dderbyn gwybodaeth am y ffordd y mae eu landlord yn rheoli'u cartrefi, yn unol ag Adran 167 Deddf Llywodraeth Leol 1989 ac Adran 130 Deddf Diwygio Prydlesoedd, Tai a Datblygiad Trefol 1993.

3.2.4 Gall tenantiaid gymryd rhan yn y gwaith o reoli'u cartrefi a'u hystadau mewn ystod o ffyrdd trwy brosesau y cytunir arnynt yn lleol. Serch hynny, mae gan gyrff sy'n cynrychioli tenantiaid hawl statudol i gymryd yr awenau a rheoli'u cartrefi yn lle awdurdodau lleol, dan amodau Hawl i Reoli, cyn belled â'u bod yn cyflawni rhai gofynion penodol a'u bod yn gymwys i wneud hynny.

3.2.5 Ym 1999, paratôdd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) y **National Framework for Tenant Participation Compacts**. Mae hwn yn cynnwys canllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer datblygu compactau tenantiaid. Caiff compactau tenantiaid eu hystyried gan y Llywodraeth fel rhan annatod o'i chyfundrefn Gwerth Gorau. Mae'r safonau craidd yn nodi fframwaith eang ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid ond yn rhoi digon o hyblygrwydd i awdurdodau lleol a'u tenantiaid er mwyn ei gwneud yn bosib addasu'r compactau y maent yn eu datblygu at ofynion lleol. Mae'r canllawiau a baratowyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Chwefror 2000, **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru**

yn debyg mewn nifer o ffyrdd i'r rhai a ddatblygwyd gan yr ODPM.

3.2.6 Mae'r fframwaith yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar y ffaith bod cynnwys tenantiaid yn y broses o wneud penderfyniadau ynghylch rheoli'u cartrefi yn rhywbeth cwbl wirfoddol. Mae hyn yn golygu bod rhwydd hynt i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ddatblygu prosesau a strwythurau nad ydynt yn ystyriol o gynnwys nac ysbryd y canllawiau. Yn ogystal â hynny nid oes safonau isaf statudol y mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol gydymffurfio â hwy, o ran gwneud sefydliadau tenantiaid yn rhan o'r broses.

3.2.7 Caiff y fframwaith sy'n rheoli cyfranogiad tenantiaid ar gyfer tenantiaid sicredig a tenantiaid ansicredig sydd â thenantiaethau-cyfnod sicr a byr-ddaliadau sicr ei ddisgrifio yn y **Gofynion Rheolaethol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru**. Cyflwynwyd y rhain cyn Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ac maent yn cael eu newid ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Côd Rheolaethol newydd arfaethedig yn cynnwys rhwymedigaeth sylfaenol ar gyfer cymdeithasau tai fel a ganlyn:

> "Dylai cymdeithasau ddarparu gwybodaeth a chyngor sydd ar gael yn rhwydd ac sy'n eglur ac yn gywir ar gyfer trigolion. Dylai cymdeithasau fod yn atebol i drigolion am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir. Dylai cymdeithasau ofyn am, gwrando ar, ac ystyried safbwyntiau trigolion. Dylai cymdeithasau annog trigolion i gymryd rhan." Gofynion Rheolaethol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru. Tai Cymru. 1997.

3.2.8 Mae disgwyl i gymdeithasau tai yng Nghymru fabwysiadu dull strategol ar gyfer cynnwys tenantiaid, paratoi strategaeth cyfranogiad tenantiaid a datblygu compactau cyfranogiad tenantiaid yn unol â'r un canllawiau ag a ddefnyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ogystal â hynny, fe ymestynnwyd y fframwaith compactau tenantiaid a gyflwynwyd ar gyfer awdurdodau lleol maes o law i gynnwys cymdeithasau tai.

3.2.9 Yn yr Alban mae Senedd yr Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n golygu bod cynnwys tenantiaid yn hawl statudol, ym Mhennod 3 yn Rhan 2 Deddf Tai (Yr Alban) 2001. Deilliodd yr hawl statudol hon o ddatblygiad y **National Strategy for Tenant Participation** a gyhoeddwyd yn 1999.

3.2.10 Mae gan awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yn yr Alban ddyletswydd statudol i gydweithio â'u tenantiaid. Mae'r gofynion ymarferol ar gyfer landlordiaid cymdeithasol fel a ganlyn:

- Adran 53 – mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai fod â strategaethau cyfranogiad tenantiaid, yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion yr Alban. Mae hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd arnynt gynnal cofrestr o gyrff tenantiaid sy'n cwrdd â meini prawf penodol. Mae'n galluogi Gweinidogion yr Alban i gyflwyno gorchymyn yn nodi'r meini prawf ar gyfer cofrestru neu dynnu enwau oddi ar y gofrestr a'r gweithdrefnau i'w dilyn yng nghyswllt cofrestru neu dynnu enwau oddi ar y gofrestr.

- Adran 54 – mae'n cyflwyno amod newydd sy'n galluogi tenantiaid unigol a sefydliadau tenantiaid cofrestredig i fod

yn rhan o broses ymgynghori gan y landlord ynghylch materion sy'n effeithio arnynt, ac sy'n golygu bod yn rhaid i'r landlord ystyried sylwadau gan denantiaid neu gyrff tenantiaid o fewn graddfa amser resymol.

- Adran 55 a 56 – mae'r rhain yn nodi trefniadau er mwyn i gwmni rheoli cydweithredol sy'n cael ei redeg gan denantiaid lunio cytundeb ag awdurdod lleol neu â chymdeithas dai ar gyfer rheoli'r cartrefi a ddarperir gan y landlordiaid .

- Adran 106 – mae hon yn cynnwys amod yn y Ddeddf yn ymwneud â chyfle cyfartal ac yn nodi bod yn rhaid ei briodoli i strategaethau cyfranogiad tenantiaid a ddatblygir gan landlordiaid cymdeithasol.

3.2.11 Yng Ngogledd Iwerddon mae'r fframwaith ar gyfer cynnwys tenantiaid yn wahanol iawn i wledydd eraill yn y DU, yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith nad yw awdurdodau lleol yn berchen ar gartrefi, a bod gan Weithrediaeth Dai Gogledd Iwerddon (NIHE) fonopoli fwy neu lai o ran darparu tai cymdeithasol. Roedd Gorchymyn Tai (GI) 1983 yn gosod dyletswydd statudol ar NIHE i ymgynghori â thenantiaid ynghylch materion sy'n effeithio ar eu tenantiaethau, yn debyg iawn i Ddeddf Tai 1985 yng Nghymru a Lloegr. Serch hynny, o'r pwynt hwn ymlaen mae'r gwahaniaeth rhwng y fframweithiau'n ddramatig.

3.2.12 Caiff y fframwaith sydd wedi'i sefydlu yng Ngogledd Iwerddon ei adnabod fel yr Housing Community Network, ac fe'i datblygwyd gan NIHE, Northern Ireland Tenant Action Project (NITAP) a chynrychiolwyr tenantiaid/cymunedau yn y Dalaith. Mae'r Housing Community Network yn fframwaith ac iddo bedair haen ar gyfer cynnwys y gymuned, a cheir disgrifiad manwl ohono yn 2.3.22. Er nad yw'r rhwydwaith yn meddu ar rym dyletswydd statudol, mae'n cael ei briodoli'n gyson i holl stoc dai NIHE.

## 3.3 Cynnwys y fframweithiau

3.3.1 Mae ffurf fframwaith yr ODPM ar gyfer cyfranogiad tenantiaid a chynnwys tenantiaid, a'r canllawiau a ddarperir ar gyfer awdurdodau lleol yng nghyswllt compactau tenantiaid yng Nghymru a Lloegr yn debyg iawn. Mae'r canllawiau'n nodi sut y dylai compactau tenantiaid gael eu datblygu, yn cyflwyno cyfres o safonau craidd ac yn argymell sut y dylid monitro'r compactau.

3.3.2 Mae chwech o'r elfennau sy'n rhan o'r safonau craidd yn y ddwy gyfres o ganllawiau yr un fath yn y bôn, ac yn ymwneud â:

- gwasanaethau tai;
- adnoddau;
- cyfarfodydd;
- gwybodaeth;
- sefydliadau tenantiaid; a
- monitro a mesur perfformiad.

3.3.3 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ychwanegu elfen arall at y safonau craidd ar gyfer Cymru. Gelwir yr elfen hon yn "Cynnwys Tenantiaid" ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar strwythurau ffurfiol ar gyfer cynnwys tenantiaid. Nid

oes elfen debyg yng nghanllawiau'r ODPM.

3.3.4 O ran yr elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y ddwy gyfres o ganllawiau, mae'r gwahaniaethau mwyaf yn ymwneud â'r canlynol:

- **Gwasanaethau tai** – mae canllawiau'r ODPM yn cynnwys tair cydran ychwanegol o ran y meysydd y dylid eu cynnwys yn y compact cyfranogiad tenantiaid. Mae'r rhain fel a ganlyn, tai lloches, polisïau cydraddoldeb a chamau unioni er mwyn mynd i'r afael â pherfformiad gwael.

- **Adnoddau** – mae canllawiau'r ODPM yn cynnwys cydran ychwanegol o ran adnoddau ar gyfer cynnwys tenantiaid. Mae a wnelo hyn â'r wybodaeth sydd ar gael i denantiaid. Mae hyn yn eu galluogi i ofyn am unrhyw wybodaeth ychwanegol am adnoddau, cyn belled â'i bod ar gael ac nad yw'n golygu torri cyfrinachedd.

- **Gwybodaeth** – mae canllawiau'r ODPM yn cynnwys tair cydran ychwanegol o ran darparu gwybodaeth ar gyfer tenantiaid. Mae a wnelo'r rhain â'r trefniadau a'r gofynion ar gyfer dirprwyo gwaith rheoli tai, polisïau cydraddoldeb hiliol ac aflonyddu hiliol y cyngor, a'r compactau'u hunain.

- **Sefydliadau tenantiaid** – mae canllawiau'r ODPM yn cynnwys dwy elfen ychwanegol o ran y meini prawf y dylai sefydliadau tenantiaid gydymffurfio â hwy. Mae'r rhain yn weithdrefnau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am un grŵp ar gael yn gyffredinol i denantiaid ac y caiff yr holl denantiaid eu hannog i ddod yn fwy gweithredol, a pharatoi cylchlythyrau rheolaidd neu ffyrdd eraill o gyfathrebu'n ysgrifenedig ag aelodau.

3.3.5 Yn yr Alban mae'r fframwaith yn llawer mwy cyfarwyddol nag yng Nghymru. Mae'n ofynnol i bob landlord cymdeithasol baratoi strategaeth cyfranogiad tenantiaid ac mae'r ddogfen a gyhoeddwyd gan Weithrediaeth yr Alban **The Housing (Scotland) Act 2001: Guidance on Tenant Participation** yn cynnwys canllawiau manwl ar gyfer paratoi'r strategaeth, y broses y dylai landlordiaid ei dilyn wrth ddatblygu'r strategaeth, sut y dylai landlordiaid gael ac ystyried safbwyntiau tenantiaid,ac asesu'r gofynion o ran adnoddau.

3.3.6 Mae cyflwyno Sefydliadau Tenantiaid Cofrestredig yn wahaniaeth mawr arall rhwng yr Alban, a Chymru a Lloegr. Mae'r fenter hon yn fodd i sicrhau bod pob sefydliad tenantiaid yn gallu cael ei gofrestru, os yw'n dymuno, gan gydymffurfio â'r amodau ar gyfer cofrestru. Mae statws Sefydliad Tenantiaid Cofrestredig ar gyfer sefydliadau tenantiaid yn yr Alban yn sicrhau bod y landlord nid yn unig yn eu cydnabod ond hefyd yn gorfod ymgynghori â hwy ac ystyried eu safbwyntiau cyn dod i benderfyniad terfynol, sy'n fodd i sicrhau bod sefydliadau tenantiaid yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau.

3.3.7 Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yng Nghymru a Lloegr, ble gall sefydliadau tenantiaid gael eu cydnabod gan y landlord yn ôl y meini prawf y mae'r landlord yn eu mabwysiadu.

3.3.8 Mae'r meysydd y mae'n ofynnol i landlordiaid ymgynghori â sefydliadau tenantiaid yn eu cylch yn yr Alban yn fwy cyfyngedig na'r meysydd y mae compactau

tenantiaid yn berthnasol iddynt yng Nghymru. Mae Adran 54(2)(a) Deddf Tai (Yr Alban) 2001 yn nodi'r meysydd y mae'n rhaid i landlord ymgynghori â thenantiaid a Sefydliadau Tenantiaid Cofrestredig yn eu cylch. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Ei bolisi yng nghyswllt rheoli, atgyweirio neu gynnal a chadw tai, pan fo'r cynnig, os caiff ei weithredu, yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar y tenant;
- Safon y gwasanaethau rheoli, atgyweirio a chynnal a chadw tai y mae'n bwriadu eu darparu;
- Y strategaeth cyfranogiad tenantiaid;
- Gwerthu eiddo os byddai'n arwain at newid landlord neu, os yw'n wahanol, at newid perchennog y tŷ y mae a wnelo'r denantiaeth ag ef.

3.3.9 Er bod y meysydd y mae'n rhaid i landlordiaid cymdeithasol yn yr Alban ymgynghori â'u tenantiaid yn eu cylch yn fwy cyfyngedig na'r meysydd a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth y Cynulliad, nid yw'r canllawiau ar gyfer Cymru'n meddu ar statws statud.

3.3.10 O ran y fframwaith ar gyfer cyfranogiad yng Ngogledd Iwerddon, er ei bod yn wirfoddol fel yr un yng Nghymru a Lloegr, mae wedi cael ei mabwysiadu'n gyson yn yr holl Dalaith ac mae'n ymorol am lefel uwch o ran cyfranogiad tenantiaid a thrigolion, ym maes tai ac yng nghyswllt materion cymunedol eraill. Mae'r fframwaith yng Ngogledd Iwerddon, a elwir yn Housing Community Network, yn hwyluso'r broses o gynnwys tenantiaid wrth adolygu a datblygu gwasanaethau trwy strwythur pyramid sy'n cynnwys y canlynol:

- 600 o grwpiau cymunedol;
- 36 rhwydwaith dosbarth (District Housing Community Network) o baneli defnyddwyr ar lefel dosbarth;
- 5 rhwydwaith ardal (Area Housing Community Network) sy'n cynnwys pum grŵp ymgynghorol cymunedol ar lefel ardal;
- grŵp canolog ar gyfer ymgynghori â chymunedau.

3.3.11 Mae'r canlynol yn disgrifio sut mae'r fframwaith yn gweithio:

- **Grwpiau Cymunedol/Trigolion Lleol**

Mae Grwpiau Cymunedol Lleol a Grwpiau Trigolion Lleol yn dwyn materion a adnabuwyd yn lleol i sylw Gweithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon ac asiantaethau eraill megis yr awdurdod lleol. Caiff pob Grŵp Cymunedol Lleol a Grŵp Trigolion Lleol ei wahodd i ddewis cynrychiolydd ar gyfer y rhwydwaith dosbarth (District Housing Community Network).

- **Y Rhwydwaith Dosbarth**

Rôl y rhwydwaith dosbarth yw:

- darparu adborth gan ddefnyddwyr ar ansawdd cyffredinol y gwasanaethau tai yn y dosbarth;
- monitro perfformiad NIHE gan ei gymharu â safonau perfformiad penodedig;

- ceisio ffyrdd o wella trefniadau cyfathrebu â defnyddwyr; a
- darparu cyngor a chymorth ar gyfer grwpiau cymunedol newydd a sefydledig.

Caiff pob rhwydwaith dosbarth ei wahodd i ddewis o leiaf dau gynrychiolydd i fod yn rhan o'r rhwydwaith ardal (Area Housing Community Network).

- **Y Rhwydwaith Ardal**

Rôl y rhwydwaith ardal yw:

- darparu adborth ar raglenni ledled yr ardal;
- gweithredu fel grŵp cyfeirio ymgynghorol yng nghyswllt gwasanaethau a safonau gwasanaethau; a
- bod yn gyfle i fynegi safbwyntiau yng nghyswllt datblygu cymunedol a materion cysylltiedig.

Caiff pob rhwydwaith ardal ei wahodd i ddewis 3 chynrychiolydd i fod yn rhan o'r rhwydwaith canolog (Central Housing Community Network).

- **Y Rhwydwaith Canolog**

Rôl y rhwydwaith canolog yw:

- gweithredu fel panel cwsmeriaid ar gyfer NIHE trwy gyfranogi o weithgorau polisïau, darparu cyngor ynghylch cyhoeddiadau ar gyfer, a chyfathrebu â thenantiaid; a
- mynd i'r afael â phryderon a gyfeirir ato gan y rhwydweithiau ardal (Area Housing Community Networks).

3.3.12 Caiff y fframwaith hwn ei ariannu gan y Northern Ireland Tenant Action Project, sy'n derbyn nawdd penodol at y diben hwn. Mae'r fframwaith yn hwyluso'r broses o gynnwys tenantiaid nid yn unig mewn materion cymunedol ond hefyd wrth ddatblygu polisïau ar lefel y Dalaith gyfan. Serch hynny, rhaid cydnabod bod datblygiad y fframwaith hwn yn gysylltiedig ag amgylchiadau arbennig yng Ngogledd Iwerddon, ac mae bodolaeth NIHE, sef y landlord cymdeithasol sydd â monopoli yn y Dalaith, wedi bod yn fodd i sicrhau cysondeb wrth gynnwys tenantiaid ar hyd a lled Gogledd Iwerddon.

**Pwyntiau allweddol: dadansoddiad cymharol o fframweithiau cyfranogiad tenantiaid**

- Mae gan denantiaid sicredig yng Nghymru a Lloegr hawliau sy'n eu galluogi i dderbyn gwybodaeth a bod yn rhan o broses ymgynghori yng nghyswllt newidiadau i amodau'u tenantiaethau.
- Caiff y fframwaith ar gyfer cynnwys tenantiaid cymdeithasau tai yng Nghymru'i ddisgrifio yn y Gofynion Rheolaethol ar gyfer RSL.
- Mae'r fframweithiau yng Nghymru a Lloegr yn seiliedig ar sefydliadau'n cynnwys tenantiaid yn wirfoddol.
- Mae'r Fframweithiau Cenedlaethol ar gyfer Compactau Cyfranogiad Tenantiaid yn cynnwys canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yng nghyswllt datblygu compactau.

- Mae'r safonau craidd ar gyfer compactau yng Nghymru a Lloegr yn debyg iawn, gydag elfen ychwanegol yn y safonau yng Nghymru sy'n dwyn y teitl "Cynnwys Tenantiaid", sy'n canolbwyntio ar strwythurau ffurfiol ar gyfer cynnwys tenantiaid.
- Mae Senedd yr Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i drafod â thenantiaid.
- Mae'r Alban wedi cyflwyno'r fenter Sefydliadau Tenantiaid Cofrestredig, y gall pob sefydliad tenantiaid gofrestru ar ei chyfer os ydynt yn cydymffurfio â'r amodau. Mae cofrestru'n rhoi'r hawl i gyrff tenantiaid fod yn rhan o broses ymgynghori yng nghyswllt amrediad o feysydd penodol sy'n ymwneud â gweithgarwch landlordiaid.
- Mae'r meysydd y mae gofyn i landlordiaid ymgynghori â thenantiaid yn eu cylch yn yr Alban yn llawer mwy cyfyngedig nag yng Nghymru.
- Yng Ngogledd Iwerddon mae gan Weithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon ddyletswydd statudol i ymgynghori â thenantiaid. Mae'r Weithrediaeth wedi sefydlu fframwaith gwirfoddol ar gyfer cynnwys y gymuned.
- Mae fframwaith Gogledd Iwerddon, Housing Community Network, yn ymorol am lefel uwch o ran cyfranogi o faterion yn ymwneud â thai a'r gymuned.

# 4 Gwerthusiad o Gompactau Cyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r adran hon yn cynnwys dadansoddiad o gompactau cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru, er mwyn barnu i ba raddau y maent yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth y Cynulliad yng nghyswllt safonau craidd ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid. Mae'r adran hon hefyd yn cysylltu âg adran 5.7. Mae'r adran hon yn disgrifio syniadau landlordiaid a thenantiaid am yr agweddau cadarnhaol a negyddol ar gompactau cyfranogiad tenantiaid, yn ogystal â syniadau ar gyfer gwella'r defnydd arnynt.

4.1.2 Mae'r gwerthusiad yn canolbwyntio ar y mathau o gompactau a ddatblygir gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, y broses a ddefnyddir i'w datblygu a'r cysylltiadau rhwng compactau a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a Gwerth Gorau. Bydd y gwerthusiad yn canfod i ba raddau y mae landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru'n cydymffurfio â phob un o'r saith safon graidd a ddatblygwyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad ym mis Chwefror 2000 yn dwyn y teitl **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru**. Fe ymestynnwyd y safonau hyn maes o law i gynnwys cymdeithasau tai.

4.1.3 Gofynnwyd i bob landlord sy'n awdurdod lleol neu'n gymdeithas dai yng Nghymru ddarparu copi o gompact cyfranogiad eu sefydliad er mwyn iddo gael ei werthuso fel rhan o'r ymchwil. Derbyniwyd cyfanswm o 39 compact cyfranogiad tenantiaid. O'r rhain, derbyniwyd 14 compact gan landlordiaid sy'n awdurdodau lleol a derbyniwyd 25 gan landlordiaid sy'n gymdeithasau tai, sy'n golygu bod canran y rhai a ymatebodd ar y cyfan yn 64%.

4.1.4 Wedyn fe aseswyd pob un o'r compactau cyfranogiad tenantiaid a dderbyniwyd gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru, trwy ymarfer desg, i ganfod i ba raddau yr oedd pob un ohonynt yn cydymffurfio â'r saith safon graidd a gynhwysir yn **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru**, pa fath ydynt, y broses a ddefnyddiwyd i'w datblygu a'r cysylltiadau, a nodir â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a Gwerth Gorau. O ran cydymffurfio â'r safonau craidd, tybiwyd fod pob compact tenantiaid yn cydymffurfio â'r safonau craidd os yw'r compact cyfranogiad tenantiaid yn cynnwys cyfeiriad eglur at unrhyw un o gydrannau pob un o'r safonau craidd, naill ai yn y compact ei hun neu fel rhan o unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd gan y landlord, megis strategaeth cyfranogiad tenantiaid. Ceir adroddiad manwl ar lefel y cydymffurfio â phob un o'r saith safon graidd isod.

4.1.5 Fe adroddir ar y canfyddiadau mewn perthynas â'r ddau grŵp o landlordiaid cymdeithasol, sef awdurdodau lleol a chymdeithasau tai. Gwneir cymariaethau rhwng compactau a ddatblygwyd gan landlordiaid cymdeithasol tebyg, a rhwng y ddau grŵp o landlordiaid cymdeithasol. Mae'r holl ffigyrau a gyflwynir yn yr adran hon yn ymwneud â'r 29 landlord a ddarparodd gopïau o'u compactau cyfranogiad tenantiaid.

## 4.2 Mathau o Gompactau Cyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru

4.2.1 Roedd 13 o'r 14 o gompactau a ddarparwyd gan awdurdodau lleol yn gytundebau rhwng landlordiaid unigol a thenantiaid eu holl stoc. Yr unig eithriad oedd compact a ddatblygwyd ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol, cymdeithas dai leol a ffederasiwn tenantiaid cyffredinol. Mae'r compact hwn yn gosod y safonau isaf ar gyfer cyfranogiad tenantiaid yn yr ardal ond mae'n cynnwys un yn unig o'r tair cymdeithas dai sy'n weithredol yn yr ardal.

4.2.2 Roedd 9 o'r 14 compact cyfranogiad tenantiaid gan awdurdodau lleol yn cynnwys amodau ar gyfer, neu ymrwymiad i, ddatblygu compactau ar lefel ddaearyddol is, e.e. tref, pentref a chymdogaeth. Dychwelodd 3 awdurdod lleol enghreifftiau o gompactau cymdogaeth yr oeddent wedi'u datblygu mewn partneriaeth â thenantiaid mewn cymdogaethau penodol.

4.2.3 Roedd 23 o'r landlordiaid a oedd yn gymdeithasau tai wedi datblygu compactau landlordiaid unigol. O'r rhain, roedd 13 yn ymwneud â phob un o denantiaid y landlordiaid, roedd 8 yn ymwneud â strwythurau cyfranogiad tenantiaid, er enghraifft Pwyllgorau Ymgynghorol Tenantiaid a Phaneli Tenantiaid, ac roedd 3 yn ymwneud â grwpiau tenantiaid/trigolion lleol.

4.2.4 Roedd 3 chompact gan gymdeithasau tai'n wahanol iawn i'r norm. Y cyntaf o'r rhain oedd y compact y cytunwyd arno rhwng y gymdeithas dai, y cyngor a ffederasiwn, fel a drafodwyd uchod. Roedd yr ail yn gompact y cytunwyd arno ar y cyd rhwng dwy gymdeithas dai a chymdeithas trigolion a oedd yn cynnwys tenantiaid y ddau landlord. Roedd y compact hwn yn cynnwys safonau isaf cytunedig ar gyfer cyfranogiad mewn perthynas â thenantiaid y ddau landlord mewn ardal benodol. Roedd y trydydd compact a oedd yn wahanol i'r norm yn un gan gymdeithas arbenigol sy'n cynnig gwasanaethau i fenywod agored i niwed. Mae'r compact yn un rhwng y gymdeithas, ac ei thenantiaid a'u plant.

## 4.3 Datblygu Compactau Cyfranogiad Tenantiaid

4.3.1 Gofynnwyd i landlordiaid a oedd yn awdurdodau lleol ac yn gymdeithasau tai egluro sut yr oeddent wedi datblygu'u compactau cyfranogiad tenantiaid. Mae Ffigur 1 yn dangos sut y datblygwyd compactau gan y 39 o landlordiaid a anfonodd gompactau.

### Ffigur 1: Sut y datblygwyd compactau

| Sut y datblygwyd y compact | Awdurdodau Lleol | Cymdeithasau Tai |
|---|---|---|
| Mewn partneriaeth â thenantiaid | 11 | 19 |
| Landlord yn drafftio ac yna'n ymgynghori â thenantiaid | 0 | 1 |
| Gan y landlord ar ei ben ei hun | 1 | 0 |
| Dim eglurhad | 2 | 5 |

4.3.2 Gellir gweld bod y mwyafrif llethol o landlordiaid cymdeithasol wedi datblygu'u compactau cyfranogiad tenantiaid mewn partneriaeth â thenantiaid. Serch hynny, ni wnaeth un awdurdod lleol gynnwys tenantiaid wrth ddatblygu'i gompact, ac mae nifer sylweddol o landlordiaid cymdeithasol nad ydynt wedi ateb y cwestiwn hwn.

## 4.4 Cysylltiadau â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a/neu Werth Gorau

4.4.1 Cafodd cysylltiadau compactau cyfranogiad tenantiaid â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI) a/neu Werth Gorau eu hasesu trwy nodi a oedd y compact yn sôn yn benodol naill ai am WPI neu am Werth Gorau ac a oedd y compact yn cynnwys eglurhad o ran y berthynas rhyngddo a dull y corff ar gyfer cael gwerth gorau. Mae Ffigur 2 yn dangos sut y mae compactau'n cysylltu â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a/neu Werth Gorau.

**Ffigur 2: Sut y mae compactau'n cysylltu â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a/neu Werth Gorau**

| Cysylltiadau | Awdurdodau Lleol | Cymdeithasau Tai |
|---|---|---|
| Datganiad eglur | 3 | 10 |
| Sôn yn fras | 2 | 4 |
| Dim sôn | 9 | 11 |

4.4.2 Dengys y tabl nad yw ymhell dros hanner yr awdurdodau lleol, nac ymron i hanner y cymdeithasau tai, yn sôn o gwbl yn eu compactau cyfranogiad tenantiaid am y ffordd y mae cyfranogiad tenantiaid yn cysylltu â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a/neu Werth Gorau.

## 4.5 Cydymffurfio â Fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru

4.5.1 Mae'r adran hon yn gwerthuso lefel y cydymffurfio â'r 7 safon graidd a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru**, a ymestynnwyd i gynnwys cymdeithasau tai ym mis Chwefror 2001. Mae'r safonau craidd fel a ganlyn:

- Gwasanaethau tai;
- Adnoddau;
- Cyfarfodydd;
- Gwybodaeth;
- Cynnwys tenantiaid;
- Sefydliadau tenantiaid; ac
- Monitro a mesur perfformiad.


Ceir disgrifiad manwl o gynnwys pob safon graidd yn Atodiad 4.

4.5.2 Rhoddwyd sgôr i bob landlord cymdeithasol a ddarparodd ei gompact(au) yn ôl y nifer o gydrannau ym mhob un o'r saith safon graidd yr oeddent yn eu crybwyll yn eglur naill ai yn y compact ei hun neu yn unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd gan y landlord, megis strategaeth cyfranogiad tenantiaid.

### Gwasanaethau Tai

4.5.3 Mae a wnelo'r elfen gyntaf o'r safonau craidd â'r meysydd o fewn gwasanaethau tai y dylai compactau cyfranogiad tenantiaid fod yn berthnasol iddynt. Mae Ffigur 3 yn dangos lefel cydymffurfio'r sampl o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru â'r elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud â gwasanaethau tai.

**Ffigur 3: Cydymffurfio â'r elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud â gwasanaethau tai**





4.5.4 Roedd compactau cyfranogiad tenantiaid 19 o'r 39 landlord cymdeithasol yn cydymffurfio â llai na hanner y cydrannau yn y safon graidd sy'n ymwneud â gwasanaethau tai.

### Adnoddau

4.5.5 Mae'r ail elfen yn safonau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud â'r cymorth a gynigir gan landlordiaid i denantiaid i'w galluogi i gyfranogi. Caiff hyn ei fesur yn ôl yr adnoddau y mae landlordiaid yn eu cynnig i denantiaid. Mae Ffigur 4 yn dangos lefel y cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud ag adnoddau, ymhlith y sampl o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru.

**Ffigur 4: Cydymffurfio â'r elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud ag adnoddau**




4.5.6 Roedd 35 o’r 39 landlord cymdeithasol yng Nghymru’n cydymffurfio â hanner neu fwy na hanner yr elfen hon o’r safonau craidd. Roedd 20 o’r 25 cymdeithas dai’n cydymffurfio ag o leiaf 4 o’r 6 chydran yn yr elfen hon o’r safonau, o’i gymharu â 9 o’r 14 landlord sy’n awdurdodau lleol.

## Cyfarfodydd

4.5.7 Mae a wnelo’r drydedd elfen yn safonau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru â’r modd y cynhelir cyfarfodydd er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y landlord a thenantiaid. Mae Ffigur 5 yn dangos lefel y cydymffurfio ymhlith y sampl o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru â’r elfen o’r safonau craidd sy’n ymwneud â chyfarfodydd.

**Ffigur 5: Cydymffurfio â’r elfen o’r safonau craidd sy’n ymwneud â chyfarfodydd**





4.5.8 Roedd tri ar ddeg o’r landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru’n cydymffurfio’n llwyr â phob un o gydrannau’r elfen hon o’r safonau. Serch hynny, roedd 9 o’r landlordiaid cymdeithasol a gynhwyswyd yn y sampl wedi methu â datgan y safonau y byddant yn anelu atynt wrth drefnu a chynnal cyfarfodydd cyhoeddus â thenantiaid.

## Gwybodaeth

4.5.9 Mae a wnelo’r bedwaredd elfen yn safonau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru â gwybodaeth sy’n cael ei darparu gan landlordiaid ar gyfer tenantiaid er mwyn diwallu’u hanghenion, er mwyn eu galluogi i ffurfio safbwyntiau deallus am faterion a chyfranogi’n effeithiol o’r broses gwneud penderfyniadau. Mae Ffigur 6 yn dangos lefel y cydymffurfio ymhlith y sampl o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru â’r elfen yn y safonau craidd sy’n ymwneud â gwybodaeth.

**Ffigur 6: Cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â gwybodaeth**





4.5.10 Roedd 15 o'r 39 o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru'n cydymffurfio ag o leiaf hanner y cydrannau yn yr elfen o'r fframwaith sy'n ymwneud â gwybodaeth.

### Cynnwys tenantiaid

4.5.11 Mae a wnelo'r bumed elfen yn safonau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru â'r cyfleoedd a gynigir i denantiaid gymryd rhan yn y broses reoli a'r broses gwneud penderfyniadau, trwy strwythurau ffurfiol ac anffurfiol.

4.5.12 Mae Ffigur 7 yn dangos lefel y cydymffurfio ymhlith y sampl o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â chynnwys tenantiaid.

**Ffigur 7: I ba raddau y mae landlordiaid cymdeithasol yn cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â chynnwys tenantiaid**




4.5.13 9 landlord cymdeithasol yn unig yng Nghymru a oedd yn cydymffurfio â mwy na hanner y cydrannau yn yr elfen hon o'r safon. Methodd 11 o landlordiaid sy'n gymdeithasau tai a 5 o landlordiaid sy'n awdurdodau lleol â chydymffurfio ag unrhyw un o'r pum cydran yn yr elfen hon o'r safonau craidd.

### Sefydliadau tenantiaid – Rhestr o Ddewisiadau

4.5.14 Mae a wnelo'r chweched elfen o'r safonau craidd â'r meini prawf y dylai sefydliadau tenantiaid gydymffurfio â hwy er mwyn cael eu cydnabod yn ffurfiol gan eu landlord. Mae'r fframwaith yn cydnabod y dylai fod gan denantiaid y pŵer i ddewis y strwythurau cynnwys tenantiaid sy'n diwallu'u hanghenion orau.

4.5.15 Mae Ffigur 8 yn dangos lefel y cydymffurfio ymhlith y sampl o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â sefydliadau tenantiaid.

**Ffigur 8: Cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â sefydliadau tenantiaid**




4.5.16 Roedd saith awdurdod lleol a deg cymdeithas dai'n cydymffurfio ag o leiaf hanner y cydrannau yn yr elfen hon o'r safonau craidd. Mae pymtheg o gymdeithasau tai a phedwar awdurdod lleol nad oes ganddynt wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am y gydnabyddiaeth a roddir i sefydliadau tenantiaid.

### Monitro a Mesur Perfformiad


4.5.17 Mae a wnelo'r seithfed elfen a'r elfen olaf yn safonau craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid â monitro a mesur perfformiad. Mae'r fframwaith wedi'i fwriadu i sicrhau bod compactau cyfranogiad tenantiaid yn cael eu monitro a'u hasesu'n gyson ac mae'n awgrymu meysydd y dylai tenantiaid a landlordiaid adolygu'r arferion a ddefnyddir ynddynt yn ogystal â rhai safonau perfformiad perthnasol.

4.5.18 Er mwyn pwyso a mesur lefel y cydymffurfio â'r elfen hon, fe aseswyd y nifer o landlordiaid a oedd yn crybwyll mesur a monitro perfformiad yn eu compactau er mwyn gweld i ba raddau yr oeddent yn cydymffurfio â'r cydrannau yn y safon craidd yn unigol.

4.5.19 Mae Ffigur 9 yn dangos i ba raddau y mae landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru'n cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â monitro a mesur perfformiad.

4.5.20 Mae saith awdurdod lleol a 13 o gymdeithasau tai naill ai'n methu â chrybwyll neu'n sôn yn amhenodol am fonitro a mesur perfformiad yng nghyswllt eu compact cyfranogiad tenantiaid.

**Ffigur 9: Cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud â monitro**




**Pwyntiau allweddol: gwerthusiad o gompactau cyfranogiad tenantiaid**

- Roedd mwyafrif y compactau a ddadansoddwyd yn gytundebau rhwng landlord unigol a'r holl denantiaid. Roedd rhai'n gompactau ardal leol, ac eraill yn gytundebau cymdogaeth. Roedd un yn gompact ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol, cymdeithas dai a ffederasiwn tenantiaid.
- Roedd y mwyafrif o gompactau a ddadansoddwyd wedi cael eu datblygu trwy bartneriaeth rhwng tenantiaid a landlordiaid.
- Nid oedd gan fwyafrif y compactau gysylltiadau eglur â Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella a/neu Werth Gorau.
- Roedd compactau gan 7 o awdurdodau lleol ac 11 o gymdeithasau tai yn cydymffurfio â llai na hanner y safonau craidd a nodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwasanaethau tai.
- Roedd mwyafrif llethol y compactau'n cydymffurfio â'r elfen yn y safonau craidd sy'n ymwneud ag adnoddau.
- Roedd 13 o gompactau'n cydymffurfio'n llwyr â'r elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud â chyfarfodydd.
- Roedd 15 o gompactau'n cydymffurfio ag o leiaf hanner yr elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud â gwybodaeth.
- 9 yn unig o'r compactau oedd yn cydymffurfio ag o leiaf hanner yr elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud â chynnwys tenantiaid.
- Roedd 17 o'r compactau'n cydymffurfio ag o leiaf hanner yr elfen o'r safonau craidd sy'n ymwneud â sefydliadau tenantiaid.
- Roedd 20 o'r compactau naill ai'n methu â chrybwyll neu'n sôn yn amhenodol am fonitro a mesur perfformiad.

# 5 Canfyddiadau'r Arolwg ar Ffurf Holiadur, Grwpiau Ffocws Astudiaeth Achos, Cyfweliadau Dros Y Ffôn a Chyfweliadau â Sefydliadau Cenedlaethol

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r bennod hon yn asesu lefel, ansawdd a natur y rhan a gymerir gan denantiaid ym mhrosesau dylunio a rheoli tai cymdeithasol yng Nghymru er mwyn cael gwybodaeth gychwynnol gynhwysfawr am weithgarwch ac er mwyn amlygu enghreifftiau mewn astudiaethau achos o ddylanwad cadarnhaol a negyddol cyfranogiad tenantiaid ar reoli a dylunio tai.

5.1.2 Mae'r adran hon yn seiliedig ar yr elfennau canlynol o'r ymchwil:

- Yr arolwg ar ffurf holiadur;
- Y cyfweliadau dros y ffôn;
- Y grwpiau ffocws gyda sefydliadau astudiaeth achos; ac
- Y cyfweliadau â sefydliadau cenedlaethol.

Mae safbwyntiau budd-ddeiliaid wedi cael eu cyfosod yn ôl y prif themâu canlynol a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwil yn y rhan hon o'r prosiect. Defnyddiwyd y themâu hyn fel fframwaith ar gyfer cyflwyno'r canfyddiadau:

- Safbwyntiau budd-ddeiliaid am gynnwys tenantiaid;
- Sut y cynhwysir tenantiaid;
- Canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid;
- Problemau wrth gynnwys tenantiaid;
- Adnoddau a hyfforddiant;
- Compactau cyfranogiad tenantiaid; a
- Syniadau ar gyfer gwella.

O fewn pob un o'r themâu uchod adnabuwyd nifer o is-themâu, sydd unwaith eto'n adlewyrchu'r materion a godwyd gan rai a gymerodd ran yn yr ymchwil.


5.1.3 Mae'r safbwyntiau gan denantiaid, landlordiaid a darparwyr cymorth a gyflëir yn yr adran hon yn seiliedig ar sylwadau'r 78 o sefydliadau tenantiaid, 36 o landlordiaid a 5 darparwr cymorth a gwblhaodd yr holiaduron a'r 108 o denantiaid a'r 95 aelod o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn.

## 5.2 Safbwyntiau budd-ddeiliaid am gynnwys tenantiaid

### Agweddau at gyfranogiad tenantiaid

5.2.1 Gofynnwyd i aelodau o staff, aelodau o fyrddau, aelodau o awdurdodau lleol a thenantiaid a oedd yn cymryd rhan yn y cyfweliadau dros y ffôn roi eu barn am agweddau'r gwahanol fudd-ddeiliaid o fewn eu sefydliad at gyfranogiad tenantiaid. Mae Ffigur 10 yn dangos ymatebion budd-ddeiliaid.

### Ffigur 10: Agweddau budd-ddeiliaid at gyfranogiad tenantiaid




5.2.2 Gwnaeth dau gynrychiolydd o sefydliadau cenedlaethol y sylwadau canlynol am gyfranogiad tenantiaid:

> ‘Mae’n amhosib dweud bod cyfranogiad tenantiaid bob amser yn gadarnhaol – ond mae gwybodaeth tenantiaid am eu cartrefi a’u cymuned o’r pwys mwyaf yng nghyswllt amrediad eang o faterion, ac nid tai yn unig – ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelwch cymunedol, cyfranogiad cymunedau.’ (Swyddog tenantiaid, sefydliad cenedlaethol)

> ‘Mae cyfranogiad tenantiaid wastad yn gadarnhaol, er y gall fod yn boenus – mae’n hollbwysig os ydych am fod yn sefydliad sy’n dysgu go iawn.’ (Cyfarwyddwr, corff cenedlaethol)

### A yw tenantiaid am gael lleisio barn?

5.2.3 Roedd y mwyafrif o denantiaid ym mhob un o’r grwpiau ffocws yn dweud eu bod am leisio barn am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, eu bod am i’w barn gael ei chymryd i ystyriaeth ac i’w safbwyntiau wneud gwahaniaeth.

> ‘Mae tenantiaid am i’w safbwyntiau gael eu hystyried, a gwneud gwahaniaeth.’ (Tenant cysylltiedig)

> ‘Ydynt, yn fwy nag erioed, (mae tenantiaid) yn fwy ymwybodol yn awr nag oeddent o’r blaen, yn cael mwy o wybodaeth ....yn mynd ati’n fwy i ddarllen deunydd (gan y landlord).’ (Tenant cysylltiedig)

5.2.4 Serch hynny, roedd rhai tenantiaid cysylltiedig yn amau a oedd y rhan fwyaf o denantiaid wir am gael lleisio barn:

> ‘Y cwbl sy’n bwysig i’r rhan fwyaf yw cael eu cartref, talu’r rhent a byw eu bywydau....nid oes diddordeb ganddynt oni bai fod rhywbeth yn mynd o’i le.’ (Tenant cysylltiedig)

5.2.5 Roedd pob un o’r tenantiaid anghysylltiedig yn dweud eu bod am leisio barn am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

> ‘Am gael lleisio barn, (am i’r landlord roi) cydnabyddiaeth i’m sylwadau.’ (Landlord anghysylltiedig)

> ‘Hoffwn pe bawn wedi cael lleisio fy marn pan newidiwyd disgrifiad swydd y warden.’ (Tenant anghysylltiedig)

> ‘Byddwn, (byddwn yn hoffi cael lleisio barn) yn enwedig pe bawn yn cael


problemau gyda thenantiaid eraill neu gyda chymorth.' (Tenant anghysylltiedig)

5.2.6 Roedd y rhan fwyaf o aelodau o staff yn cytuno bod tenantiaid am gael lleisio barn, er bod lleiafrif bychan o aelodau o staff rheng flaen yn dweud mai'r unig adeg y mae tenantiaid am gael lleisio barn yw pan fo ganddynt gŵyn.

## A yw tenantiaid yn cael lleisio barn?

5.2.7 Roedd y tenantiaid a'r landlordiaid a gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur o'r farn bod ymgynghori'n digwydd a thenantiaid yn cael eu cynnwys yng nghyswllt amrediad eang o faterion, er y ceir amrywiaeth o ran i ba raddau y mae hyn yn digwydd. Mae Ffigur 11 yn dangos canfyddiadau budd-ddeiliaid am y mathau o faterion y caiff tenantiaid eu cynnwys ynddynt.


**Ffigur 11: Canfyddiadau budd-ddeiliaid am y mathau o faterion y caiff tenantiaid eu cynnwys ynddynt**



## A yw cynnwys tenantiaid yn gwneud gwahaniaeth?

5.2.8 Mae Ffigur 12 yn dangos bod cryn wahaniaeth rhwng y canfyddiadau cyffredinol am ganlyniadau cyfranogiad rhwng sefydliadau tenantiaid a landlordiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur.

**Ffigur 12: Gwahaniaethau mewn canfyddiadau am ganlyniadau cynnwys tenantiaid**




5.2.9 67% yn unig o sefydliadau tenantiaid a ddywedodd fod cyfranogiad tenantiaid wastad neu weithiau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol, o'i gymharu â 94% o landlordiaid a 100% o ddarparwyr cymorth. Er na ddywedodd yr un landlord nad oedd byth yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol, dywedodd tri awdurdod ac yn gymdeithas nad oeddent yn gwybod a oedd canlyniadau'n gadarnhaol.

5.2.10 Mae'r canfyddiadau cadarnhaol am gyfranogiad sydd gan y mwyafrif llethol o landlordiaid a darparwyr cymorth yn gwrthgyferbynnu'n gryf â safbwyntiau'r 33% o sefydliadau tenantiaid a ddywedodd nad oeddent yn gwybod, neu eu bod yn meddwl nad oedd cyfranogiad yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol.

5.2.11 Roedd canfyddiadau tenantiaid a landlordiaid yn gyson â'i gilydd o ran y meysydd gwasanaeth y mae cynnwys tenantiaid yn arwain at y canlyniadau mwyaf cadarnhaol ynddynt.

Y chwe maes a gafodd eu nodi fel y rhai mwyaf llwyddiannus gan landlordiaid yn nhrefn blaenoriaeth oedd:

- atgyweiriadau;
- paratoi cylchlythyrau;
- cynnal a chadw cynlluniedig;
- ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- gosodiadau; a
- llawlyfrau i denantiaid.

Y pum maes a gafodd eu nodi fel y rhai mwyaf llwyddiannus gan sefydliadau tenantiaid yn nhrefn blaenoriaeth oedd:

- cylchlythyrau;
- llawlyfrau;
- atgyweiriadau o ddydd i ddydd;
- ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- cynnal a chadw cynlluniedig.

5.2.12 Roedd ymatebion cymdeithasau tai'n dynodi eu bod yn gyson yn fwy tebygol nag awdurdodau lleol o gynnwys

tenantiaid ym mhob un o'r 12 maes a grybwyllwyd yn benodol yn yr holiadur. Er enghraifft, dywedodd 95% o'r cymdeithasau tai, o'i gymharu â 64% o awdurdodau lleol, eu bod yn cynnwys tenantiaid wrth drafod atgyweiriadau o ddydd i ddydd, tra bo 55% o gymdeithasau tai, o'i gymharu â 14% o awdurdodau lleol, wedi dweud eu bod yn cynnwys tenantiaid wrth drafod ôl-ddyledion rhent, polisïau a gweithdrefnau.

5.2.13 Gofynnwyd i'r rheiny a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn a yw cyfranogiad tenantiaid yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r ffordd y caiff pethau eu gwneud yn y sefydliad.

5.2.14 Roedd gan denantiaid cysylltiedig safbwyntiau gwahanol o ran a oedd eu cyfraniadau'n gwneud gwahaniaeth. Roedd safbwynt tri grŵp yn gadarnhaol:

> 'Gweithredir ar bob un o'n hawgrymiadau.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Mae'r cyngor yn agored ac yn (ein) derbyn fel grŵp cryf.' (Tenant cysylltiedig)

5.2.15 Dywedodd tenantiaid yn y tri grŵp arall nad oedd eu cyfraniadau'n gwneud unrhyw wahaniaeth ar y cyfan, eu bod yn derbyn gwybodaeth ac yn ei thrafod, ond nad oedd y landlord yn gweithredu ar eu safbwyntiau.

> 'Nid yw (y rhan a chwaraeir gennym) yn gwneud gwahaniaeth. Rydym yn deall mwy ond nid ydym yn dylanwadu ar y broses o reoli tai.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Rydym yn derbyn gwybodaeth ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.' (Tenant cysylltiedig)

5.2.16 Ni ddywedodd yr un o'r grwpiau ffocws o denantiaid anghysylltiedig eu bod yn dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd yn y sefydliad.

5.2.17 Rhoddodd bron pob aelod o staff ym mhob sefydliad ymateb cadarnhaol iawn, gan ddweud bod cyfranogiad tenantiaid yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y mae'u sefydliad yn gwneud pethau:

> 'Mae'n newid pethau'n gyfan gwbl. Rydym yn gwybod y bydd prosiect yn llwyddiannus oherwydd bod tenantiaid yn dweud yn y cychwyn cyntaf beth yw eu dyheadau.' (Uwch reolwr)

> 'Cynnwys tenantiaid yw'r sail i bopeth a wnawn – mae'n rhan annatod o'n gweithgareddau. Caiff ein tenantiaid eu gwerthfawrogi a'u parchu ac ni allem fod wedi cyflawni'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni heb iddynt fod wedi chwarae rhan weithredol.' (Darparwr cymorth)

### Terminoleg

5.2.18 Roedd nifer sylweddol o'r rheiny a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, yn enwedig staff rheng flaen, yn dehongli'r term "cyfranogiad tenantiaid" fel proses pan fo tenantiaid yn cael eu cynnwys mewn grwpiau ffurfiol yn unig, er enghraifft cymdeithasau, paneli, fforymau a ffederasiynau tenantiaid a thrigolion. Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio ffyrdd eraill o adael i denantiaid y sefydliad gael lleisio barn am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn, roedd aelodau o staff yn gallu disgrifio amrediad o ddulliau eraill yr oeddent yn eu defnyddio i gael safbwyntiau tenantiaid am y gwasanaeth, nad oeddent wedi'u hystyried yn flaenorol fel enghreifftiau dilys o gyfranogiad tenantiaid.

Pwyntiau allweddol: safbwyntiau budd-ddeiliaid am gynnwys tenantiaid

- Mynegodd y mwyafrif llethol o aelodau o fyrddau, aelodau o staff a thenantiaid cysylltiedig safbwyntiau cadarnhaol am gyfranogiad tenantiaid.
- Mynegodd y mwyafrif o denantiaid anghysylltiedig safbwyntiau niwtral neu negyddol am gyfranogiad tenantiaid.
- Dywedodd mwyafrif yr holl denantiaid eu bod am leisio barn am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn, eu bod am i'w barn gael ei hystyried ac i'w safbwyntiau wneud gwahaniaeth.
- Roedd y rhan fwyaf o aelodau o staff yn cytuno bod tenantiaid am leisio barn.
- Adnabu tenantiaid a landlordiaid amrediad eang o faterion yr ymgynghorir â thenantiaid yn eu cylch ac yr oedd tenantiaid yn chwarae rhan ynddynt.
- Dywedodd traean o'r holl sefydliadau tenantiaid a gwblhaodd yr holiadur, a hanner y grwpiau ffocws o denantiaid cysylltiedig nad oeddent yn gwybod a oedd cynnwys tenantiaid yn gwneud gwahaniaeth neu eu bod yn meddwl nad oedd cynnwys tenantiaid yn gwneud gwahaniaeth.
- Dywedodd y mwyafrif llethol o landlordiaid a gwblhaodd yr holiadur ac aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod cynnwys tenantiaid wastad neu weithiau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol.
- Roedd tenantiaid a landlordiaid yn gytûn o ran y meysydd gwasanaeth yr oedd cynnwys tenantiaid yn arwain at y canlyniadau mwyaf cadarnhaol ynddynt.
- Roedd rhai aelodau o staff yn dehongli'r term 'cyfranogiad tenantiaid' fel proses o gynnwys tenantiaid trwy sefydliadau tenantiaid ffurfiol.

'Byddai'n dda gen i pe gallem gael gwared ar y term 'cyfranogiad tenantiaid' – 'cynnwys cwsmeriaid' ddylai'r term fod.' (Aelod o staff rheng flaen)

'A yw wedi darfod ar y term 'cyfranogiad tenantiaid'?' (Gweithiwr ym maes cyfranogiad tenantiaid)

## 5.3 Sut y cynhwysir tenantiaid

### Cynnwys trwy grwpiau a strwythurau ffurfiol

5.3.1 Roedd y landlordiaid a gwblhaodd yr holiadur yn gweithio gyda chyfanswm o 311 o sefydliadau tenantiaid lleol.

5.3.2 Yn ôl y landlordiaid a ymatebodd, roedd gan awdurdodau lleol bron ddwywaith gymaint o sefydliadau tenantiaid ag a oedd gan gymdeithasau tai, cyfanswm o 188 o grwpiau sy'n ymwneud ag awdurdodau lleol, o'i gymharu â 123 o grwpiau sy'n ymwneud â chymdeithasau tai. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan awdurdodau lleol ar gyfartaledd deirgwaith gymaint o stoc ag sydd gan gymdeithasau tai. Roedd 35% o denantiaid awdurdodau lleol yn byw mewn ardaloedd yr oedd grwpiau tenantiaid lleol yn weithredol ynddynt o'i gymharu â 18% o denantiaid cymdeithasau tai, sy'n adlewyrchu gwahaniaethau rhwng proffiliau stoc, gyda stoc awdurdodau lleol yn fwy tebygol o fod wedi'i chrynhoi mewn ystadau.

5.3.3 Roedd grwpiau sy’n ymwneud ag awdurdodau lleol yn cynrychioli ar gyfartaledd ddwywaith a hanner gymaint o denantiaid â grwpiau sy’n ymwneud â chymdeithasau tai fel a ddangosir yn Ffigur 13.

**Ffigur 13: Nifer y tenantiaid a gynrychiolir gan sefydliadau tenantiaid**

| Landlord | Nifer Y Sefydliadau Tenantiaid Lleol | Nifer Y Tenantiaid A Gynrychiolir | Maint Pob Grŵp Ar Gyfartaledd | % Y Stock Y Mae Sefydliadau Tenantiaid Ar Eu Cyfer |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | 188 | 37,035 | 196 | 35% |
| Cymdeithas dai | 123 | 9,116 | 74 | 18% |

5.3.4 Roedd gan bob awdurdod lleol ac 85% o’r cymdeithasau tai a arolygwyd fforwm neu ffederasiwn tenantiaid landlord-eang. Mae Ffigur 14 yn dangos cyfansoddiad aelodaeth y fforymau neu’r ffederasiynau.

**Ffigur 14: Cyfansoddiad aelodaeth y fforymau neu’r ffederasiynau**

| Landlord | % Â Chynrychiolwyr O Grwpiau Lleol | % Â Gwirfoddolwyr Unigol | % Â Thenantiaid Wedi’u Hethol Yn Y CCB | Eraill |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol | 50% | 29% | 14% | 7% |
| Cymdeithas dai | 30% | 60% | 10% | 0% |

5.3.5 Dywedodd 71% o’r grwpiau tenantiaid eu bod yn aelodau o’u ffederasiwn neu fforwm. Dywedodd 43% o’r awdurdodau, 55% o’r cymdeithasau tai a 42% o’r grwpiau tenantiaid fod sefydliadau tenantiaid unigol yn aelodau o ffederasiynau aml-ddeiliadaeth. Roedd hanner y cyrff a oedd yn weithredol yn holl ardal yr awdurdod lleol yn seiliedig ar gynrychiolwyr o grwpiau lleol. Roedd Cymdeithasau Tai ddwywaith mor debygol o seilio’u corff landlord-eang ar gynrychiolwyr unigol (60%) nag ar grwpiau lleol (30%). Dywedodd 50% o’r cymdeithasau tai fod eu tenantiaid yn rhan o grŵp ambarél aml-landlord o’i gymharu â 43% o awdurdodau lleol.

5.3.6 Mynegodd tenantiaid a landlordiaid rywfaint o bryder ynghylch cynrychioledd grwpiau lleol. Roedd cynrychiolydd un sefydliad tenantiaid cenedlaethol o’r farn bod angen gwneud mwy i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y grwpiau.

5.3.7 Roedd cynrychiolydd un sefydliad landlordiaid cenedlaethol yn meddwl bod ffyrdd mwy ffurfiol o drafod â'r cyhoedd yn cael eu disodli gan ddulliau eraill. Roedd hyn yn cael ei wneud yn waeth gan bryderon nad oedd rhai grwpiau tenantiaid yn cynrychioli'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ar y cyfan. Cafodd hyn ei nodi gan nifer fawr o landlordiaid a thenantiaid hefyd, fel a nodir yn Adran 5.5.

5.3.8 Roedd pob un heblaw un o'r sefydliadau a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws wedi datblygu strwythurau ffurfiol i denantiaid gymryd rhan yng ngwaith y sefydliad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- paneli neu fforymau agored yr oedd tenantiaid yn gallu bod yn rhan ohonynt a mynegi'u safbwyntiau. Mae uwch aelodau o staff y sefydliad hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd ac yn adrodd yn ôl i'r sefydliad ar y safbwyntiau;

- ffederasiynau cyffredinol yn cynnwys cynrychiolwyr wedi'u henwebu o ffederasiynau tenantiaid a thrigolion lleol. Mae'r ffederasiynau'n cwrdd ag uwch aelodau o staff y sefydliad, yn derbyn gwybodaeth ac yn mynegi safbwyntiau am newidiadau arfaethedig i bolisïau a gweithdrefnau, ac yn trafod materion sydd o bwys i holl denantiaid y sefydliad;


- cymdeithasau tenantiaid a thrigolion lleol sy'n agored i'r rheiny sy'n byw mewn ardal benodol ac sy'n ymdrin â materion lleol, gan gwrdd yn ôl yr angen â swyddogion tai lleol ac aelodau eraill o staff perthnasol;

- grwpiau eraill, gan gynnwys dau fforwm tai lloches, grŵp i denantiaid dan 35 a'u plant, a fforymau sirol ar gyfer cynrychiolwyr grwpiau tenantiaid a thrigolion mewn ardal benodol.

### Cynnwys trwy gynnig rhestr o ddewisiadau

5.3.9 Yn sgîl yr arolwg ar ffurf holiadur, cafwyd fod amrediad eang o ddulliau, yn ogystal â sefydliadau tenantiaid traddodiadol, yn cael eu defnyddio i gynnwys tenantiaid yn y gwasanaeth. Mae Ffigur 15 yn dangos yr amrediad o ddulliau a adnabuwyd gan landlordiaid a sefydliadau tenantiaid.

**Ffigur 15: Amrediad o ddulliau ar gyfer cynnwys tenantiaid**



5.3.10 Y dull mwyaf cyffredin a adnabuwyd ar gyfer cynnwys tenantiaid oedd trwy sefydliadau tenantiaid lleol, sydd efallai'n adlewyrchu'r ffaith bod yr holiadur wedi cael ei anfon at sefydliadau tenantiaid. Serch hynny, soniodd nifer o'r landlordiaid am ddulliau eraill ychwanegol ar gyfer cynnwys tenantiaid nad oedd yn golygu ymwneud â sefydliadau tenantiaid. Er enghraifft, er bod 4 o bob 5 landlord yn defnyddio gweithgorau a grwpiau tasg a gorffen, 1 o bob 5 yn unig o'r grwpiau tenantiaid oedd yn cymryd rhan yn y rhain, er y gallai natur ddethol pob gweithgaredd egluro hyn yn rhannol.

5.3.11 Mynegwyd pryder gan gynrychiolwyr tenantiaid a gymerodd ran yn yr ymchwil hon, fod dulliau eraill o gynnwys tenantiaid trwy dechnegau megis grwpiau ffocws, yn tanseilio rôl sefydliadau tenantiaid lleol.

> 'Mae grwpiau ffocws yn seiliedig ar agenda'r landlord i raddau helaeth' (cynrychiolydd tenantiaid, sefydliad cenedlaethol)

5.3.12 Roedd y dulliau a gafodd y sgôr uchaf (y rheiny a gafodd sgôr o 80% neu fwy) ymhlith landlordiaid yn cynnwys cymysgedd o strwythurau ffurfiol trwy grwpiau lleol, ffederasiynau, holiaduron a chyfarfodydd cyhoeddus; ac amrediad o ddulliau eraill ar gyfer cynnwys tenantiaid, er enghraifft grwpiau tasg a gorffen a grwpiau ffocws. Roedd tri landlord yn cynnig tâl i denantiaid am fynychu grwpiau ffocws.

5.3.13 Roedd 100% o'r sefydliadau tai â chymorth yn cynnal arolygon o fodlonrwydd defnyddwyr yn rheolaidd, a dyma'r gweithgaredd a gafodd y sgôr uchaf gan unrhyw grŵp. Adnabuwyd nifer o ddulliau eraill ar gyfer cynnwys tenantiaid:

- Arolygon gwerth gorau;
- Cael tenantiaid yn aelodau o fyrddau a phwyllgorau;
- Cynhadledd tenantiaid;
- Cynllun tenant allweddol;
- Cael tenantiaid ar baneli recriwtio;
- Paneli dinasyddion; a
- Cyfarfodydd penodol ag uwch swyddogion.

5.3.14 Rhoddodd nifer o'r sefydliadau a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn enghreifftiau o lwyddiant wrth gynnwys tenantiaid nad ydynt yn gysylltiedig â sefydliadau tenantiaid, trwy gynnig amrediad o ddewisiadau i denantiaid gymryd rhan:

> 'Rydym yn ceisio ymwrthod â'r ddamcaniaeth bod yn rhaid mynd i gyfarfodydd diddiwedd er mwyn cymryd rhan. Mae pob un o'n grwpiau ni'n galluogi tenantiaid i gyfranogi trwy 'roi trwyn i mewn' – maent yn berthnasol i faterion ac ardaloedd penodol." (Uwch reolwr)

## Enghraifft o arferion cadarnhaol

**Darparu amrediad o ddewisiadau ar gyfer cynnwys tenantiaid**

Mae Cymdeithas Tai Cadwyn yn cynnig amrediad o gyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i denantiaid chwarae rhan yn y sefydliad.

*'Rydym yn dod o hyd i wahanol ffyrdd er mwyn i bobl deimlo'n gyfforddus wrth fynegi'u safbwyntiau...mae 25% o denantiaid (250) wedi chwarae rhan dros y 12 mis diwethaf mewn nifer o faterion...mae'r ffaith ein bod yn cynnwys nifer cynyddol o bobl yn dangos bod yr amrywiaeth o ffyrdd o gymryd rhan yn gweithio…'*

Mae TACT *(Tenants and Cadwyn Together)* yn fforwm agored y gall holl denantiaid Cadwyn ei fynychu. Mae TACT yn cwrdd 8 gwaith y flwyddyn, mae ganddo'i gylch gorchwyl ei hun, a chaiff cyfarfodydd eu cadeirio bob yn ail gan denantiaid a swyddogion. Mae TACT yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol, sgyrsiau a thrafodaethau am wahanol feysydd o fewn y gwasanaeth, ac mae'r Cyfarwyddwr Tai'n adrodd wrth y bwrdd rheoli ar y materion a godir.

Mae *Sglodion a Sgwrsio* (Chips and Chat) yn grŵp sydd yn agored i bobl ifanc a theuluoedd rhwng 16 a 35. Mae'n cwrdd bob dau fis, mae wedi datblygu'i reolau ei hun a chynhelir digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer aelodau a'u plant deirgwaith y flwyddyn, yn ychwanegol at y cyfarfodydd arferol.

Mae'r *Panel Tenantiaid* yn agored i'r holl denantiaid ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod polisïau a gweithdrefnau.

Mae'r *Grŵp BME* yn agored i'r holl denantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ac mae wedi casglu gwybodaeth am broffil tenantiaid Cadwyn, ac mae wrthi ar hyn o bryd yn trafod ym mha feysydd a sut y mae'n dymuno cymryd rhan.

Mae tenantiaid ag anableddau wedi dewis lleisio'u barn mewn ffyrdd eraill yn hytrach na mynychu cyfarfodydd. Mae'r gymdeithas yn gweithio er mwyn datblygu'r ffyrdd mwyaf cyfleus ar eu cyfer.

Yn ogystal â'r grwpiau hyn, mae cyfle i denantiaid chwarae rhan trwy'r canlynol

- cymdeithasau tenantiaid lleol;
- tîm golygyddol gan y tenantiaid sy'n paratoi'r cylchlythyr;
- grwpiau tasg a gorffen a gweithdai ar bynciau penodol;
- cyfarfodydd i fonitro ac adolygu'r compact;
- grŵp o gontractwyr sy'n cynnwys tenantiaid ac aelodau o staff 3 cymdeithas dai sy'n dewis contractwyr;
- datblygu llawlyfr newydd;
- diwrnodau o hwyl a sbri, gyda thenantiaid hefyd yn cael cyfle i sôn wrth aelodau o staff am eu safbwyntiau a'u blaenoriaethau;
- holiaduron bodlonrwydd cwsmeriaid a anfonir at y rheiny y gwnaed atgyweiriadau i'w tai ynghyd â chyfle i ennill gwobr er mwyn eu hannog i'w dychwelyd; a
- dod yn gyfranddaliwr neu'n aelod o'r bwrdd. Ar hyn o bryd daw tri thenant yn aelodau o'r bwrdd trwy gael eu hethol gan yr holl denantiaid mewn pleidlais.

## Enghraifft o arferion cadarnhaol

**Darparu amrediad o ddewisiadau ar gyfer cynnwys tenantiaid**

Mae Cymdeithas Tai Rhondda'n darparu amrediad o ddewisiadau ar gyfer cynnwys tenantiaid trwy strwythurau ffurfiol ac anffurfiol. Mae nifer o gymdeithasau tenantiaid lleol yn bodoli yn ogystal â fforwm cyffredinol i denantiaid y cynhelir etholiadau ar ei gyfer mewn CCB a digwyddiad cymdeithasol ar y cyd unwaith y flwyddyn. Mae'r fforwm yn cydweithio'n agos ag aelodau o staff ym maes tai a datblygu cymunedol a gall enwebu'i aelodau i fod ar y bwrdd. Mae gan y fforwm saith is-grŵp y gall aelodau ymuno â hwy yn ôl yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae'r *pwyllgor cymdeithasol* - yn codi arian ar gyfer gweithgareddau'r Fforwm trwy gynnal digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer tenantiaid.

*Grŵp Gweithredu ym maes Anabledd Cymdeithas Tai Rhondda* – mae'r Grŵp yn rhoi gwybodaeth a chymorth i denantiaid ag anableddau a'u teuluoedd, yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol ac yn trefnu gwibdeithiau.

*Fforwm Ieuenctid* – caiff ei ariannu gan adran Datblygu Cymunedol y Gymdeithas i ymgymryd â phrosiectau, cynnal digwyddiadau cymdeithasol a chyflwyno safbwyntiau fel rhan o'r broses.

*Is-grŵp Trosedd ac Anhrefn* – mae'n cydweithio ag aelodau o staff ar adolygiad Gwerth Gorau o drosedd ac anhrefn, ac yn rhoi cymorth i ddatblygu polisi a gweithdrefn niwsans cymdogaeth.

*Fforwm Cynnal a Chadw* – mae tenantiaid ac aelodau o staff yn trafod materion yn ymwneud â chynnal a chadw o ddydd i ddydd a chynnal a chadw cynlluniedig.

*Panel Polisïau a Gweithdrefnau* – mae'n cwrdd â'r Cyfarwyddwr Tai i ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rheoli tai.

*Panel Gwerth Gorau* – mae'n gweithio gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol ar adolygiadau Gwerth Gorau sydd ar fin cael eu cynnal.

*Prosiect Cyfnewid Amser Cymdeithas Tai Rhondda* – mae'n cynnal astudiaeth dichonoldeb er mwyn sefydlu cynllun Cyfnewid Amser gyda thenantiaid Cymdeithas Tai Rhondda.

Yn ogystal â hyn, gall tenantiaid chwarae rhan yn y gymdeithas trwy'i gweithgareddau datblygu cymunedol sy'n cynnwys:

- llyfrgell teganau a llyfrau er mwyn hyrwyddo arferion magu plant cadarnhaol a dysgu cynnar;
- cynlluniau chwarae ar ôl ysgol ac yn y gwyliau;
- cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes, gan gynnwys TG a chymorth cyntaf;
- prosiectau byw'n iach – rheoli straen a thriniaethau amgen;
- prosiectau celf a cherddoriaeth;
- gerddi cymunedol a gwelliannau amgylcheddol;
- gwella cyfleusterau chwarae a hamdden; a
- prosiectau ar gyfer pontio rhwng cenedlaethau.

### Cynnwys pobl ifanc a thenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

5.3.15 Roedd canlyniadau'r arolwg ar ffurf holiadur yn nodi amrediad o weithgareddau y mae landlordiaid yn ymgymryd â hwy er mwyn annog grwpiau penodol i gymryd rhan:

- Pobl ifanc

Roedd gan gyfanswm o 8 landlord fentrau penodol a oedd wedi'u bwriadu i gynnwys pobl ifanc. Roedd hyn yn cynnwys:

- cyfarfodydd i bobl ifanc (2 landlord);
- mentrau yn ôl y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf;
- gwefan Parth Plant (Kid Zone);
- disgo Golau Glas (Blue Light), mewn partneriaeth â'r heddlu
- diwrnod i ffwrdd ar gyfer pobl ifanc;
- diwrnod o hwyl i'r gymuned; a
- cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o gynllunio parc sglefrfyrddio.

Roedd un gymdeithas tai â chymorth yn cynnwys mamau a'u plant wrth gyfweld â gweithwyr cymorth a'u penodi.

#### Enghraifft o arferion cadarnhaol

**Cynnwys pobl ifanc**

Mae'r Oldford Youth Power Group yn grŵp ieuenctid a arweinir gan bobl ifanc ar ystad yng nghanolbarth Cymru. Mae'r grŵp yn cynnal amrediad o weithgareddau sydd wedi'u bwriadu ar gyfer, ac a drefnir gyda chyfranogiad, trigolion ifanc. Maent yn gweithio I wella cyfleusterau ar gyfer pob grŵp oedran, ac mae'r gwaith yn amrywio o sefydlu cylch chwarae i blant bach i gael cyfleusterau priodol ar gyfer plant yn eu harddegau.

Mae llwyddiannau'r grŵp yn cynnwys:

- sefydlu grŵp drama a llwyfannu cynhyrchiad o **Wizard of Oz** fel pantomeim Nadolig i'r gymuned, a recordiwyd ar dâp fideo a'I ddosbarthu'n eang yn yr ystad;
- ymgyrchu dros gael gwell cyfleusterau ar gyfer pobl ifanc a threfnu digwyddiadau codi arian yn gymorth i hyn – mewn noson bingo'n ddiweddar codwyd £100 ar gyfer prosiect maes chwarae'r grŵp; a
- creu arddangosfa ar gyfer Carnifal Oldford yn 2004 ac ennill y wobr gyntaf am y Wizard of Oldford.

Cafodd y grŵp grant yn ddiweddar yn ôl y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf i ddatblygu'r grŵp drama, ac mae aelodau ar hyn o bryd yn ysgrifennu'r sgript ar gyfer eu pantomeim Nadolig nesaf, **Babes in the Wood**.

- Tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig

Soniodd saith landlord eu bod yn defnyddio datblygiad eu Strategaethau Tai BME i gynnwys tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Roedd mentrau eraill penodol yn cynnwys defnyddio cyfryngau ‘amgen’, y prosiect **Lleisio Barn** a noddwyd trwy Grant Rheoli Tai Cymdeithasol a’r Gynghrair Sebra.

Roedd dau landlord wedi llwyddo i gael Grant Rheoli Tai Cymdeithasol i gynnwys grwpiau a dangynrychiolir. Dywedodd un landlord ei fod wedi cael nawdd trwy Grant Grymuso Tenantiaid er mwyn ariannu gwaith yn y maes hwn.

5.3.16 Dywedodd aelodau o staff o nifer o sefydliadau a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a’r cyfweliadau dros y ffôn fod angen chwilio am amrediad o ffyrdd o gynnwys pobl ifanc a thenantiaid BME.

> ‘Nid yw pobl ifanc yn cael eu denu gan label cyfranogiad tenantiaid, rydym yn methu â dod o hyd i bobl ifanc er mwyn iddynt gymryd rhan. Mae angen inni fod yn hyblyg o ran sut i gynnwys pobl.’ (Aelod o staff rheng flaen)

> ‘Pan fyddwn yn ysgrifennu atynt (at bobl ifanc), does dim ymateb. Pan fyddwn yn mynd i siarad â hwy, i ofyn am gymorth, byddwn yn cael llwyth o wirfoddolwyr.’ (Unigolyn sy’n gweithio gyda phobl ifanc)

> ‘Roeddem am drefnu cyfarfod i ymgynghori â hwy (tenantiaid BME). Eu hymateb hwy oedd ‘pam, mae gennym fywyd, teuluoedd a phlant, ac rydym wedi blino’n lân.’ (Gweithiwr BME )

### Enghraifft o arferion cadarnhaol

**Cynnwys tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**

Mae Grŵp Tai Gwalia, mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai Dewi Sant, Teulu ac Abertawe, Dinas a Sir Abertawe, Mewn Cymru a Chyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe, yn ymgymryd â’r prosiect **Lleisio Barn** er mwyn gwella’r broses o ymgynghori â thenantiaid ac ymgeiswyr o gymunedau BME gan gasglu’u safbwyntiau am wasanaethau presennol a chanfod eu blaenoriaethau o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae’r prosiect wedi’i fwriadu i gynnwys unigolion a grwpiau o gymunedau BME, ceiswyr lloches a phobl nad ydynt o anghenraid yn ymwybodol o’r gwasanaethau a gynigir gan landlordiaid cymdeithasol, er mwyn canfod beth mae pobl yn ei gael yn dda yn yr ardal, y rhesymau y gallai fod ar bobl eisiau symud, ac er mwyn adnabod diffygion yn y gwasanaethau a ddarperir. Mae’r prosiect i fod i gael ei gwblhau yn 2005.

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Cynnwys tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig**

Mae Bwrdeistref Southwark yn Llundain wedi cyflwyno nifer o fesurau i geisio sicrhau bod tenantiaid a thrigolion BME yn gallu cyfleu'u safbwyntiau a dylanwadu ar y broses gwneud penderfyniadau o fewn y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- gweithio gyda'r Sefydliad Tenantiaid a Thrigolion o Gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (SBMETRO) er mwyn hybu mwy o gyfranogiad gan bobl BME;
- cynnwys cynrychiolwyr SBMETRO ar Fforymau Cymdogaeth ym maes Tai a'r Cyngor Tenantiaid sy'n gwasanaethu'r fwrdeistref gyfan;
- cynnwys cymalau'n ymwneud ag aelodaeth o Fforymau Cymdogaeth ym maes Tai a'r Cyngor Tenantiaid i roi lleoedd i grwpiau o fewn y gymuned a dangynrychiolir;
- ei gwneud yn ofynnol i'r holl gymdeithasau tenantiaid a thrigolion fabwysiadu cyfansoddiad safonol sy'n adlewyrchu argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol o ran arferion da;
- bod â gweithdrefn sy'n nodi pa gamau a gymerir os oes digwyddiadau hiliol o fewn cymdeithasau tenantiaid a thrigolion;
- cynnwys camau gweithredu yng nghompact cyfranogiad tenantiaid y Fwrdeistref er mwyn cynyddu cynrychioledd mecanweithiau ymgynghori trwy annog pobl ifanc, pobl anabl a phobl o grwpiau BME i gymryd rhan.

### Cynnwys tenantiaid fel rhan o ddigwyddiadau cymdeithasol

5.3.17 Dywedodd nifer o sefydliadau a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws eu bod yn cynnwys tenantiaid na fyddent fel arfer yn mynychu cyfarfodydd trwy gynnal digwyddiadau cymdeithasol a chasglu safbwyntiau tenantiaid yn anffurfiol.

### Cymryd rhan fel unigolion

5.3.18 Roedd y mwyafrif o denantiaid anghysylltiedig, a'r holl denantiaid ag anghenion o ran cymorth a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn dweud bod yn well ganddynt leisio barn yn unigol yn hytrach nag mewn grwpiau.

> 'Mae'n well gen i siarad mewn sefyllfa un i un.' (Tenant anghysylltiedig)

> 'Ydw (rydw i am leisio barn), rydw i am i rywun ymweld â ni, yn hytrach na'n bod ni'n gorfod mynd atyn nhw.' (Tenant anghysylltiedig)

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

*Cynnwys tenantiaid yn unigol*

Cynhaliodd staff Cymdeithas Tai Charter gyfweliadau canolbwyntiedig ar drothwy'r drws â thenantiaid, gan ddefnyddio methodoleg debyg i'r un a ddefnyddir gan Priority Research. Gofynnwyd un cwestiwn i denantiaid – **'Sut y gall Charter fod yn landlord gwell?'**.

Trefnwyd yr ymatebion fesul thema. Roedd y themâu'n sail i gwestiynau mewn holiadur a anfonwyd at yr holl denantiaid. Gofynnwyd cwestiynau trwy gynnwys dau osodiad ar gyfer pob cwestiwn, a gofyn i bobl ddynodi pa osodiad oedd yn well ganddynt hwy neu â pha osodiad yr oeddent yn cytuno.

O ganlyniadau'r holiadur fe luniodd y sefydliad restr o'r deg uchaf o blith blaenoriaethau'r tenantiaid, ac fe ddefnyddiwyd y rhain fel ysgogiad i ddatblygu'r gwasanaeth.

*"Llwyddodd yr holiadur i gasglu safbwyntiau'r holl tenantiaid o ran yr hyn yr oeddent yn wirioneddol am ei gael, mewn ffordd na fyddai wedi bod yn bosib yn ein tyb ni drwy gymdeithasau tai a thrigolion unigol a phwyllgor ymgynghorol y tenantiaid."* Uwch staff, Cymdeithas Dai Charter

5.3.19 Nododd tenantiaid anghysylltiedig amrediad o ddewisiadau sy'n well ganddynt ar gyfer lleisio barn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn golygu cymryd rhan fel unigolyn. Roedd rhai o'r rhain yn cynnwys:

- cael llinell ffôn er mwyn gofyn cwestiynau;
- cymhorthfa er mwyn cyfleu cwynion;
- blwch awgrymiadau;
- bws chwarae ar yr ystad fel y gall mamau ifainc siarad â phobl yno;
- dweud wrth aelod o staff cymorth neu'r warden tai lloches os oes unrhyw beth o'i le;
- cael sgwrs un i un ag aelod o staff. Trefnu bod aelod o staff yn ymweld â thenantiaid yn y cartref;
- llenwi slipiau asesu bodlonrwydd;
- dweud wrth aelod o staff cymorth, y warden neu swyddogion cyfranogiad tenantiaid os oes ar y tenantiaid angen datrys unrhyw broblemau; a
- cynnal arolygon ymadael mewn tai.

**Pwyntiau allweddol: Sut y cynhwysir tenantiaid**

- Roedd 35% o denantiaid awdurdodau lleol yn byw mewn ardaloedd yr oedd sefydliadau tenantiaid lleol yn weithredol ynddynt, o'i gymharu â 18% o denantiaid cymdeithasau tai.
- Roedd gan bob awdurdod lleol a 85% o gymdeithasau tai fforwm neu ffederasiwn tenantiaid landlord-eang.
- Nododd nifer o landlordiaid ddulliau ar gyfer cynnwys tenantiaid ar wahân i sefydliadau tenantiaid trwy gynnig amrediad o ddewisiadau ar gyfer eu cynnwys.
- Mynegodd cynrychiolwyr tenantiaid bryder bod defnyddio dulliau eraill o gynnwys tenantiaid yn tanseilio rôl sefydliadau tenantiaid.
- Roedd pob sefydliad tai â chymorth yn cynnal arolygon bodlonrwydd rheolaidd ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.
- Mynegodd tenantiaid a landlordiaid bryderon ynghylch cynrychioledd grwpiau lleol.
- Roedd landlordiaid yn cynnal gweithgareddau er mwyn annog grwpiau penodol i gymryd rhan, megis pobl ifanc, tenantiaid BME a thenantiaid ag anghenion o ran cymorth.
- Roedd rhai landlordiaid yn cynnwys tenantiaid na fyddent fel arfer yn mynychu cyfarfodydd trwy gasglu'u safbwyntiau mewn digwyddiadau cymdeithasol.
- Dywedodd y rhan fwyaf o denantiaid anghysylltiedig fod yn well ganddynt leisio barn yn unigol nag mewn grwpiau.

## 5.4 Canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid

### Rheoli tai

5.4.1 Roedd gwelliannau penodol i wasanaethau a nodwyd gan denantiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur yn cynnwys nifer sylweddol o ganlyniadau llwyddiannus nad oedd yn ymwneud yn benodol â thai, ond a oedd yn berthnasol i faterion cymunedol ehangach. Roedd gwelliannau i wasanaethau a nodwyd gan sefydliadau tenantiaid yn cynnwys:

- atgyweiriadau a chynnal a chadw (4 grŵp);
- gwelliannau mawr (3 grŵp);
- ymddygiad gwrthgymdeithasol (2 grŵp);
- gwelliant mewn iechyd a diogelwch (2 grŵp);
- gosodiadau (2 grŵp);
- gwerth gorau (2 grŵp);
- dylunio ystadau;
- rheoli ystadau; a
- cyflwyno Gwasanaeth Aur (Gold Service).

5.4.2 Roedd landlordiaid yn gallu rhoi enghreifftiau o amrediad o ganlyniadau cyffredinol yn bennaf gyda'r mwyafrif yn weithgareddau'n ymwneud â phrosesau gan gynnwys:

- cymryd rhan mewn adolygiadau gwerth gorau (3 landlord);

- gwaith / atgyweiriadau ar raddfa fechan (3 landlord, gan gynnwys grŵp tasg a gorffen atgyweiriadau);
- gwaith ar raddfa fawr;
- archwiliadau ar y cyd o ystadau;
- cynllun yswiriant i denantiaid;
- ‘cerdyn llithro’ ar gyfer rhent;
- sefydlu 8 o ganolfannau adnoddau lleol;
- gwasanaethau wedi’u gwella;
- targedu adnoddau’n well;
- mwy o ymwybyddiaeth o anghenion cwsmeriaid;
- mynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol; a
- blaenoriaethu rhaglenni cynnal a chadw a gwella.

5.4.3 Roedd pedwar o’r bump sefydliad tai â chymorth yn cynnwys tenantiaid yn eu gwasanaeth atgyweirio. Soniodd dau sefydliad tai â chymorth am adborth ar wasanaethau fel un o’r canlyniadau cadarnhaol o bwys sy’n deillio o gynnwys tenantiaid.

5.4.5 Rhoddodd tenantiaid ac aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a’r cyfweliadau dros y ffôn amrediad eang o enghreifftiau penodol o ganlyniadau llwyddiannus sy’n deillio o gynnwys tenantiaid yn y broses o reoli tai fel a ganlyn:

### Polisïau a Gweithdrefnau

- Datblygu neu adolygu:
  - compactau cyfranogiad tenantiaid a chompactau cynnal a chadw;
  - polisïau ymddygiad gwrthgymdeithasol;
  - polisïau gosodiadau a dyrannu lleol;
  - safonau ar gyfer anheddau gweigion;
  - cytundebau tenantiaeth.
- Newidiodd un landlord ei bolisi gosodiadau er mwyn rhoi blaenoriaeth i denantiaid tai lloches presennol i’w galluogi i drosglwyddo i leoedd gwag mewn cynlluniau tai lloches.

### Arolygon a gwybodaeth

- Anfon llythyr i groesawu’r holl denantiaid newydd sy’n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau lleol, e.e. ar ba ddiwrnodau y caiff biniau’u casglu. Gwnaed hyn ar gais sefydliadau tenantiaid.
- Trefnu bod swyddogion tai’n cysylltu â thenantiaid newydd wedi iddynt symud i mewn. Mae hyn yn fodd i gael gwybodaeth ddefnyddiol ac adborth gan denantiaid o ran sut y cawsant eu trin ar yr adeg y gosodwyd yr eiddo.
- Landlord yn cynnal pôl ymadael gyda thenantiaid sy’n rhoi’r gorau i’w tenantiaethau. Mae’r gyfradd ymateb yn 25% ar gyfer hyn.

### Gwella ystadau

- Landlord yn ymgynghori â thenantiaid ynghylch mannau addas ar gyfer gosod camerâu teledu cylch-cyfyng.
- Landlord yn darparu cyfleusterau cadw biniau unigol y gellir eu cloi yn lle biniau ysbwriel ac ardaloedd cadw biniau cyffredin a hynny ar gais tenantiaid.

- Mae gan y rheolwr tai lleol gyllideb gwella ystadau ar gyfer eitemau sy'n rhoi gwerth ychwanegol ym mhob ardal. Mae swyddogion tai'n casglu sylwadau a syniadau tenantiaid drwy gydol y flwyddyn i weld ar beth y dylid gwario'r gyllideb.

- Mae landlord yn gweithio gyda thenantiaid er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynnal a chadw cynlluniedig a chylchol, a datblygu safonau a chytundebau.

### Mentrau newydd

- Ymgynghorwyd â sefydliad tenantiaid ynghylch cyflwyno darparwr trydan a nwy newydd ar gyfer yr holl anheddau gweigion.

- Cyflwynodd un landlord gynllun anogaeth i denantiaid mewn ymateb i sylwadau gan denantiaid bod y landlord yn treulio gormod o amser yn ymdrin â thenantiaid a oedd yn peri problemau ac yn anwybyddu'r rhai 'da'.

### Gwerth Gorau

- Mae landlordiaid yn cynnwys tenantiaid mewn adolygiadau Gwerth Gorau.

### Enghraifft o arferion cadarnhaol

**Cynnwys tenantiaid a thrigolion mewn cynllun gosodiadau cymunedol**

Chwaraeodd tenantiaid a thrigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ran flaenllaw yn natblygiad cynlluniau gosodiadau cymunedol arbrofol ar ddwy ystad oedd â rhestri aros bychain a thenantiaid yn mynd a dod yn gyson – Trinant a Graig y Rhacca.

Cymerodd denantiaid a thrigolion ran mewn dau grŵp a oedd:

- yn rhoi cymorth i ddatblygu'r polisïau a gweithdrefnau ar gyfer gosodiadau cymunedol;
- yn ymchwilio a datblygu pecynnau croeso ar gyfer eu hardal;
- yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi; ac
- yn annog trigolion newydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Cymerodd cynrychiolwyr y grwpiau ran, ynghyd ag aelodau o staff, mewn cyfarfodydd croeso anffurfiol â darpar denantiaid. Roedd y rhain yn rhoi gwybodaeth i ddarpar denantiaid am gyfleusterau, amwynderau a gweithgareddau lleol, yn rhoi cyfle iddynt ofyn cwestiynau ac yn galluogi tenantiaid a thrigolion presennol i ddangos yr ardal iddynt. Roedd gosodiadau cymunedol hefyd yn cynnwys rhoi pwyntiau ychwanegol i ymgeiswyr pan fo hynny'n briodol, am fod â chyswllt â'r ardal leol, bod mewn gwaith, derbyn addysg lawn-amser neu hyfforddiant llawn-amser neu ymgymryd â gwaith gwirfoddol.

Mae'r fenter gosodiadau cymunedol wedi bod o fantais i ymgeiswyr, trigolion lleol a'r Cyngor:

- Mae rhestrau aros wedi cynyddu;
- Mae nifer y gwrthodiadau a nifer y tenantiaid sy'n mynd a dod wedi gostwng;
- Mae cysylltiadau gwell wedi cael eu meithrin rhwng trigolion lleol a staff yr adran dai;
- Mae'r broses wedi rhoi cyfle i ymgeiswyr wneud dewis deallus wrth ddod i benderfyniad allweddol – eu cartref yn y dyfodol.

### Enghraifft o arferion cadarnhaol

#### Ymgynghori ynghylch newid darparwr gwasanaethau

Mae Cyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf wedi dod i gytundeb â Scottish Power fel y darparwr nwy a thrydan sy'n cael blaenoriaeth, ar gyfer anheddau gweigion yn gyntaf. Y manteision yw y bydd y cyflenwr yn rhoi sicrwydd y codir ar denantiaid yn ôl cyfradd gystadleuol, y bydd y mesurwyr yn eu lle ac y bydd y cyflenwad ymlaen yn barod pan fydd y tenantiaid yn symud i mewn am y tro cyntaf, a hynny er mwyn lleihau'r oedi a geir pan fo tenantiaid yn symud i mewn i dai. Bydd yr awdurdod lleol yn derbyn comisiwn am y gwariant gan Scottish Power, y bydd wedyn yn ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau effeithlonrwydd ynni gyda'r stoc dai.

Gwnaeth Scottish Power gyflwyniad ar y cynllun ar gyfer Pwyllgor Gweithredol Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Rhondda Cynon Taf ac roedd uwch reolwyr y Cyngor hefyd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau. Wedyn estynnodd Pwyllgor Gweithredol y Ffederasiwn wahoddiad i Scottish Power fynychu cyfarfod agored ar gyfer aelodau'r Ffederasiwn er mwyn cyflwyno'r cynllun a chlywed safbwyntiau tenantiaid. Yn dilyn trafodaeth, fe gytunodd y tenantiaid y byddai'n iawn i'r Cyngor ganlyn arni gyda'r cynllun, ac fe gadarnhaodd y Ffederasiwn ei fod yn gefnogol i'r fenter.

### Y Gymuned a'r Amgylchedd

5.4.6 Ac eithrio cynllun gwarchod y gymdogaeth a grybwyllwyd gan un gymdeithas, ni soniodd y landlordiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur yn benodol am welliannau i'r gymuned a oedd yn deillio o gynnwys tenantiaid. I'r gwrthwyneb, fe nododd grwpiau tenantiaid restr o welliannau i'r gymuned a oedd wedi deillio o'u cyfraniad hwy. Roedd y rhain yn cynnwys:

- cludiant a phriffyrdd gan gynnwys goleuo'r strydoedd yn well (2 grŵp);
- parcio ceir (2 grŵp);
- goleuadau traffig;
- ceidwad croesfan;
- llwybrau diogel i'r ysgol;
- rheoli traffig a llinellau melyn dwbl;
- cyfleusterau i'r gymuned gan gynnwys meysydd chwarae (2 grŵp);
- tŷ cymunedol;
- meinciau;
- plannu coed; a
- gardd gymunedol.

5.4.7 Soniodd tenantiaid hefyd am waith penodol yr oedd eu grwpiau wedi'i wneud mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, gan gynnwys yr heddlu ac adrannau eraill yn y cyngor.

5.4.8 Roedd cynrychiolydd tenantiaid o un o'r sefydliadau cenedlaethol a gymerodd ran yn yr ymchwil o'r farn bod gan gyfranogiad tenantiaid ran bwysig i'w chwarae wrth fynd i'r afael â materion yn ymwneud â diogelwch y gymuned:

'O'r diwrnod cyntaf, roedd cyfranogiad tenantiaid yn golygu mwy na rheoli tai – nid yw'n bosib datgysylltu tai oddi wrth faterion eraill megis tlodi. Ni fyddai Cymunedau'n Gyntaf wedi dechrau oni bai am gyfranogiad tenantiaid.' (Cynrychiolydd tenantiaid, sefydliad cenedlaethol )

5.4.9 Soniodd y tenantiaid a'r aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn am nifer o enghreifftiau ymarferol o ganlyniadau llwyddiannus sydd wedi deillio o gyfranogiad tenantiaid yng nghyswllt materion cymunedol ac amgylcheddol:

- Gofynnodd sefydliad tenantiaid i'r gymdeithas roi arwyddion i ddangos bod traffig peryglus yn agos at y maes chwarae;
- Ariannwyd diwrnod o hwyl a sbri gan landlord mewn partneriaeth â chymdeithas tenantiaid a thrigolion;
- Cafodd landlord wared ar brysglwyni pan ddywedodd tenantiaid nad oeddent yn gallu cyrraedd eu ffenestri er mwyn eu glanhau. Darparwyd ardal balmantog a mainc yn eu lle;
- Ymgynghorwyd â thenantiaid cyn penderfynu ble i roi goleuadau allanol a pha un ai amserydd ynteu synhwyrydd fyddai orau er mwyn eu rheoli;
- Ymgynghorodd landlord â thenantiaid cyn penderfynu ble i osod meinciau ar ystad, a ble i osod arwyddion a phonciau yn y ffordd er mwyn arafu traffig;
- Amgaewyd gerddi ar un ystad wedi i drigolion gwyno am gŵn a phlant;
- Gofynnwyd i denantiaid fynegi'u safbwyntiau am y defnydd o le agored yn dilyn dymchwel 4 garej. Fe benderfynon nhw greu parc sglefrfyrddio;
- Anfonodd cymdeithas tenantiaid a thrigolion arolwg at bobl ifanc i ganfod pa gyfleusterau yr hoffent eu cael. O ganlyniad mae'r cyngor yn mynd i ddarparu parc sglefrfyrddio a lle i gicio pêl.

**Enghraifft o arferion da**

**Adfywio cymunedau ac ystadau**

Aeth Cymdeithas Trigolion Fernhill ati i ganfod blaenoriaethau trigolion ar gyfer yr ardal gan geisio safbwyntiau'r holl drigolion trwy ymweld â chartrefi, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac anfon cylchlythyrau rheolaidd. Hefyd fe wnaethant ddefnydd helaeth o'r cyfryngau lleol trwy ddarparu gwybodaeth yn gyson yn yr adran o'r papur lleol sydd wedi'i neilltuo i wybodaeth am y gymuned.

Roedd y canlyniadau llwyddiannus yn cynnwys:

- sefydlu a rhedeg swyddfa gymunedol gyda'r holl offer angenrheidiol;
- ffurfio saith pwyllgor ar wahân yn cynrychioli'r holl weithgareddau cymdeithasol, amgylcheddol, adloniadol a swyddogaethol ar yr ystad;

- cynnal cymorthfeydd rheolaidd gyda swyddogion tai, mudiadau gwirfoddol, yr heddlu, ysgolion lleol a gwleidyddion lleol a chenedlaethol;
- sefydlu grŵp strategaeth, sydd yn awr yn rhan o'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf, i ydlynu gwaith holl bwyllgorau'r ystad a gwaith yr Awdurdod Lleol, Heddlu De Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, grwpiau Cymorth Cyffuriau, Lleihau Troseddu, Diogelwch Cymunedol, darparwyr cyfleusterau ieuenctid lleol, Ymddiriedolaeth Groundwork, Ymddiriedolaeth y Tywysog ac Interlink;
- darparu maes chwarae i blant, cae chwaraeon ynghyd â llifoleuadau, canolfan arddio ar ffurf tŷ gwydr plastig a gardd gymunedol sy'n esblygu ac ardal ddiddanwch;
- fel rhan o Cymunedau'n Gyntaf, paratoi cynllun busnes hirdymor ar gyfer datblygu cynaliadwy;
- cyfranogi o Archwiliad Cymunedol a hyfforddi trigolion lleol i ymgymryd â'r gwaith; a
- hwyluso'r broses o ymgynghori ynghylch gwaith ar raddfa fawr i ailddatblygu'r ystad gan gynnwys dymchwel dethol, adnewyddu waliau, gatiau a ffensys, cyflwyno dulliau arafu traffig, llochesi bysus, golau stryd, teledu cylch-cyfyng a chyflwyno wardeniaid heddlu a gwarchod y gymuned.

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Adfywio cymunedau ac ystadau**

Mae Cymdeithas Trigolion Pengwern wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu ysbryd cymunedol cryf ar yr ystad hon yn Sir Ddinbych trwy gyfres o brosiectau gan gynnwys datblygu maes chwarae, gwefan a rheoli a rhedeg canolfan adnoddau.

Mae llwyddiannau'r gymdeithas yn cynnwys:

- codi £50,000 er mwyn adfer maes chwarae a oedd wedi mynd a'i ben iddo, gan ddefnyddio dyluniad a oedd yn seiliedig ar syniadau plant yn yr ysgol gynradd leol;
- sefydlu gwefan er mwyn darparu gwybodaeth gyffredinol am y gymdeithas a'i gweithgareddau;
- trefnu i bonciau atal cyflymder gael eu gosod yn y ffordd mewn 8 lle ar yr ystad;
- trefnu amrediad eang o weithgareddau cymdeithasol gan gynnwys bingo a boreau coffi;
- cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar yr ystad i drafod budd-daliadau, rhenti, atgyweiriadau a gosodiadau; a
- cael gwelliannau amgylcheddol gan gynnwys meinciau mewn parciau, biniau ysbwriel a choeden Nadolig i'r gymuned.

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Adfywio cymunedau ac ystadau**

Yn 2000, fe ailffurfiwyd Cymdeithas Trigolion Fir Tree Drive, ar ôl 8 mlynedd o fod yn segur, mewn ymateb i bryderon a fynegwyd gan drigolion am eu gwasanaeth tai.

Yn dilyn dwy astudiaeth dichonoldeb cafodd y gymdeithas nawdd ar gyfer dau gaban symudol mewn maes parcio nad oedd yn cael ei ddefnyddio mwyach er mwyn sefydlu Canolfan Adnoddau i'r gymuned. Maent erbyn hyn yn trefnu nifer o weithgareddau gan gynnwys:

- clybiau ieuenctid i blant a phobl ifanc 4 noswaith yr wythnos;
- partïon Pasg, Calan Gaeaf a Nadolig;
- cymorthfeydd gyda swyddogion tai a chynnal a chadw a'r AS lleol;
- diwrnod sy'n rhoi cyfle i bobl alw i mewn i gael gwybodaeth am y coleg lleol;
- gweithio gyda'r landlord ar bolisi gosodiadau ystyriol; a
- meithrin cysylltiadau gweithredol â'r Bartneriaeth Cymunedau'n Gyntaf leol, Gofal a Thrwsio, Tîm Mynediad Ieuenctid, Addysg Gymunedol a'r Panel Atal Troseddu.

**Lefel strategol**

5.4.10 Rhoddodd landlordiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur nifer o enghreifftiau o achosion pan fu cynnwys tenantiaid o gymorth i lunio polisïau gan gynnwys:

- ymddygiad gwrthgymdeithasol (2 landlord);
- rheoli ystadau / y gymdogaeth;
- strategaeth cynnwys y gymuned;
- tenantiaethau rhagarweiniol;
- defnyddio gwybodaeth arbenigol tenantiaid fel ffordd o gasglu syniadau am ffyrdd i newid polisïau.

5.4.11 Nododd sefydliadau tenantiaid yr enghreifftiau canlynol o ddylanwadu ar bolisïau:

- dyraniadau (3 grŵp);
- casglu rhenti;
- compactau tenantiaid (2 grŵp);
- sefydlu fforwm adolygu polisïau tai.

5.4.12 Mewn perthynas â materion strategol eraill, soniodd landlordiaid yn benodol am roi lle i denantiaid ar fyrddau rheoli (2 landlord) a phaneli dewis staff. Soniodd sefydliadau tai â chymorth am roi lle i denantiaid yn aelodau o fyrddau ac is-bwyllgorau a chynnwys tenantiaid mewn cyfweliadau ag aelodau o staff. Roedd un sefydliad yn cynnwys tenantiaid wrth gynnal adolygiad blynyddol o amcanion strategol.

5.4.13 Roedd grwpiau tenantiaid yn gallu rhoi tystiolaeth o nifer o ffyrdd y maent yn chwarae rhan yn strategol:

- penderfyniadau am fuddsoddiadau'n seiliedig ar flaenoriaethau trigolion (3 grŵp);


- trosglwyddiadau stoc;
- mynediad at uwch gynghorwyr;
- gwneud tenantiaid yn aelodau o fyrddau / pwyllgorau (2 grŵp); a
- bod ar baneli cyfweld ag aelodau o staff.

5.4.14 Soniodd landlordiaid hefyd fod cynnwys tenantiaid wedi cael effaith gadarnhaol ar y broses o gyfranogiad ei hun ac wedi arwain yn arbennig at y canlynol:

- cynnydd yn nifer y grwpiau tenantiaid;
- mwy o ffyrdd ffurfiol o gynnwys tenantiaid;
- compactau cyfranogiad tenantiaid; a
- cynhadledd i denantiaid.

5.4.15 Mae Ffigur 16 yn cynnwys crynodeb o'r canlyniadau ar lefel strategol y soniwyd amdanynt amlaf.

**Ffigur 16: Crynodeb o ganlyniadau ar lefel strategol yn sgîl cynnwys tenantiaid**




5.4.16 Dengys y tabl fod cymdeithasau tai yn gyson wedi hysbysu ynghylch cynnwys tenantiaid i raddau mwy helaeth nag awdurdodau lleol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar lefelau strategol uwch gan fod pob cymdeithas wedi dweud bod ganddynt denantiaid yn cymryd rhan ar lefel y bwrdd ond dywedodd llai na hanner yr awdurdodau fod tenantiaid yn cael eu cynrychioli ar bwyllgorau'r cynghorau. Dengys y tabl hefyd fod sefydliadau tenantiaid wedi nodi llawer llai o ran gan denantiaid mewn materion strategol nag a wnaeth eu landlordiaid. Serch hynny, roedd y drefn o ran dulliau o gynnwys tenantiaid ar lefel strategol a gafodd eu crybwyll amlaf bron yr un fath ar gyfer pob grŵp o ymatebwyr. Yr unig eithriad oedd 'Tenantiaid ar Fyrddau / Pwyllgorau', a oedd ar frig y rhestr o ddulliau a grybwyllwyd amlaf gan sefydliadau tenantiaid a chymdeithasau tai ac a oedd yn ail ar y rhestr ar gyfer awdurdodau lleol.

5.4.17 Soniodd ymatebwyr hefyd am enghreifftiau eraill o gynnwys tenantiaid ar lefel strategol:

- Strategaethau tai lleol (2 landlord);
- Adolygu compact cyfranogiad tenantiaid;
- Dewisiadau o ran tai; a
- Tenant yn arsylwi yn y pwyllgor craffu.

5.4.18 Caiff dwy enghraifft ymarferol a nodwyd gan gyfranogwyr o'r grwpiau ffocws, o achosion pan fo cynnwys tenantiaid wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol ar lefel strategol, eu disgrifio isod:

- Mae'r strategaeth BME yn cael ei hailysgrifennu mewn ymateb i safbwyntiau tenantiaid am y ffordd yr hoffent fod yn rhan o'r broses ymgynghori, h.y. nid yn ysgrifenedig, ond yn fwy anffurfiol ac yn unigol.
- Mae'r Adolygwyd y strategaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol (YG) mewn ymateb i safbwyntiau tenantiaid a oedd o'r farn nad oedd y sefydliad yn ymdrin yn effeithiol ag YG. Lluniwyd strategaeth cymydog da a sefydlwyd prosiect cyfryngu mewnol ac uned YG arbenigol. Cyflwynwyd tenantiaethau cychwynnol a hyfforddwyd swyddogion tai i fod yn gyfryngwyr.

### Enghraifft o arferion cadarnhaol

### Tenantiaid yn arolygu'r ffordd y darperir gwasanaethau

Mae Cynllun Arolygiad gan Denantiaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn brosiect i hyfforddi tenantiaid i ymgymryd ag asesiadau manwl a thrylwyr o'r ffordd y mae'r cyngor yn darparu gwasanaethau. Mae'r cynllun yn rhoi'r sgiliau i denantiaid gynnal asesiadau o wasanaethau tai. Caiff tenantiaid eu recriwtio i fod yn arolygwyr a'u hyfforddi mewn amrediad eang o dechnegau gan gynnwys ysgrifennu adroddiadau, siopa dirgel, dulliau arolygu a sgiliau cyflwyno.

Mae arolygiadau wedi cael eu cynnal ac adroddiadau wedi cael eu paratoi ar atgyweiriadau, homefinder, gwasanaeth y swyddfa leol a'r ganolfan gofal am gwsmeriaid.

Mae canlyniadau manteisiol y cynllun wedi cynnwys:

- cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan yn y broses gwella gwasanaethau;
- cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau;
- cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu ar y cyd gan reolwyr gwasanaethau a thenantiaid sy'n arolygwyr;
- adnabod gwelliannau ar gyfer y gwasanaethau a arolygwyd;
- ffordd ychwanegol i denantiaid gael eu cynnwys yn y gwasanaeth tai;
- dealltwriaeth fwy eglur i reolwyr gwasanaethau am yr hyn sydd o bwys i denantiaid mewn gwirionedd;
- tenantiaid yn cael gwell dealltwriaeth am y materion sy'n wynebu rheolwyr gwasanaethau;
- cyfleoedd i denantiaid ddysgu sgiliau newydd, er enghraifft, siopa dirgel; a
- erfyn effeithiol wrth ddatblygu a darparu'r gwasanaethau.

## Tai â chymorth

5.4.19 Roedd un sefydliad tai â chymorth a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur wedi llwyddo i gael nawdd o'r Gronfa Gymunedol. Roedd canlyniadau cadarnhaol eraill a nodwyd gan sefydliadau tai â chymorth yn cynnwys:

- cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol (2 sefydliad);
- adborth ar wasanaethau (2 sefydliad);
- tenantiaid ar fyrddau / is-bwyllgorau (2 sefydliad);
- chwarae rhan wrth baratoi'r cylchlythyr;
- recriwtio staff; a
- cynhadledd i denantiaid.

5.4.20 Soniodd pum landlord am gamau i annog tenantiaid tai â chymorth i gymryd rhan, gan gynnwys:

- cyflogi swyddog cyfranogiad tenantiaid arbenigol i ymgynghori â phobl hŵn yn enwedig rhai mewn tai â chymorth;
- comisiynu ymgynghorydd i weithio gyda phobl hŷn a phobl anabl;
- hybu ymweliadau â'r cartref; a
- cyswllt unigol.

Roedd un landlord yn gweithio gyda darparwr cymorth arbenigol er mwyn cynnwys tenantiaid


5.4.21 Soniodd tenantiaid tai â chymorth a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws am y llwyddiannau canlynol sydd wedi deillio o'u cyfraniadau:

- Cloeon diogelwch ychwanegol;
- Newid y gweithiwr cymorth;
- Symud oherwydd aflonyddu;
- Problemau gyda chymdogion yn cael eu datrys wrth fodd y tenant; ac
- Ysbwriel o'r ardd gefn yn cael ei symud ar gais y tenant.

## Gwybodaeth

5.4.22 Adnabu'r arolwg ar ffurf holiadur amrywiaeth o fathau o wybodaeth a oedd yn cael ei darparu ar gyfer tenantiaid. Dengys Ffigur 17 enghreifftiau o'r amrediad o wahanol fathau o wybodaeth.

**Ffigur 17: Enghreifftiau o'r amrediad o wahanol fathau o wybodaeth ar gyfer tenantiaid**



5.4.23 Roedd nifer fechan o landlordiaid yn meddwl bod cyfranogiad tenantiaid wedi arwain at wella'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer tenantiaid, ac yn sôn yn benodol am y canlynol

- cymryd rhan yn y gwaith o baratoi cylchlythyrau (2 landlord);
- cylchlythyr ar y cyd yn cynnwys cyngor ynghylch budd-daliadau; a
- llawlyfr i denantiaid.

5.4.24 Soniodd nifer tebyg o denantiaid am welliannau yn yr wybodaeth a ddarperir gan gynnwys:

- cylchlythyrau i denantiaid (2 grŵp);
- llawlyfr atgyweiriadau; a
- calendr blynyddol yn cynnwys manylion cyswllt allweddol.

5.4.25 Mae pob sefydliad tai â chymorth yn darparu adroddiad blynyddol ar gyfer tenantiaid gan gynnwys fersiynau mewn print bras. Mae 60% (3) yn darparu fersiynau sain. Mae pedwar o'r pum sefydliad tai â chymorth yn cynnwys tenantiaid wrth baratoi cylchlythyrau.

5.4.26 Mae sefydliadau cenedlaethol sy'n rhoi cymorth i denantiaid yn darparu gwybodaeth ar gyfer tenantiaid a landlordiaid mewn amrywiaeth o ffyrdd:

- Cylchlythyrau cenedlaethol a rhanbarthol rheolaidd;
- Papurau gwybodaeth gan gynnwys Solutions;
- Taflenni'n cynghori ynghylch cyfranogiad tenantiaid;
- Llythyrau gwybodaeth at aelodau;
- Adroddiadau;
- Gwefannau;
- Nodiadau gwybodaeth Solutions; a
- Cylchlythyr Dolan yn ymdrin â chyfranogiad tenantiaid yn y sector tai â chymorth.

5.4.27 Roedd nifer o'r grwpiau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a rhai aelodau o staff a gymerodd ran yn y cyfweliadau dros y ffôn yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth eglur ar gyfer tenantiaid er mwyn i denantiaid gael y cyfle i feithrin dealltwriaeth am faterion a fyddai'n eu galluogi i gyfranogi'n effeithiol. Rhoddodd aelodau o staff yr enghreifftiau canlynol o'r ffordd y mae'r trefniadau darparu gwybodaeth ar gyfer tenantiaid wedi cael eu hadolygu mewn ymateb i'w safbwyntiau:

- Rhoddodd un gymdeithas eglurhad o'r gyfraith, y gweithdrefnau a'r camau gweithredu posib mewn perthynas â cherbydau wedi'u gadael. Nid oedd hyn yn fodd i ddatrys y broblem, ond fe alluogodd aelodau o'r grŵp tenantiaid i egluro'r sefyllfa i denantiaid eraill;
- Adolygodd un landlord ei lawlyfr cynnal a chadw ar gais tenantiaid er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch ac er mwyn cynnwys lluniau o broblemau'n gysylltiedig ag atgyweirio;
- Newidiodd un landlord ei lythyrau safonol at denantiaid mewn ymateb i adborth gan denantiaid. Cafodd llythyrau'u symleiddio gan gael gwared â jargon a'u gwneud yn haws i ddefnyddwyr eu deall.

### Enghraifft o arferion cadarnhaol

### Cylchlythyr i denantiaid

Mae Grŵp Cymunedol Vineyard Vale yn cynnwys tenantiaid a thrigolion ystad fechan sy'n paratoi cylchlythyr bywiog ac sydd wedi cynnal amrediad o weithgareddau er mwyn datblygu ysbryd cymunedol cryf a chreu cymuned glòs

Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:

- paratoi cylchlythyr cymunedol;
- gweithio gyda Thai Sir Benfro i godi ymwybyddiaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol, sŵn a fandaliaeth;
- trefnu digwyddiad jiwbilî, helfa wy Pasg a gŵyl gynhaeaf;
- sefydlu cynllun gwarchod y gymdogaeth;
- cynnal barbeciwiau a digwyddiadau cymdeithasol adeg Calan Gaeaf, adeg y Nadolig ac ar ddydd Gŵyl San Ffolant;
- datblygu cynllun 'gofalu am anifeiliaid anwes'; a
- trefnu ymweliadau, gwibdeithiau a diwrnodau i ffwrdd.

Daeth Grŵp Cymuned Vineyard Vale yn gyntaf yng ngwobrau cyfranogiad tenantiaid TPAS Cymru 2004, am fod y grŵp tenantiaid a thrigolion gorau yng Nghymru.

### Dylunio a gwelliannau

5.4.28 Roedd yr ymatebion i'r arolwg ar ffurf holiadur yn dangos bod y lefelau cynnwys tenantiaid a nodwyd ar gyfer y broses o ddylunio cartrefi newydd a chael adborth ar gartrefi presennol gryn dipyn yn uwch ymhlith cymdeithasau tai. Nid yw hyn yn syndod, o ystyried rôl flaenllaw cymdeithasau tai mewn datblygiadau newydd. Dengys Ffigur 18 enghreifftiau o gynnwys tenantiaid mewn materion yn ymwneud â dylunio.

**Ffigur 18: Enghreifftiau o gynnwys tenantiaid mewn materion yn ymwneud â dylunio**

| Mater | Awdurdod Lleol | Cymdeithas Dai | Grŵp Tenantiaid |
|---|---|---|---|
| Adborth ar dai presennol | 43% | 75% | 20% |
| cartrefi newydd | 14% | 30% | 5% |
| ystadau newydd | 14% | 20% | 5% |

5.4.29 O ran cynnwys tenantiaid mewn cynlluniau gwella eiddo, ychydig o wahaniaeth oedd rhwng landlordiaid. Dengys Ffigur 19 y gwahaniaeth o ran cynnwys tenantiaid mewn cynlluniau gwella eiddo.

**Ffigur 19: gwahaniaeth o ran cynnwys tenantiaid mewn cynlluniau gwella eiddo**

| Mater | Awdurdod Lleol | Cymdeithas Dai | Grŵp Tenantiaid |
|---|---|---|---|
| Gwella eiddo | 50% | 65% | 28% |
| Adfywio cymunedol | 50% | 50% | 33% |

5.4.30 Roedd enghreifftiau eraill o gynnwys tenantiaid mewn cynlluniau adfywio'n cynnwys:

- rhaglen Cymunedau'n Gyntaf;
- Partneriaeth Ystad;
- canolfan byw'n iach; ac
- ymarfer cynllunio cymunedol.

5.4.31 Soniodd sefydliadau tenantiaid am gymryd rhan mewn nifer o welliannau penodol i eiddo gan gynnwys:

- ffenestri newydd (2 grŵp);
- inswleiddio;
- gwres canolog;
- addurno'r tu allan;
- gosod canllawiau; a
- gwella ceginau ac ystafelloedd ymolchi.

5.4.32 Nododd cyfranogwyr o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn yr enghreifftiau canlynol o gynnwys tenantiaid wrth ddylunio tai neu wella ystadau/eiddo.

Dewis a monitro contractwyr

- Caiff cynrychiolwyr tenantiaid eu cynnwys wrth ddewis contractwyr

Dewis offer a defnyddiau

- Rhoddir dewis i denantiaid o 3 math o unedau cegin. Bydd staff yn mynd â'r tenantiaid i weld darparwr ceginau er mwyn iddynt ddweud beth hoffent ei gael, wrth osod cegin newydd;
- Caiff tenantiaid eu cynnwys wrth ddewis ceginau newydd, ffenestri newydd, systemau gwresogi newydd;
- Rhoddwyd dewis o friciau a lliwiau i denantiaid ar gyfer waliau terfyn newydd. Cododd y contractwr waliau enghreifftiol ar yr ystad, a phleidleisiodd y bobl ym Mhob stryd am y math o wal yr oeddent am ei chael ar gyfer eu stryd hwy;
- Dewisodd tenantiaid liwiau ar gyfer drysau a'r math o ddrysau i'w gosod yn lle'r hen rai o amrediad o fathau o rai UPVC wedi'u diogelu drwy ddylunio;
- Newidiwyd y math o wresogi ar un ystad o danwydd solet i nwy pan ddangosodd adborth gan denantiaid mai dyma oedd y prif reswm nad oedd ymgeiswyr yn derbyn cynigion, a bod tenantiaid presennol yn dymuno symud. Mae hyn wedi gwneud gwahaniaeth

mawr i nifer yr anheddau gweigion a'r ceisiadau am gael symud.

### Briff dylunio

- Adolygwyd y briff dylunio er mwyn ystyried adborth gan denantiaid BME a diwallu anghenion diwylliannol, e.e. diogelwch wrth goginio, systemau awyru ychwanegol.

### Tirlunio, gerddi a diogelwch y gymuned

- Gosodwyd camerâu teledu cylch-cyfyng ar gais grŵp tenantiaid. Cerddodd staff o amgylch y safle gyda thenantiaid er mwyn cytuno ble dylid gosod y camerâu;

- Cyfrannodd sefydliad tenantiaid at ddylunio maes chwarae ar ystad newydd;

- Mae tenantiaid wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella ystadau;

- Diogelwch y gymuned – cynllunio gwelliannau i drefniadau diogelwch, gwell gwelededd, parcio ceir, golau stryd, cyfyngiadau cyflymder;

- Tirlunio a gerddi – cystadlaethau garddio, cynlluniau plannu bylbiau, dylunio gerddi a thirlun.

'Mae gennym 'landlordiaid tirlun' sy'n monitro'r contractwyr, ar y rhan fwyaf o ystadau. Byddwn yn rhoi gwerth £100 o fylbiau/llwyni iddynt ar gyfer y gymuned ac yn eu hannog i gynnwys plant wrth blannu'r rhain, fel bod y plant yn teimlo'u bod yn berchen arnynt hefyd.' (Cymdeithas Dai)

### Enghraifft o arferion cadarnhaol

#### Gwelliannau amgylcheddol a chynnwys pobl ifanc

Mae Cymdeithas Tan Lan yn cynrychioli tenantiaid a thrigolion ar ystad deiliadaeth gymysg yn Hen Golwyn. Derbyniodd y gymdeithas Grant Grymuso Tenantiaid i ddatblygu'r gymdeithas a chanfod pryderon yr holl drigolion ar yr ystad. Paratowyd cylchlythyr yn dweud wrth drigolion a m y prosiect, cynhaliwyd arolwg a thaith gerdded o amgylch yr ystad gan gynghorwyr y ward, swyddogion y gymdeithas dai a thenantiaid er mwyn llunio rhestr o faterion amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt. Prif orchestion y gymdeithas hyd yn hyn yw:

- paratoi cylchlythyr rheolaidd ar gyfer tenantiaid a thrigolion;
- gwella'r amgylchedd trwy glirio 'mannau anniben', plannu bylbiau, a chynnal cystadleuaeth arddio i drigolion;
- cyflogi unigolyn lleol gan y Cyngor fel Gweithiwr Amgylcheddol ar yr ystad;
- cynnwys pobl ifanc yn y gymdeithas;
- mae pobl ifanc wedi trefnu'u disgo a'u gweithgareddau codi arian eu hunain;
- mae'r gymdeithas wedi derbyn nawdd gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i brynu bwrdd pŵl ac offer disgo;
- cafodd y gymdeithas nawdd er mwyn prynu offer chwaraeon i'r parc, ac er mwyn trefnu gwibdaith i bobl ifanc i Neuadd Trafford er mwyn iddynt gymryd rhan yn Young Movers – cwrs i ddatblygu gallu creadigol a mynegiant.

Mae'r gymdeithas wrthi'n codi arian er mwyn ehangu'r Ganolfan Gymunedol.

### Datblygiad Personol

5.4.33 Yn ôl sefydliadau tenantiaid, un o'r canlyniadau cadarnhaol sydd wedi deillio o gyfranogiad tenantiaid yw'r cyfle i hybu'u datblygiad personol, gan gynnwys y cyfle i fynychu cynadleddau a datblygiad eiriolwyr tenantiaid. Dywedodd un tenant fod eu grŵp tenantiaid wedi bod o gymorth iddynt feithrin cyfeillgarwch â nifer o bobl ac wedi ei gwneud yn bosib iddynt fod yn rhan o lu o rwydweithiau cymunedol, anffurfiol. Roedd nifer o landlordiaid yn cytuno y gallai tenantiaid elwa fel hyn, ac yn rhestru nifer o ganlyniadau cadarnhaol gan gynnwys:

- tenantiaid mwy pendant a hyderus;
- cynrychiolwyr mwy gwybodus a phrofiadol; a
- tenantiaid yn datblygu dealltwriaeth well o strwythurau a gweithdrefnau'r landlordiaid.

5.4.34 Dywedodd sefydliadau tai â chymorth fod cynnwys tenantiaid wedi achosi i denantiaid fod yn fwy brwdfrydig dros y pethau y rhoesant gymorth i'w trefnu, bod â mwy o hunanhyder a byw'n fwy annibynnol.

### Gwell cysylltiadau rhwng tenantiaid a landlordiaid

5.4.35 Dywedodd nifer o grwpiau tenantiaid a gwblhaodd yr holiadur fod datblygiad gwell cysylltiadau â'u landlord yn un o'r canlyniadau cadarnhaol yn sgîl cynnwys tenantiaid. Roedd hyn yn cynnwys:

- gwell trefniadau cyfathrebu;
- gwelliannau 'synnwyr cyffredin';
- cyfle i drin a thrafod problemau;
- cael gwell dealltwriaeth am dai; a
- datblygu gwell cyfeillgarwch.

5.4.36 Dywedodd nifer fawr o landlordiaid hefyd fod gwell cysylltiadau rhwng tenantiaid a landlordiaid yn un o ganlyniadau cadarnhaol cyfranogiad tenantiaid. Roedd hyn yn cynnwys:

- gwell dealltwriaeth ar y naill ochr a'r llall (3 landlord);
- perthynas fwy agored a gonest;
- cydgyfrifoldeb am ymdrin â materion;
- canolbwyntio ar flaenoriaethau tenantiaid;
- mwy o fodlonrwydd; a
- cynnwys pobl leol yn arwain at gymunedau cynaliadwy.

**Pwyntiau allweddol: canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid**

- Soniodd tenantiaid a landlordiaid am amrediad eang o ganlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid yn y broses o reoli tai, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau, arolygon a gwybodaeth, gwella ystadau, mentrau newydd a Gwerth Gorau.
- Soniodd tenantiaid am nifer fawr o ganlyniadau cadarnhaol nad oeddent yn seiliedig ar dai ond yn ymwneud â'r gymuned a'r amgylchedd.
- Ar y cyfan nid oedd mwyafrif y landlordiaid yn nodi gwelliannau cymunedol neu amgylcheddol fel rhan o ganlyniadau llwyddiannus sy'n deillio o gynnwys tenantiaid.
- Roedd sefydliadau tenantiaid yn fwy tebygol na landlordiaid i roi tystiolaeth o gynnwys tenantiaid ar lefel strategol yng ngweithgareddau'r landlordiaid.
- Roedd cymdeithasau tai yn nodi lefelau uwch nag awdurdodau lleol o ran cynnwys tenantiaid ar lefel strategol.
- Roedd nifer o landlordiaid yn cymryd camau i annog tenantiaid tai â chymorth i gymryd rhan.
- Dywedodd nifer fechan o denantiaid a landlordiaid fod cyfranogiad tenantiaid wedi arwain at wella'r wybodaeth a ddarperir ar gyfer tenantiaid.
- Roedd nifer o grwpiau o staff yn pwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth effeithiol ar gyfer tenantiaid.
- Soniodd aelodau o staff a thenantiaid am amrediad o ganlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid mewn rhaglenni dylunio a/neu wella ystadau/eiddo, gan gynnwys dewis a monitro contractwyr, dewis offer a defnyddiau, adborth yn arwain at newid y briff dylunio, tirlunio, gerddi a diogelwch y gymuned.
- Roedd rhai landlordiaid, darparwyr cymorth a thenantiaid yn dweud bod y cynnydd yn natblygiad personol tenantiaid yn un o'r canlyniadau cadarnhaol sy'n deillio o gymryd rhan.
- Dywedodd nifer o denantiaid a landlordiaid fod gwell cysylltiadau rhwng tenantiaid a landlordiaid yn un o'r canlyniadau cadarnhaol a achoswyd gan gyfranogiad tenantiaid.

## 5.5 Problemau wrth gynnwys tenantiaid

### Anawsterau wrth gynnal neu ddatblygu grwpiau

5.5.1 Soniodd nifer o sefydliadau tenantiaid a gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur am yr anawsterau canlynol wrth geisio cynnal neu ddatblygu'u grwpiau:

- Diffyg diddordeb tenantiaid mewn cymryd rhan yn y grwpiau (7 grŵp);
- Gwneud grwpiau presennol yn fwy cynrychiolaidd;
- Cael pobl i ddal i gymryd rhan;
- Ymdrin â 'gwleidyddiaeth' o fewn y grwpiau; ac
- Aelodau'n mynd a dod yn aml.

5.5.2 Dywedodd y mwyafrif llethol o aelodau o staff a thenantiaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, a nifer o'r rheiny a gymerodd ran yn y cyfweliadau dros y ffôn mai'r broblem fwyaf cyffredin gyda chyfranogiad tenantiaid oedd bod yn well gan denantiaid gymryd rhan mewn fyrdd

eraill heblaw trwy grwpiau ffurfiol, a'i bod yn anodd recriwtio aelodau newydd i grwpiau presennol, yn enwedig pobl ifanc. Dywedodd nifer o sefydliadau tenantiaid eu bod yn ei chael yn arbennig o anodd cynnwys tenantiaid BME, pobl ifanc a grwpiau o gleientiaid agored i niwed nad ydynt wastad yn dymuno cyfranogi o grwpiau.

5.5.3 Soniodd nifer o gynrychiolwyr sefydliadau tenantiaid am anawsterau wrth geisio recriwtio a chadw aelodau newydd.

> 'Mae angen inni ddenu pobl newydd. Mae'n anodd cael pobl newydd i gymryd rhan. Mae pobl ifanc wedi bod yn dod, ond mae'n anodd i'w cadw.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Byddai o fudd inni gael mwy o aelodau.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Mae'r niferoedd wedi lleihau ... erbyn hyn mae mwy o aelodau o staff na thenantiaid ar adegau.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Allwn ni ddim cael pobl i gymryd rhan – mae diffyg diddordeb. (Tenant cysylltiedig)

> Roedd nifer o aelodau o staff o'r un farn:

> 'Gyda diffyg brwdfrydedd ymysg tenantiaid, mae'n anodd cael tenantiaid newydd i gymryd rhan.' (Swyddog cyfranogiad tenantiaid, cymdeithas dai)

5.5.4 Roedd dau landlord wedi cynnal arolygon ymhlith eu tenantiaid a chael, er bod nifer fawr o denantiaid yn dweud nad oeddent am gymryd rhan mewn sefydliadau tenantiaid, fod y mwyafrif, 75% a 60%, yn dweud bod yn well ganddynt gymryd rhan mewn ffyrdd heblaw trwy grwpiau.

> 'Yn aml, nid yw pobl am gael strwythurau ffurfiol...rydym yn awr yn ystyried rhoi nifer o ddewisiadau posib iddynt, - gwahanol gyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan.' (Aelod o staff rheng flaen)

> 'Nid yw cymdeithasau tenantiaid a thrigolion yn gweithio o'n profiad ni...allwn ni ddim gorfodi TP ar denantiaid – mae ganddynt amgenach pethau i'w gwneud gyda'u bywydau...mae bywyd yn yr oes sydd ohoni'n ymwneud â defnyddiaeth a dinasyddiaeth...mae'n rhaid gwrando ar denantiaid fel defnyddwyr.' (Uwch reolwr)

5.5.5 Amlygodd cyfranogwyr yn y ddau grŵp staff fod y ffaith bod Llywodraeth y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid gyfranogi yn gallu rhoi pwysau ar denantiaid a landlordiaid fel ei gilydd:

> 'Y broblem yw ei bod yn ofynnol i'r landlord fynd ar drywydd cyfranogiad tenantiaid ond nid yw'n ofynnol i'r tenant fod yn bresennol!.' (Uwch reolwr)

### Sicrhau bod y grwpiau wrth gynnwys tenantiaid yn gynrychiolaidd

5.5.6 Roedd gan bob un o'r landlordiaid a ymatebodd i'r holiadur bryderon ynghylch cynnwys amrediad o denantiaid. Roedd y rhain yn ymwneud â chynnwys:

- grwpiau a dangynrychiolir yn gyffredinol;
- tenantiaid ifancach (2 landlord);
- pobl ifanc;

- cymunedau BME;
- rhieni unigol; a
- tenantiaid anabl.

5.5.7 Soniodd 6 landlord am anawsterau wrth geisio cynnwys tenantiaid mewn stoc wledig a gwasgaredig. Roedd dau landlord yn bryderus ynghylch cynnwys perchentywyr a lesddalwyr. Soniodd sefydliadau tai â chymorth yn benodol am broblemau wrth geisio cynnwys pobl ag anableddau dwys, cynnwys pobl oedrannus, fregus, cynnwys pawb mewn ardal wasgaredig, a darparu gofal plant, yn enwedig ar gyfer plant y mae arnynt angen llawer o sylw. Soniodd nifer o aelodau o staff a thenantiaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn am anawsterau wrth geisio cynnwys tenantiaid a oedd yn cynrychioli proffil tenantiaid y landlord, yn enwedig pobl ifanc a thenantiaid BME.

> 'Allwn ni ddim denu pobl ifanc.' (Aelod o staff rheng flaen)
>
> 'Mae rhannau penodol o'r gymuned yr ydym wedi methu â'u denu gan gynnwys pobl ifanc a'r gymuned BME.' (Awdurdod lleol)
>
> 'Nid yw tenantiaid ifanc a BME am ddod i gyfarfodydd, felly mae angen inni chwilio am ffyrdd eraill o'u cynnwys.' (Gweithiwr BME)
>
> 'Mae (cyfranogiad tenantiaid) yn tueddu i fod yn weithgaredd lleiafrifol. Rydym wedi methu â chynnwys mwy o bobl, y duedd yw mai pobl hŷn, wedi ymddeol sy'n  cymryd rhan.' (Awdurdod lleol)

## Gorlethu aelodau presennol sefydliadau tenantiaid

5.5.8 Mynegwyd pryder gan gyfranogwr o sefydliad cenedlaethol bod sefydliadau eraill yn ychwanegu at y pwysau presennol ar gynrychiolwyr tenantiaid sydd eisoes wedi'u llethu, a rhoddodd enghraifft o araith ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Iechyd a oedd yn annog sefydliadau tenantiaid i gymryd rhan mewn byrddau iechyd lleol. Mynegwyd pryder hefyd fod tenantiaid yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol ar lefel uchel heb gymorth digonol. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn arbennig o berthnasol i'r agenda dewisiadau stoc sy'n dod i'r fei.

5.5.9 Dywedodd rhai tenantiaid cysylltiedig, aelodau o staff rheng flaen ac uwch reolwyr a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn fod cyfranogiad tenantiaid yn rhoi galwadau cynyddol ar amser ychydig o bobl:

> 'Yr amser y mae'n rhaid i denantiaid ei dreulio ar gyfranogiad tenantiaid...mae'n anodd denu pobl newydd. Mae'n golygu llawer o waith i'r un bobl.' (Tenant cysylltiedig)
>
> 'Mae cnewyllyn o bobl sy'n gorfod gwneud popeth. Mae'n mynd â llawer o amser.' (Tenant cysylltiedig)
>
> 'Gall cyfranogiad tenantiaid fod yn faich trwm iawn. Rydym yn gofyn iddynt (sefydliad tenantiaid) roi cryn dipyn o'u hamser. Gydag unrhyw wasanaethau eraill yr ydym yn eu defnyddio, nid oes rhaid inni fynychu cyfarfodydd, rhoi o'n hamser. Nid ydym yn gwneud hynny yn ein bywydau ni.' (Aelod o staff rheng flaen)

> ‘Problem gyda grwpiau lleol...yn aml caiff gwaith ei adael i un neu ddau o bobl.’ (Uwch reolwr)

### Gwybodaeth, cyfathrebu ac adborth annigonol

5.5.10 Roedd ymron i draean o’r sefydliadau tenantiaid a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur yn tybio nad oeddent yn cael digon o wybodaeth yn y meysydd canlynol:

- Gwaith ar raddfa fawr a chynnal a chadw cynlluniedig (2 grŵp);
- Cymorth gan sefydliadau cenedlaethol (2 grŵp);
- Polisïau tai;
- Cyllid ym maes tai;
- Y Cynulliad a rheoleiddio;
- Angen mwy o wybodaeth gan Ffederasiwn Tenantiaid Cymru;
- Cofnodion cynghorau;
- Trosglwyddo stoc; ac
- Atgyweiriadau.

5.5.11 Roedd y landlordiaid a ymatebodd yn pryderu ynghylch ymrwymiad a gallu’u sefydliadau i ddarparu gwybodaeth effeithiol. Pwysleisiodd nifer o landlordiaid ei bod yn anodd sicrhau’r ymrwymiad i gyfranogiad tenantiaid ym mhob adran er mwyn gwneud yn siŵr bod cyfranogiad yn fenter sy’n weithredol yn holl adrannau’r landlord yn hytrach na’i bod yn perthyn i’r adran dai yn unig. Roedd hyn yn cynnwys yr angen i bob adran sy’n cysylltu â thenantiaid ddarparu gwybodaeth mewn ffyrdd eglur a hygyrch. Roedd pryderon eraill yn cynnwys:

- strwythurau biwrocrataidd a rhy ffurfiol (2 landlord);
- sicrhau ymrwymiad aelodau unigol o staff; a
- diffyg cymryd rhan mewn penderfyniadau pwysig, e.e. arfarniad dewisiadau buddsoddi a mesur a gwerthuso canlyniadau.

5.5.12 Mynegodd tenantiaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a’r cyfweliadau dros y ffôn nifer o bryderon ynghylch diffyg gwybodaeth, cyfathrebu ac adborth yng nghyswllt canlyniadau cyfranogiad ar ran y landlord.

> ‘Mae diffyg cyfathrebu a gwybodaeth. Mae’n sylwadau’n cael eu hanwybyddu. Cawn ein hysbysu ynghylch pethau, nid ydym yn cyfranogi ohonynt.’ (Tenant cysylltiedig)

Dywedodd rhai aelodau o staff hefyd nad oedd eu sefydliad yn cyfathrebu’n effeithiol â thenantiaid ac y gallai diffyg diddordeb mewn cyfranogi ar ran y tenantiaid fod yn gysylltiedig â diffyg gwybodaeth hygyrch ar gyfer tenantiaid.

### Diffyg ymgynghori arwyddocaol

5.5.13 Soniodd tenantiaid a gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur am nifer o broblemau’n ymwneud ag ymgynghori aneffeithiol gan landlordiaid. Roedd y rhain yn cynnwys:

- diffyg ymgynghori gwirioneddol;
- esgus cefnogi cyfranogiad tenantiaid ond peidio â gweithredu’n dilyn ymgynghori neu anwybyddu safbwyntiau tenantiaid;
- bwrw’r cyfrifoldeb ac osgoi gweithredu;

- agweddau nawddoglyd, bygythiol, a gormesol; a
- gwybodaeth anghyson gan landlordiaid.

5.5.14 Dywedodd nifer o'r tenantiaid cysylltiedig a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn nad oedd eu cyfranogiad yn arwain at unrhyw newidiadau gan y sefydliad.

> 'Mae (y grŵp) yn siop siarad, nid yw'n gwneud unrhyw wahaniaeth.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Nid oes llawer yn deillio o'r hyn a drafodir gennym. Byddwn yn dod yn ôl y tro wedyn ac yn trafod y cwbl eto.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Nid ydym yn gwneud gwahaniaeth o gwbl. Rydym yn deall mwy ond nid ydym yn dylanwadu ar y broses o reoli tai.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Rydym yn cael gwybodaeth wedi i'r penderfyniad gael ei wneud. Maent yn gwrando ond nid ydym ni'n gwneud gwahaniaeth o gwbl.' (Tenant cysylltiedig)

5.5.15 Roedd yr uchod yn groes i ganfyddiadau rhai aelodau o staff, a soniodd am nifer o achosion pan oedd safbwyntiau tenantiaid wedi cael effaith ar bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad, ond a oedd yn cydnabod ei bod yn bosib nad oes gwybodaeth ddigonol yn cael ei rhoi ar ffurf adborth i denantiaid. Er enghraifft, disgrifiodd uwch aelod o staff mewn un sefydliad sut y bu iddynt wneud newidiadau mawr i'w polisi gosodiadau, polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chyflwyno cynllun anogaeth i denantiaid, hyn oll o ganlyniad i wrando ar, ac ymateb i safbwyntiau a gwybodaeth am flaenoriaethau tenantiaid a gasglwyd trwy holiadur. Serch hynny, nid oedd yn ymddangos bod grŵp ffocws o denantiaid cysylltiedig o'r un sefydliad wedi cael gwybod bod y sefydliad wedi gwneud y newidiadau hyn o ganlyniad i wrando ar denantiaid.

### Amser ac adnoddau

5.5.16 Roedd landlordiaid a gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur o'r farn bod diffyg adnoddau, yn enwedig cyllid ac amser staff, yn rhwystr mawr i ddatblygu trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys tenantiaid. Dywedodd rhai o'r aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws bod ceisio safbwyntiau tenantiaid yn mynd â llawer o amser, yn cynyddu llwyth gwaith staff ac yn arwain at gynyddu'r amser a gymer i adolygu polisïau

> 'Nid yw TP ond yn un o'r nifer o bethau y gofynnir inni eu targedu. Fe gymer amser a hynny heb adnoddau ychwanegol. Cymerodd cyfweliadau o ddrws i ddrws ddau ddiwrnod yn ddiweddar ac roedd yn rhaid i mi wneud gwaith a oedd wedi pentyrru dros y ddau ddiwrnod hwnnw ar ôl dychwelyd i'r swyddfa.' (Aelod o staff rheng flaen)

### Problemau personoliaeth

5.5.17 Soniodd nifer o denantiaid cysylltiedig ac aelodau o staff rheng flaen a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn am broblemau gydag unigolion mewn sefydliadau tenantiaid. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Personoliaethau cryfion yn fwy blaenllaw nag aelodau eraill mewn sefydliadau tenantiaid;
- Cynrychiolwyr tenantiaid yn peidio â chyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid eraill nac yn trosglwyddo gwybodaeth gywir gan y landlord;

- Problemau gyda rhai swyddogion tenantiaid nad ydynt yn cyflawni'u swyddogaeth yn effeithiol, a hwythau'n anfodlon derbyn hyfforddiant i'w cynorthwyo i wneud hynny;

- Gwrthdaro rhwng personoliaethau o fewn sefydliadau tenantiaid.

Soniodd nifer o denantiaid hefyd am broblemau gydag agweddau aelodau unigol o staff tuag at denantiaid.

### Llyfr Patrwm Llywodraeth Cynulliad Cymru

5.5.18 Gofynnwyd i gyfranogwyr o gymdeithasau tai roi eu safbwyntiau am yr effaith y mae Llyfr Patrwm Llywodraeth y Cynulliad Cymru wedi'i chael ar allu tenantiaid i gymryd rhan yn y broses o ddylunio tai. Mae'r Llyfr Patrwm yn nodi gofynion ar gyfer cymdeithasau tai yng nghyswllt dylunio tai.

Dywedodd nifer o'r aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn fod y cyfarwyddiadau a roddir yn Llyfr Patrwm Llywodraeth y Cynulliad yn cyfyngu ar allu landlordiaid i gynnwys tenantiaid yn effeithiol wrth ddylunio'u cartrefi. Soniodd landlordiaid am y problemau canlynol gyda'r Llyfr Patrwm, yr oedd tenantiaid wedi'u nodi:

- Cyfyngiadau ar feintiau ceginau ac ystafelloedd byw;

- Diffyg cyfleusterau storio;

- Safonau annigonol ar gyfer inswleiddio rhag sŵn.

5.5.19 Dywedodd y rhai a gymerodd ran mewn un grŵp ffocws fod y Llyfr Patrwm yn rhy gaeth ac yn cyfyngu ar ddewisiadau'r tenantiaid wrth ddylunio. Dylai'r Llyfr Patrwm gynnwys canllawiau yn hytrach na gofynion, er mwyn galluogi cymdeithasau i fod yn hyblyg a gwneud newidiadau i weddu i anghenion a dewisiadau tenantiaid. Awgrymodd un landlord a gymerodd ran yn yr arolwg ar ffurf holiadur y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru gynnal ymchwil fwy diweddar i'r farchnad ymysg tenantiaid sy'n byw mewn tai Llyfr Patrwm, i weld ai dyma'r math o dai y mae pobl am fyw ynddynt. Cafodd yr ymchwil strwythuredig ddiwethaf gan Tai Cymru i gasglu safbwyntiau tenantiaid am gartrefi Llyfr Patrwm ei gwneud ar ddechrau'r 1990au, pan gynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws gyda thenantiaid a oedd yn byw yn y cartrefi Llyfr Patrwm cyntaf a godwyd ym Mhort Talbot.

5.5.20 Dywedodd y rhai a gymerodd ran mewn un grŵp ffocws fod yr amod sy'n ei gwneud yn ofynnol gosod bath ym mhob tŷ yn broblem:

> 'Mae'r Llyfr Patrwm yn ei gwneud yn ofynnol inni roi baddonau mewn tai newydd hyd yn oed os ydym yn gwybod bod y tai'n mynd i gael eu gosod i denantiaid mewn oed. Mae'n rhaid i ni eu rhwygo ymaith unwaith y byddant yn symud i mewn a gosod cawodydd yn eu lle.' (Uwch reolwr)

Roedd un grŵp yn ystyried bod safonau annigonol ar gyfer inswleiddio rhag sŵn yn broblem benodol yn wyneb y newidiadau mewn ffyrdd o fyw, gyda phlant yn aml yn cael teledu ac offer sain yn eu hystafelloedd gwely ac yn eu defnyddio'n fwyfwy fel ystafelloedd byw.

Dywedodd un grŵp fod maint cyfyngedig yr ystafelloedd gwely'n achosi problemau mewn tai â chymorth a rennir:

‘Mae’r ystafelloedd gwely’n fach iawn o feddwl mai dyma unig ardal breifat y tenantiaid. Maent yn rhy fach i’r amgylchedd tai â chymorth.’ (Uwch reolwr)

**Pwyntiau allweddol: problemau wrth gynnwys tenantiaid**

- Dywedodd nifer o sefydliadau tenantiaid a mwyafrif yr aelodau o staff a thenantiaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a’r cyfweliadau dros y ffôn mai’r broblem fwyaf cyffredin gyda chyfranogiad tenantiaid yw diffyg llwyddiant wrth geisio cynnwys mwyafrif y tenantiaid mewn grwpiau ffurfiol, sy’n golygu bod sefydliadau tenantiaid yn cael anhawster recriwtio aelodau newydd, sicrhau bod eu grwpiau’n gynrychiolaidd, a chynnal eu grwpiau.
- Dywedodd nifer o landlordiaid a rhai sefydliadau tenantiaid eu bod yn ei chael yn arbennig o anodd cynnwys y rheiny y mae’n well ganddynt beidio â chymryd rhan mewn grwpiau, yn enwedig pobl ifanc, tenantiaid BME, y rheiny a chanddynt anghenion o safbwynt cymorth, rhieni sengl a thenantiaid anabl.
- Mynegwyd pryder gan sefydliadau cenedlaethol bod sefydliadau nad ydynt yn landlordiaid yn ychwanegu at y pwysau sydd ar gynrychiolwyr tenantiaid trwy ofyn iddynt gymryd rhan mewn meysydd eraill, er enghraifft byrddau iechyd lleol.
- Mynegwyd pryder gan sefydliadau cenedlaethol bod tenantiaid yn cymryd cyfrifoldebau ychwanegol ar lefel uchel heb gymorth digonol.
- Dywedodd rhai tenantiaid ac aelodau o staff fod cyfranogiad tenantiaid yn rhoi galwadau cynyddol ar amser ychydig o denantiaid.
- Roedd rhai landlordiaid yn bryderus ynghylch ymrwymiad a gallu’r holl adrannau o fewn eu sefydliadau i ymgymryd â’r broses cyfranogiad tenantiaid, ac i ddarparu gwybodaeth eglur a hygyrch ar gyfer tenantiaid.
- Roedd ymron i draean o’r sefydliadau tenantiaid o’r farn nad oeddent yn derbyn digon o wybodaeth mewn nifer o feysydd.
- Dywedodd nifer o denantiaid fod diffyg gwybodaeth ac adborth yng nghyswllt canlyniadau cyfranogiad gan eu landlord.
- Dywedodd nifer o denantiaid fod y broses ymgynghori gan eu landlord yn aneffeithiol ac nad oedd eu cyfraniadau hwy’n gwneud unrhyw wahaniaeth i ganlyniadau.
- Roedd rhai landlordiaid yn ystyried bod diffyg adnoddau, yn enwedig cyllid ac amser staff, yn rhwystr i ddatblygu proses cyfranogiad tenantiaid effeithiol.
- Soniodd nifer o denantiaid ac aelodau o staff am broblemau gydag unigolion mewn sefydliadau tenantiaid. Soniodd nifer o denantiaid am broblemau gydag agwedd aelodau o staff.
- Dywedodd aelodau o staff nifer o gymdeithasau tai fod cyfarwyddiadau a roddir yn Llyfr Patrwm Llywodraeth y Cynulliad Cymru yn cyfyngu ar eu gallu i gynnwys tenantiaid yn effeithiol yn y broses o ddylunio’u cartrefi.

## 5.6 Adnoddau a Hyfforddiant Adnoddau


5.6.1 Mae'r landlordiaid a ymatebodd i'r arolwg ar ffurf holiadur, gyda'i gilydd, yn gwario ymron i £1 miliwn (£0.98m) yn flynyddol ar gyfranogiad tenantiaid. Os yw'r ffigurau ar gyfer yr ymatebwyr yn adlewyrchu'r sefyllfa gyda'r holl landlordiaid cymdeithasol, yna mae cyfanswm y gyllideb i ariannu cyfranogiad tenantiaid yng Nghymru'n agos at £1.5 miliwn y flwyddyn.

5.6.2 Pan ystyriwyd niferoedd stoc cafwyd fod cymdeithasau tai'n gwario bron ddwywaith gymaint ag awdurdodau lleol y denantiaeth, sef £9.31 a £4.84 yn y drefn honno.

5.6.3 Roedd pob landlord yn gwario £696 ar gyfartaledd ar grantiau uniongyrchol i grwpiau lleol a chadarnhawyd hyd gan y grwpiau'u hunain a oedd yn amcangyfrif eu bod yn derbyn £707 y flwyddyn.

5.6.4 Dengys Ffigur 20 ddadansoddiad o'r nawdd a ddarperir gan landlordiaid ar gyfer gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid.

**Ffigur 20: Dadansoddiad o'r nawdd a ddarperir gan landlordiaid ar gyfer cyfranogiad tenantiaid**




5.6.5 Roedd hyfforddiant a chymorth uniongyrchol ar gyfer grwpiau a chynrychiolwyr tenantiaid yn rhoi cyfrif am 54% o gyllidebau. Roedd ymron i 40% o'r cyllidebau'n cael eu gwario ar gostau a hyfforddiant staff.

5.6.6 Roedd 64% o awdurdodau lleol yn cyflogi swyddog cyfranogiad tenantiaid o'i gymharu â 40% o gymdeithasau tai.

5.6.7 Dywedodd 73% o grwpiau tenantiaid eu bod yn derbyn cymorth gan swyddogion a dywedodd 68% mai staff cyfranogiad tenantiaid arbenigol oedd yn rhoi'r cymorth hwn.

5.6.8 Roedd gan bob sefydliad tai â chymorth aelodau o staff yr oedd eu disgrifiadau swydd yn cynnwys cyfranogiad tenantiaid, ac roedd gan 60% ohonynt swydd benodol y mae a wnelo'n gyfan gwbl â chyfranogiad tenantiaid neu y mae a wnelo rhan fawr ohoni'n benodol â cyfranogiad tenantiaid

5.6.9 Yn ogystal â'r uchod, roedd landlordiaid yn dyrannu adnoddau ar gyfer y canlynol:

- Dulliau eraill o fynd ar drywydd cyfranogiad tenantiaid gan gynnwys arolygon tenantiaid, grwpiau ffocws, cynllun tenantiaid allweddol a chompact

cyfranogiad tenantiaid ar gyfer y gymdogaeth;

- Gweithgareddau cymdeithasol megis gwibdeithiau, partïon Nadolig, cystadlaethau gerddi a 'ffair tenantiaid';
- Talu mewn gwasanaethau a nwyddau gan gynnwys argraffu a chyhoeddi cylchlythyrau, llythyrau gwybodaeth a darparu deunydd ysgrifennu;
- Taliadau a thanysgrifiadau i sefydliadau cymorth megis TPAS Cymru, gwasanaethau cyfryngu a ffioedd proffesiynol a chyfreithiol.

5.6.10 Roedd cryn dipyn yn fwy o awdurdodau lleol (57%) na chymdeithasau tai (35%) wedi cael nawdd allanol fel cymorth i gyfranogiad tenantiaid.

Roedd cyfanswm o 3 awdurdod lleol a 2 gymdeithas wedi cael nawdd ar ffurf Grant Rheoli Tai Cymdeithasol (SHMG). Soniodd 4 awdurdod lleol a 4 cymdeithas am Grantiau Grymuso Tenantiaid.

5.6.11 Roedd sefydliadau tenantiaid wedi cael cymorth ar ffurf grantiau o amrediad eang o ffynonellau gan gynnwys:

- Cymunedau'n Gyntaf (5 grŵp);
- Cynghorau Cymuned / Tref (5 grŵp);
- Kick Start (2 grŵp);
- Rhodd gan gynghorwyr;
- Grant cychwyn TPAS;
- Cronfa Risg Gymdeithasol WCVA;
- Byw'n iach;
- Dinasoedd Diogelach; a
- Nawdd adfywio.

5.6.12 Roedd un sefydliad tai â chymorth wedi cael grantiau o'r Gronfa Cymunedau fel cymorth i gynnwys tenantiaid.

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Cytundeb nawdd rhwng landlord a sefydliad tenantiaid**

Mae gan Clackmannanshire Council gytundeb gwasanaeth â ffederasiwn tenantiaid a thrigolion sy'n nodi faint o nawdd fydd ar gael i'r ffederasiwn, sy'n cael ei dalu ymlaen llaw bob chwarter ac yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Mae'r adnoddau eraill sydd ar gael i'r ffederasiwn yn cynnwys llungopïo'n rhad ac am ddim, cymorth gweinyddol megis mynediad at gyfrifiaduron, gwybodaeth a llythyrau gwybodaeth rheolaidd i aelodau a darparu ardal ar gyfer cynnal cyfarfodydd.

Mae'r cytundeb gwasanaeth yn nodi bod y ffederasiwn yn monitro'i wariant yn unol â'r gyllideb. Mae hefyd yn nodi'r targedau perfformiad y disgwylir i'r ffederasiwn eu cyrraedd o ran nifer y cyfarfodydd a gynhelir, oriau agor swyddfeydd y ffederasiwn a phresenoldeb mewn cynadleddau.

**Hyfforddiant**

5.6.13 Dywedodd pob cymdeithas dai a 79% o'r awdurdodau lleol gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur eu bod yn darparu rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer eu cynrychiolwyr tenantiaid. Serch hynny, 56% yn unig o'r grwpiau tenantiaid a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o hyn. Roedd ychydig yn fwy tebygol y byddai hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n fewnol yn hytrach na thrwy hyfforddwyr allanol. Dengys Ffigur 21 y mathau o hyfforddiant a drefnir ar gyfer tenantiaid a staff.

**Ffigur 21: mathau o hyfforddiant ar gyfer tenantiaid a staff**

| Landlord | Hyfforddiant I Denantiaid Ar Eu Pennau'u Hunain | Hyfforddiant Ar Y Cyd I Denantiaid A Staff |
|---|---|---|
| Awdurdodau lleol | 50% | 64% |
| Cymdeithasau tai | 80% | 55% |
| Grwpiau tenantiaid | 45% | 66% |

5.6.14 Roedd yn well gan awdurdodau roi hyfforddiant ar y cyd i staff a thenantiaid ond roedd yn well gan gymdeithasau roi hyfforddiant i denantiaid ar eu pennau'u hunain

5.6.15 Roedd hyfforddiant yn cael ei ddarparu mewn amrediad eang o byncia u gan gynnwys (mae'r rhifau ar ôl pob pwnc yn dynodi faint o weithiau y cyfeiriodd gwahanol ymatebwyr ato):

Trefnu Cyffredinol (22)

- Sgiliau pwyllgora;
- Rhedeg digwyddiadau;
- Grantiau Grymuso Tenantiaid;
- Codi arian;
- TG;
- Rheoli adeiladau;
- Ymgynghori â, a chynnwys y gymuned.

Polisïau ac Arferion ym maes Tai (17)

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Atgyweiriadau a chynnal a chadw;
- Gosodiadau;
- Anheddau gweigion;
- Rhenti;
- Digartrefedd;
- Llawlyfr i denantiaid.

Rheoleiddio a'r Gyfraith (7)

- Gwerth Gorau / Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella;
- Compactau cyfranogiad tenantiaid;
- Cyfraith tai;
- Deddf Iawnderau Dynol.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

- Materion yn ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- Cydraddoldebau cyffredinol.

Rheoli a Chynllunio Busnes

- Trosglwyddo stoc;
- Rôl aelodau o fyrddau;
- Cyllid tai.

### Amrywiol

- Cymorth cyntaf;
- Gwarchod plant;
- Rôl swyddogion tai;
- Datblygu cymunedol;
- Budd-dal tai;
- Cyffuriau rhagnodedig;
- Hunanamddiffyn;
- Glanweithdra bwyd.

5.6.16 Roedd 88% o'r sefydliadau tenantiaid a oedd yn derbyn hyfforddiant yn dweud ei fod yn cwrdd â'u gofynion. Gwnaed nifer o sylwadau gan y rheiny nad oeddent yn derbyn hyfforddiant neu a oedd yn anfodlon gan gynnwys:

- roedd hyfforddiant yn ddrud; a
- roedd mynediad yn digwydd trwy Ffederasiwn Tenantiaid Cymru ac roedd yn gyfyngedig.

5.6.17 Roedd pob un o'r 5 sefydliad tai â chymorth yn darparu hyfforddiant ar gyfer tenantiaid, a hwnnw'n agored i unrhyw denantiaid a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan. Roedd hyfforddiant wedi cael ei ddarparu mewn:

- polisïau a gweithdrefnau;
- hyfforddiant sgiliau;
- cynnwys tenantiaid;
- rhoi cymorth i bobl;
- materion yn ymwneud ag iechyd meddwl;
- rheoli dicter;
- crefftau'r cartref;
- celf a chrefft; a
- materion yn ymwneud â phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

5.6.18 Roedd y ddau sefydliad cenedlaethol sy'n rhoi cymorth i denantiaid yn darparu hyfforddiant mewn amrediad eang o bynciau gan gynnwys:

- ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- budd-dal tai;
- rhoi cymorth i bobl;
- cynllun tenantiaid allweddol;
- gwerth gorau / WPI;
- siopa dirgel;
- trosglwyddo stoc;
- sgiliau pwyllgora a threfnu;
- pendantrwydd;
- paratoi cylchlythyrau;
- cynnwys tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig;
- compactau a strategaethau cyfranogiad tenantiaid;
- cytundebau gwaith ar raddfa fawr; a
- sefydliadau rheoli gan denantiaid.

5.6.19 Soniodd tenantiaid ac aelodau o staff a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn am broblemau wrth geisio cael tenantiaid i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant.

> 'Mae arnom angen rhaglen hyfforddiant go iawn – mae yn y cynllun busnes, e.e. hyfforddiant er mwyn dysgu am rôl swyddogion, sut i siarad â phobl. Y broblem yw bod pobl yn meddwl nad oes angen hyfforddiant arnynt.' (Tenant cysylltiedig)

'Rydym wedi cynnig llawer o hyfforddiant, ond mae'n anodd cael pobl i fynychu.' (Aelod o staff)

5.6.20 Gwnaeth rhai tenantiaid y sylw naill ai bod gormod o bobl wedi bod yn bresennol yn eu sesiynau hyfforddi, neu eu bod wedi gorfod teithio'n rhy bell i gyrraedd yno:

'Cawsom hyfforddiant i'n dysgu am fanteision bod yn aelod o banel. Roedd gormod o bobl yn y sesiwn hyfforddi. Byddai grwpiau llai yn well.' (Tenant cysylltiedig)

'Byddwn yn hoffi pe bai gan Gymru ganolfan sy'n cyfateb i Neuadd Trafford, yma yng Nghymru, fel nad oes rhaid teithio i Loegr.' (Tenant sy'n aelod o fwrdd CD)

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Cynnwys tenantiaid mewn hyfforddiant**

Mae Consortiwm Tai Gorllewin Morgannwg wedi paratoi canllawiau i gynnwys tenantiaid wrth recriwtio a chyfweld ag aelodau o staff, yn seiliedig ar brofiadau tenantiaid ag anableddau dysgu a gymerodd ran yn y broses o recriwtio swyddog cyfranogiad tenantiaid y Consortiwm.

Mae'r canllawiau'n disgrifio ffyrdd o alluogi'r rheiny a chanddynt sgiliau darllen cyfyngedig i gymryd rhan lawn yn y broses gyfweld gan gynnwys:

- datblygu manylion yr unigolyn;
- ymgyfarwyddo â'r drefn ar gyfer cyfweliadau gan gynnwys cyfrinachedd a chyfle cyfartal a chwarae rôl;
- datblygu cwestiynau ar gyfer cyfweliadau anffurfiol a ffurfiol;
- llunio proffil a fydd yn rhoi darlun o sgiliau a diddordebau ymgeiswyr;
- rhoi sgôr a chofnodi; a
- dod i gytundeb a gwneud y penderfyniad terfynol.

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Cynnwys tenantiaid mewn hyfforddiant**

Mae staff a thenantiaid Cymdeithas Tai First Choice, Cartrefi Cymru a Chonsortiwm Tai Gorllewin Morgannwg wedi sefydlu'r prosiect Byw yn Eich Cartref er mwyn gwella dealltwriaeth tenantiaid am eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Gweithiodd staff a thenantiaid gyda'i gilydd er mwyn paratoi ac arbrofi â chanllawiau hyfforddiant a llyfr gwaith i denantiaid er mwyn galluogi tenantiaid ag anableddau dysgu i hyfforddi tenantiaid eraill fel eu bod yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r llyfr gwaith yn cynnwys:

- cynnal sesiwn hyfforddi;
- defnyddio offer hyfforddi;
- gweithgareddau torri'r ias a chwarae rôl; a
- gwerthuso.

**Enghraifft o arferion da**

**Cynnwys tenantiaid mewn hyfforddiant**

Mae Ffederasiwn Tai Cymuned Sir y Fflint wedi paratoi llyfr gwaith i gynorthwyo tenantiaid i sefydlu a rhedeg canolfan i'r gymuned. Datblygwyd y canllawiau gan drigolion lleol ar y cyd â'r cyngor. Mae'n cynnig cyngor cynhwysfawr, hawdd i'w ddeall ynghylch pob agwedd ar sefydlu a rhedeg tŷ cymuned

Mae'r llyfr gwaith yn cynnwys adrannau ar y canlynol:

- ymgymryd ag astudiaeth ddichonolrwydd;
- lansio tŷ cymuned;
- rhedeg tŷ cymuned;
- cynnal adolygiad; a
- costau sefydlu a rhedeg canolfan.

**Pwyntiau allweddol: adnoddau a hyfforddiant**

- Mae landlordiaid a ymatebodd i'r holiadur, gyda'i gilydd, yn gwario ymron i £1 miliwn yn flynyddol er mwyn ariannu cyfranogiad tenantiaid.
- Mae cymdeithasau tai'n gwario bron ddwywaith gymaint ag awdurdodau lleol y pen ar gyfranogiad tenantiaid.
- Roedd hyfforddiant a chymorth uniongyrchol i sefydliadau tenantiaid yn rhoi cyfrif am 54% o'r cyllidebau.
- Roedd ymron i 40% o'r cyllidebau'n cael eu gwario ar gostau a hyfforddiant staff.
- Roedd 64% o'r awdurdodau lleol yn cyflogi swyddog cyfranogiad tenantiaid o'i gymharu â 40% o'r cymdeithasau tai.
- Roedd gan bob sefydliad tai â chymorth aelodau o staff yr oedd eu disgrifiadau swydd yn cynnwys cyfranogiad tenantiaid.
- Roedd 57% o awdurdodau lleol, o'i gymharu â 35% o gymdeithasau tai, wedi cael nawdd allanol er mwyn ariannu cyfranogiad tenantiaid.
- Roedd sefydliadau tenantiaid yn gallu cael nawdd o amrediad eang o ffynonellau ar gyfer cynnwys tenantiaid mewn gweithgareddau cymunedol ac amgylcheddol.
- Roedd pob cymdeithas dai a 79% o'r awdurdodau lleol yn darparu rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer cynrychiolwyr tenantiaid. Serch hynny, 56% yn unig o'r grwpiau tenantiaid a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o hyn.
- Roedd hyfforddiant ar y cyd ar gyfer tenantiaid a staff yn fwy cyffredin ymhlith awdurdodau lleol, a hyfforddiant ar gyfer tenantiaid ar eu pennau'u hunain yn fwy cyffredin ymysg cymdeithasau tai.
- Roedd 88% o'r cymdeithasau tai a oedd yn derbyn hyfforddiant yn dweud ei fod yn cwrdd â'u gofynion.
- Roedd pob sefydliad tai â chymorth yn darparu hyfforddiant ar gyfer tenantiaid.
- Soniodd tenantiaid ac aelodau o staff am broblemau'n ymwneud â chael tenantiaid i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi.

## 5.7 Compactau cyfranogiad tenantiaid

### Cyflwyniad

5.7.1 Mae'r adran hon yn disgrifio safbwyntiau budd-ddeiliaid am y defnydd o, ac effeithiolrwydd compactau cyfranogiad tenantiaid. Mae a wnelo'r adran â'r wybodaeth a ddarparwyd ym Mhennod 4, sy'n cynnwys dadansoddiad o gompactau er mwyn gweld i ba raddau y maent yn cydymffurfio â safonau craidd Llywodraeth y Cynulliad Cymru ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid.

### Terminoleg

5.7.2 Roedd adborth gan nifer o grwpiau ffocws o staff a thenantiaid yn dynodi nad oedd y term 'compact cyfranogiad tenantiaid' yn ddealladwy i'r mwyafrif o denantiaid. Dywedodd nifer o gyfranogwyr y byddai'n well ganddynt newid y term i "cytundebau cyfranogiad/cynnwys tenantiaid" am eu bod o'r farn y byddai'n haws i'w ddeall ac y byddai'n ddisgrifiad gwell o hanfod y dogfennau hyn.

> 'Mae'r teitl ar eu cyfer yn anghywir – 'compact'. Mae'n gynllun gweithredu ar y cyd rhwng y landlord a'r tenantiaid. Dylai fod yn gytundeb rhwng tenantiaid a'r awdurdod lleol.' (Uwch reolwr)

### Y nifer a'r mathau o gompactau

5.7.3 Mae dau awdurdod a dwy gymdeithas a gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur nad oes ganddynt gompactau eto.

5.7.4 Ar y cyfan, ymddengys fod compactau cyfranogiad tenantiaid yn cael eu sefydlu ar lefel landlord-eang gyda nifer o enghreifftiau o gompactau lleol/arbenigol hefyd yn cael eu nodi. Roedd hanner yr awdurdodau a thraean o'r cymdeithasau wedi datblygu compactau â chymdogaethau lleol. Roedd compactau arbenigol yn llawer mwy cyffredin ymhlith cymdeithasau a hysbysodd ynghylch 12 o rai o wahanol fath o'i gymharu â 3 awdurdod:

- roedd compactau tai lloches wedi cael eu datblygu gan 6 chymdeithas ac un awdurdod;
- compactau aml-landlord: Roedd un awdurdod a 3 cymdeithas wedi datblygu'r rhain;
- roedd compactau tai â chymorth wedi cael eu llunio gan ddwy gymdeithas;
- compact cynnal a chadw cynlluniedig lleol; a
- compact amlasiantaethol yn cynnwys sefydliadau nad ydynt yn landlordiaid.

5.7.5 Dengys Ffigur 22 y gwahanol fathau o gompactau cyfranogiad tenantiaid sydd wedi cael eu datblygu gan landlordiaid a thenantiaid.

**Ffigur 22: Mathau o gompactau cyfranogiad tenantiaid**

| Compact | Awdurdod Lleol | Cymdeithas Dai |
|---|---|---|
| Landlord-eang | 71% | 90% |
| Lleol | 50% | 35% |
| Arbenigol | 14% | 60% |

5.7.6 Roedd gan 60% (3) o'r sefydliadau tai â chymorth gompactau cyfranogiad tenantiaid. Roedd un sefydliad yn ystyried compactau arbenigol ychwanegol ar gyfer cymorth yn ôl yr angen a merched ifanc

5.7.7 Dywedodd sefydliadau tenantiaid am y ffordd yr oeddent wedi cymryd rhan yn y broses o ddatblygu'u compactau fel a ganlyn:

- Cyfarfodydd ar y cyd (13 grŵp);
- Paneli / fforymau arbennig (10 grŵp);
- Trwy'r ffederasiwn (3 grŵp);
- Cael cymorth ymgynghorydd neu sefydliad allanol (5 grŵp);
- Cynllun arbrofol;
- Sioe ben ffordd;
- Seminar lleol;
- Trwy gylchlythyr.

5.7.8 O ran monitro a gwerthuso compactau cyfranogiad tenantiaid, nododd landlordiaid y dulliau canlynol:

- Adolygiad blynyddol ar y cyd â thenantiaid (11 landlord);
- Cyfarfod rheolaidd â Fforwm / Ffederasiwn Tenantiaid (11 landlord);
- Mecanweithiau ar gyfer arolygon / adborth (6 landlord);
- Grŵp adolygu tasg a gorffen, gan gynnwys un sesiwn benodol yn para deuddydd (3 landlord);
- Adolygiad a hwylusir gan rywun o'r tu allan (2 landlord); a
- Fel rhan o adolygiad Gwerth Gorau o'r broses o reoli tai.

**Safbwyntiau cadarnhaol**

5.7.9 Dywedodd tenantiaid cysylltiedig mewn tri grŵp ffocws nad oeddent yn cael compactau'n ddefnyddiol a'u bod yn eu defnyddio fel dogfen gyfeirio, er bod y rhan fwyaf yn cydnabod nad oedd mwyafrif y tenantiaid yn y sefydliad yn gwybod beth ydynt.

> 'Mae'n ddefnyddiol os oes arnom angen cyfeirio ato, mae gennym ni.' (Tenant cysylltiedig)

> 'Nid yw'n llonydd, mae'n gwella bob blwyddyn, mae wastad yn datblygu.' (Tenant cysylltiedig)

> 'O gymorth mawr…yn cael ei ddefnyddio fel dogfen gyfeirio.' (Tenant cysylltiedig)

5.7.10 Roedd nifer o aelodau o staff yn cytuno bod eu compactau'n fframwaith defnyddiol ar gyfer cyfranogiad, ac roedd ganddynt agwedd gadarnhaol at eu compactau:

> 'Hwn yw fy meibl! Mae popeth a wneir gennym yn cael ei wneud trwy'r compact.' (Aelod o staff rheng flaen)

> 'Roedd y broses o'i ddatblygu'n un dda, fe wnaeth i ni ystyried ein rôl ni ein hunain.' (Uwch reolwr)

> 'Mae o gymorth mawr...yn cael ei ddefnyddio fel dogfen gyfeirio...mae wastad yn datblygu. Rydym yn ei adolygu i'w wneud yn haws i'w ddefnyddio, gyda phrint brasach, a chan

ei wneud yn haws i'w ddeall, heb fod yn gyfarwyddol.' (Uwch reolwr)

'Yn ddefnyddiol i landlordiaid na fyddent yn trafferthu ymwneud â chyfranogiad tenantiaid fel arall.' (Uwch reolwr)

'Mae wedi ein galluogi i gynnwys tenantiaid mewn ffordd fwy penodol gyda thargedau manwl a strwythuredig y mae'n rhaid eu cyrraedd.' (Swyddog cyfranogiad tenantiaid, cymdeithas dai)

### Problemau a nodwyd

5.7.11 Mynegwyd nifer o bryderon ynghylch compactau gan sefydliadau tenantiaid a gwblhaodd yr arolwg ar ffurf holiadur, gan gynnwys:

- y compact wedi cael ei baratoi gan swyddogion yn bennaf (5 grŵp);
- y broses yn dal yn mynd rhagddi oherwydd anghytuno; a
- heb ei gyhoeddi eto / newydd gael ei ddosbarthu (2 grŵp).

5.7.12 Mynegodd un sefydliad cenedlaethol bryderon ynghylch y fframwaith presennol gan awgrymu:

- y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru ystyried gwneud y fframwaith ar gyfer cyfranogiad yng Nghymru yn ofyn cyfreithiol;
- y dylid cael hawl statudol i gyfranogi fel sydd yn yr Alban; ac
- y dylid nodi'r safonau isaf ar gyfer cymryd rhan.

5.7.13 Roedd tenantiaid ac aelodau o staff a gymerodd ran yn nifer o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn yn cytuno bod canllawiau Llywodraeth y Cynulliad yn arwain at gompactau sy'n rhy gyfarwyddol ac anhyblyg, yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau. O'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn cael problemau, nododd aelodau o staff a thenantiaid yr anawsterau canlynol:

- y mwyafrif o denantiaid yn dangos difaterwch ac yn peidio â chymryd rhan;
- cael tenantiaid sy'n cynrychioli'r ystod oedran;
- cael pobl i ddal i gymryd rhan;
- pobl yn ceisio newid y rheolau/yn peidio â chadw at yr agenda;
- pwyntiau gweithredu ddim yn cael eu cyflawni;
- graddfeydd amser yn rhy obeithiol; ac
- anawsterau gyda thai gwasgaredig, problemau diwylliannol ac ieithyddol.

5.7.14 Cafodd y pryderon hyn eu nodi gan rai tenantiaid cysylltiedig hefyd:

'Nid yw tenantiaid (heblaw'r sefydliad tenantiaid) yn gwybod beth yw hanfod y compactau.' (Tenant cysylltiedig)

'Nid oes digon o denantiaid yn gwybod amdano ac mae'n rhy hirwyntog.' (Tenant cysylltiedig)

5.7.15 Ategwyd y farn hon gan bob un heblaw un o'r grwpiau o denantiaid anghysylltiedig, gan nad oeddent wedi clywed am gompactau cyfranogiad tenantiaid ac nid oeddent yn gwybod beth oedd compact cyfranogiad tenantiaid.

'Ni wyddom beth ydyw.' (Tenantiaid anghysylltiedig mewn pedwar grŵp)

> 'Nid ydym erioed wedi clywed amdano.' (Tenantiaid anghysylltiedig mewn un grŵp)

5.7.16 Dywedodd nifer o aelodau o staff fod compactau'n hirwyntog ac yn anodd i'w deall a bod staff a thenantiaid yn cael problemau am fod compactau'n rhy gyfarwyddol a chaeth.

> 'Gormod o bwyslais ar brosesau, y canlyniadau sy'n bwysig.' (Aelod o staff rheng flaen)

> 'Y broblem yw eu bod yn gysylltiedig â fframwaith ffurfiol, nad yw'n ein galluogi i fod yn hyblyg, ond mae'r berthynas rhwng tenantiaid a landlordiaid yn hyblyg. Os oes rhaid gweithio yn ôl rheol, does dim byd yn gweithio.' (Aelod o staff rheng flaen)

> '(mae compactau'n) amrywiol iawn, yn fanwl, yn uchelgeisiol, yn cynnwys gormod o bethau, yn afrealistig.' (Cyfarwyddwr tai, cymdeithas dai)

5.7.17 Dywedodd rhai aelodau o staff nad oedd eu compactau'n cael eu defnyddio fel dogfennau gweithiol, ac mai'r unig adeg y cyfeirir atynt yw pan fo problem. Mewn un grŵp o ddeg aelod o staff rheng flaen, un aelod yn unig a oedd wedi darllen y compact. Mewn grŵp arall, dywedodd staff rheng flaen nad oedd y compact wedi cael ei roi i'r staff ac nad oedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwybodol ohono.

5.7.18 Mynegwyd pryderon gan staff un landlord nad oedd eu compact yn cynrychioli safbwyntiau'r mwyafrif o'u tenantiaid:

> 'Cafodd (ein compact) ei lunio gyda chorff anghynrychiolaidd, felly nid oes gennym sail i wybod ai dyma yw'r hyn y mae mwyafrif y tenantiaid yn ei ddymuno. Nid yw'r compact ond yn ymorol am 10% o'r tenantiaid cysylltiedig.' (Uwch reolwr)

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Datblygu compact cyfranogiad tenantiaid**

Datblygwyd compact cyfranogiad tenantiaid Cymdeithas Tai Charter mewn partneriaeth â thenantiaid dros gyfnod o 14 mis. Datblygwyd y compact trwy drafodaethau mewn 10 cyfarfod gan bwyllgor ymgynghorol y tenantiaid, arolwg o fodlonrwydd tenantiaid a chynhadledd i denantiaid. Wedyn ymgynghorwyd ymhellach ynghylch y fersiwn ddrafft o'r compact â phwyllgor ymgynghorol y tenantiaid a'r grwpiau tenantiaid a gydnabyddir gan y sefydliad.

Mae'r compact yn cydnabod bod nifer o ffyrdd y gall tenantiaid gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau yn Charter yn anffurfiol ac yn ffurfiol. Caiff y cyfleoedd hyn eu disgrifio'n eglur mewn diagram a thabl yn y cytundeb. Mae cymryd rhan yn anffurfiol yn galluogi tenantiaid (neu ymgeiswyr) unigol i fynegi'u safbwyntiau trwy ymateb i arolygon neu gyfranogi o gyfarfodydd grwpiau ffocws. Gellir cymryd rhan yn ffurfiol trwy ddulliau cyfranogiad tenantiaid traddodiadol megis cymdeithas denantiaid gydnabyddedig neu bwyllgor ymgynghori'r tenantiaid.

**Syniadau ar gyfer gwella compactau**

5.7.19 Dywedodd staff tai â chymorth mewn un grŵp y dylid newid ffurf y compactau ar gyfer y rheiny ag anableddau dysgu er mwyn eu gwneud yn hygyrch.

5.7.20 Awgrymodd aelodau o staff mewn nifer o'r grwpiau ffocws y gellid gwella compactau trwy eu gwneud yn fyrrach ac yn symlach, ac yn llai uchelgeisiol.

'Mae angen iddynt fod yn ddogfennau syml a phenodol iawn...y cwbl ydynt yw rhywbeth a ddylai fod o gymorth wrth wrando a thrafod â chwsmeriaid...nid ydynt yn ganolog i'r holl broses cyfranogiad tenantiaid.' (Cyfarwyddwr tai, cymdeithas dai)

'Mae compactau'n dal i fod yn seiliedig ar un llwybr…mae angen dull mwy arloesol, llorweddol.' (Darparwr cymorth)

**Pwyntiau allweddol: compactau cyfranogiad tenantiaid**

- Dywedodd nifer o aelodau o staff a thenantiaid nad oedd mwyafrif y tenantiaid yn deall y term 'compact cyfranogiad tenantiaid'.
- Mae'r mwyafrif o gompactau'n rhai ar lefel landlord-eang.
- roedd hanner yr awdurdodau lleol a thraean o'r cymdeithasau tai wedi datblygu compactau lleol.
- Roedd mwy na hanner y cymdeithasau tai wedi datblygu compactau arbenigol.
- Roedd gan fwy na hanner y sefydliadau tai â chymorth gompactau.
- Roedd nifer o aelodau o staff a thenantiaid yn cytuno bod compactau'n fframwaith defnyddiol ac yn ddogfen gyfeirio ddefnyddiol ar gyfer cyfranogiad.
- Roedd nifer fawr o aelodau o staff a thenantiaid yn dweud bod canllawiau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer compactau'n rhy gyfarwyddol ac anhyblyg, ac yn canolbwyntio ar brosesau yn hytrach na chanlyniadau cynnwys tenantiaid.
- Roedd nifer o aelodau o staff yn dweud bod eu compactau'n rhy hirwyntog ac yn anodd i staff a thenantiaid eu deall.
- Nid oedd mwyafrif llethol y tenantiaid anghysylltiedig yn gwybod beth oedd compact cyfranogiad tenantiaid.
- Dywedodd rhai aelodau o staff tai â chymorth y dylid newid ffurf y compactau i'w gwneud yn fwy hygyrch i denantiaid ag anghenion o ran cymorth.
- Roedd awgrymiadau gan rai aelodau o staff a thenantiaid ar gyfer gwella compactau'n cynnwys eu gwneud yn fyrrach, yn symlach ac yn llai uchelgeisiol.

## 5.8 Syniadau ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid

5.8.1 Roedd gan aelodau o staff a thenantiaid a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn amrediad eang o syniadau ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid.

### Datblygu amrediad o ffyrdd o gynnwys tenantiaid

5.8.2 Dywedodd tenantiaid ac aelodau o staff o nifer o sefydliadau eu bod yn profi llwyddiant wrth ddefnyddio dulliau cyfranogiad anffurfiol. Dywedodd nifer o aelodau o staff eu bod, o fabwysiadu dull mwy arloesol gan ganolbwyntio'n fwy weithiau ar drin tenantiaid fel defnyddwyr wrth gasglu safbwyntiau ar rai materion, yn cael eu bod yn gallu casglu safbwyntiau amrediad o denantiaid na fyddent fel arfer yn cymryd rhan trwy grŵp neu fforwm traddodiadol.

> 'Rydym yn rhoi cynnig ar ddull sy'n canolbwyntio'n fwy ar drin tenantiaid fel defnyddwyr, h.y. grwpiau ffocws. Rydym yn ceisio adnabod grwpiau o bobl y mae materion penodol megis YG o bwys iddynt ..Rydym yn cael bod canolbwyntio ar un pwnc ar y tro yn fwy defnyddiol ac effeithiol.' (Cyfarwyddwr tai, cymdeithas dai)

> '(rydym wedi) newid i ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar drin tenantiaid fel defnyddwyr…ymgynghori trwy negeseuon testun, dros y rhyngrwyd, dros y ffôn a.y.b.' (Swyddog cymdeithas dai)

> 'Angen cefnu ar y syniad o gael grwpiau o bobl at ei gilydd mewn ystafell er mwyn gallu ymgynghori. Mae ffyrdd eraill ar gael. Mae angen inni ehangu'r ffyrdd y gall pobl ddod atom ni... Mae angen i bawb ohonom fod yn fwy arloesol.' (Aelod o staff awdurdod lleol)

> 'Fel arfer mae'n well gan denantiaid gymryd rhan mewn ffyrdd llai ffurfiol. Rydym wedi cael bod cyfuno cyfarfod â digwyddiad cymdeithasol yn ddull llwyddiannus iawn.' (Swyddog cyfranogiad tenantiaid, cymdeithas dai)

### Defnyddio technoleg gwybodaeth

5.8.3 Un o'r gwelliannau a grybwyllwyd amlaf oedd datblygu'r broses o gynnwys tenantiaid a gwella trefniadau cyfathrebu a darparu gwybodaeth trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth. Roedd nifer o sefydliadau yn neu wedi cynnal arolygon er mwyn canfod faint o denantiaid oedd yn gallu cael mynediad at gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Mae'r rhestr ganlynol yn cynnwys rhai o'r syniadau a gynigiwyd gan gyfranogwyr o'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn:

- Casglu gwybodaeth am ddefnydd tenantiaid o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd fel sail i ddatblygu gweithdrefnau darparu gwybodaeth.
- Rhoi gwybodaeth ar y wefan.
- Cyfathrebu'n fwy trwy'r e-bost (nifer o grwpiau).
- Ystyried anfon un cwestiwn trwy neges destun a neges e-bost er mwyn cael mwy o ymateb gan denantiaid ifainc.
- Sicrhau bod holiaduron yn cynnwys cwestiynau a fydd o gymorth i ganfod faint o denantiaid sydd â mynediad at y rhyngrwyd a'r e-bost.
- Prosiect cyfrifiaduron rhyngweithiol er mwyn rhoi cymorth i bobl gael mynediad at Fand Llydan.

- Tudalen gartref ar wefan y landlord i denantiaid.

- Arolygon yn ymddangos ar y wefan.

  'Datblygu'r dechnoleg a ddefnyddir yn y gweithle, gyda chwsmeriaid yn ymwneud â ni mewn gwahanol ffyrdd. Rydym yn casglu gwybodaeth am ddefnydd (tenantiaid) o'r ffôn a'r rhyngrwyd.' (Cymdeithas dai)

'Yn sgîl ein hastudiaeth o agweddau tenantiaid, cawsom fod y nifer o'n tenantiaid sydd â mynediad at TG wedi cynyddu'n sylweddol a'i bod yn debygol y bydd gan 27% o'n tenantiaid fynediad erbyn y flwyddyn nesaf.' (Awdurdod lleol)

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Defnyddio technoleg gwybodaeth i hybu'r broses o gynnwys tenantiaid**

Ymgymerodd TPAS Cymru ag arolwg o sefydliadau tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol er mwyn cael gwybodaeth gychwynnol am fynediad tenantiaid at dechnoleg gwybodaeth a'r materion y mae angen mynd i'r afael â hwy i wella mynediad. Gweithiodd TPAS gyda Grŵp Tai Cadarn i baratoi canllawiau arferion gorau ac argymhellion ar gyfer landlordiaid a sefydliadau tenantiaid er mwyn gwella'r mynediad at dechnoleg gwybodaeth. Mae mwy o wybodaeth am y prosiect ar gael yn: www.tpascymru.org.uk

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Defnyddio technoleg gwybodaeth i hybu'r broses o gynnwys tenantiaid**

Mae Consortiwm Tai Gorllewin Morgannwg wedi rhoi'i Adroddiad Blynyddol ar ei wefan ac ar cd rom. Mae'r adroddiad yn cynnwys pytiau fideo a sain gyda thenantiaid, aelodau o'r bwrdd ac aelodau o staff yn rhoi gwybodaeth am y sefydliad a'i weithgareddau. Mae'r adroddiad ar gael yn: www.wghc.co.uk ar y tudalennau i denantiaid.

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Defnyddio technoleg gwybodaeth i hybu'r broses o gynnwys tenantiaid**

Mae staff a thenantiaid Carr Gomm wedi datblygu gwefan fywiog yn llawn gwybodaeth ar gyfer tenantiaid ynghyd â sgyrsfan. Mae'r wefan yn cynnwys:

- gwybodaeth am y sefydliad a sut i gymryd rhan;
- polau piniwn;
- cylchoedd trafod;
- cylchlythyrau a rhestrau o ddigwyddiadau rhanbarthol;
- cyfleusterau e-bost ar y we;
- sgyrsfan i denantiaid na all ond tenantiaid Carr Gomm gael mynediad iddi a hynny gan ddefnyddio cyfrinair;
- celf, lluniau a darnau ysgrifenedig gan denantiaid; a
- cyfleoedd dysgu gydol oes.

Mae grŵp o ddefnyddwyr y gwasanaethau wedi derbyn hyfforddiant i'w galluogi i hyfforddi eraill i fynd at y safle a rhoi cymorth sylfaenol ym maes TG. Mae defnyddwyr y gwasanaethau hefyd yn cael cymorth i ddefnyddio'r wefan gan wirfoddolwyr a staff. Cyfeiriad y wefan yw www.tenantsonline.org

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Defnyddio technoleg gwybodaeth i hybu'r broses o gynnwys tenantiaid**

Mae prosiect gwefan Grŵp TP Herts wedi'i fwriadu i hybu'r broses o gynnwys tenantiaid a rhannu sgiliau, profiad ac arferion da trwy gynnig cyfle i bob un o'r tenantiaid leisio barn ni waeth beth fo'u hamgylchiadau o ran bod â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu nam ieithyddol, anawsterau darllen ac ysgrifennu neu unrhyw anableddau eraill.

Mae gwybodaeth am gyfleoedd i'r holl denantiaid gael lleisio barn am faterion sy'n effeithio ar eu cartref a/neu gymuned wedi cael ei rhoi ar wefan y prosiect sy'n cynnwys pytiau fideo a sain, ac sy'n cynnwys mwy na 30 o ieithoedd gan gynnwys iaith arwyddion.

Mae'r wefan wedi'i bwriadu ar gyfer darparwyr tai, tenantiaid a grwpiau cymunedol ledled y DU. Cyfeiriad y wefan yw: www.tpherts.org.uk

## Cynnwys tenantiaid ar lefel leol

5.8.4 Eglurodd nifer o gymdeithasau tai eu bod wedi annog tenantiaid i gymryd rhan ar lefel leol trwy roi pŵer i swyddogion tai wneud mwy o benderfyniadau a bod yn bresennol am fwy o amser ar y safle, a thrwy ddarparu cyllidebau ar gyfer tenantiaid a staff i'w gwario ar welliannau ar lefel leol.

> 'Rydym yn amcanu cynnwys tenantiaid yn y fan a'r lle. Mae'n swyddogion tai'n cael mwy o bwerau i wneud penderfyniadau a bod ar y safle am fwy o amser. Rydym am iddynt fod ar y strydoedd, yn gallu ateb cwestiynau, â pheidio â gorfod eu trosglwyddo i'r swyddfa.' (Uwch reolwr, cymdeithas dai)

> 'Mae angen i bobl feddwl y gallant wneud rhywbeth – cynnal gweithgareddau lleol, cael cyllidebau i denantiaid eu defnyddio a'u rheoli ar gyfer prosiectau bychain.' (Cymdeithas dai)

5.8.5 Gwnaeth nifer o denantiaid ac aelodau o staff awgrymiadau eraill ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid ar lefel leol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- y landlord yn darparu adnoddau i alluogi tenantiaid i reoli cyllidebau bychain er mwyn ymgymryd â mentrau lleol;
- y landlord yn cytuno â'r tenantiaid ar bolisi gosodiadau lleol ac yn bod yn ofalus gyda dyraniadau i rai ardaloedd er mwyn lleihau YG;
- datblygu paneli monitro gwasanaethau gydag adroddiadau ar berfformiad gan y rheolwr ardal; a
- cynnal teithiau cerdded o amgylch yr ystad ar gyfer tenantiaid a staff er mwyn arolygu'r broses o reoli'r ystad, trefniadau parcio ceir a diogelwch y gymuned.

## Cynnwys tenantiaid yn y broses ddylunio

5.8.6 Dywedodd nifer o aelodau o staff cymdeithasau tai fod Llyfr Patrwm Llywodraeth y Cynulliad Cymru yn cyfyngu ar allu landlordiaid i gynnwys tenantiaid yn effeithiol yn y broses o ddylunio'u cartrefi. Awgrymwyd y dylid adolygu'r Llyfr Patrwm er mwyn ei wneud yn llai cyfarwyddol a chyfyngol. Awgrymodd un grŵp y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru gynnal

ymchwil ymysg tenantiaid sy'n byw mewn tai Llyfr Patrwm, er mwyn canfod ai dyma'r math o dai y mae pobl am fyw ynddynt.

> 'Rwy'n ansicr i ba raddau y mae Llyfr Patrwm Llywodraeth y Cynulliad yn caniatáu i ddefnyddwyr ddewis yr hyn sydd orau ganddynt.' (Aelod o staff rheng flaen, cymdeithas dai)

> 'Dylid cael gwared ar y Llyfr Patrwm. Byddai cael gwared ar y cyfyngiadau'n ei gwneud yn bosib arloesi. A yw model Tai Cymru'n briodol y dyddiau hyn? Mae'r Llyfr Patrwm yn achosi problemau gyda'r cartref gofal newydd yr ydym yn ei godi ar hyn o bryd.' (Uwch reolwr, cymdeithas dai)

5.8.7 Roedd awgrymiadau eraill a wnaed gan denantiaid ac aelodau o staff, er mwyn gwella'r broses o gynnwys tenantiaid wrth ddylunio tai, yn cynnwys:

- ymgynghori â thenantiaid ynghylch pob cynllun unigol, e.e. gosod ffensys mewn gerddi ffrynt;
- sefydlu is-bwyllgor i lunio cytundeb ar gyfer gwaith ar raddfa fawr;
- hyfforddi swyddogion a thenantiaid er mwyn iddynt ddysgu sut i wrando;
- sefydliad tenantiaid i gwrdd â'r tîm datblygu er mwyn rhoi cymorth gydag unrhyw welliannau arfaethedig;
- caniatáu troi'r atig yn ystafell wely er mwyn osgoi gorfod symud i eiddo arall; a
- rhoi cawodydd i bobl â phlant sy'n chwarae pêl-droed neu rygbi – mae'n llawer glanach a mwy effeithlon na bath. (neu gael trefniant 50:50 os yw tenant am osod un).

**Enghraifft o arferion cadarnhaol**

**Cynnwys tenantiaid wrth ailddylunio ystad**

Aeth Cyngor Dinas Abertawe ati i ailddylunio un o'i ystadau mewn partneriaeth â Chymdeithas Tai Abertawe.

Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus i hysbysu'r cyhoedd ac unrhyw gyrff cysylltiedig ynghylch yr angen i ailddatblygu'r tai. Ffurfiwyd panel i ddewis datblygwyr ar gyfer y prosiect a hwnnw'n cynnwys 3 thenant, cynghorydd y ward leol, yr Aelod Cabinet dros dai, a chyda swyddogion yn rhoi cyngor.

Ymwelodd aelodau o staff y cyngor â thenantiaid a pherchentywyr er mwyn cynnal asesiad o'r angen ac, os oedd hynny'n briodol, cafwyd asesiad ffurfiol gan therapydd galwedigaethol.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws er mwyn casglu safbwyntiau tenantiaid am amrediad o wahanol fathau o dai a dewisiadau o ran cynllun a dyluniad. Dewiswyd cyfranogwyr ar gyfer y grwpiau ffocws gan gwmni ymchwil annibynnol a oedd hefyd yn gyfrifol am hwyluso'r trafodaethau. Roedd y grwpiau'n cynnwys tenantiaid dros 50, tenantiaid ifainc, a thenantiaid a chanddynt blant.

Cynhaliwyd diwrnod gwybodaeth ar gyfer yr holl drigolion ar yr ystad ac roedd y contractwyr, ac aelodau o staff yr awdurdod lleol a'r gymdeithas dai'n bresennol. Cafwyd arddangosfa o'r dewis o fathau o dai, samplau o wahanol fathau o unedau cegin, teils, gorchuddion llawr, lliwiau, ac offer anghenion arbennig ar gyfer y rheiny ag anableddau corfforol. Roedd meddalwedd cyfrifiadurol ar gael a oedd yn rhoi cyfle i denantiaid fynd ar daith rithwir gan 'gerdded drwy'r' tai, a 'hedfan dros' yr ystad newydd.

Rhoddwyd dewisiadau i'r trigolion o ran y canlynol:

| | |
|---|---|
| Y llain a neilltuir | Mathau o dai |
| Addasiadau Anghenion Arbennig | Lliw'r swît ymolchi |
| Mathau a lliwiau'r unedau a'r arwynebau yn y gegin | Cynllun y ceginau |
| Lloriau | Teils ar gyfer y waliau |
| Drysau | Lliwiau'r waliau |
| Lliwiau'r brics | Maint y gerddi |
| Drysau patio | |

> *"Cawsom ddewis lliw'r swît ymolchi, y math o lawr, drysau, lliwiau'r brics, maint yr ardd, drysau patio, popeth i ddweud y gwir." (tenant)*

Cafodd y tenantiaid restr o fanion ychwanegol yr oeddent yn gallu'u dewis os oeddent yn dymuno talu am y rhain. Roeddent yn cynnwys gosod tapiau'r tu allan a siediau mwy yn y gerddi

### Cysylltiadau rhwng landlordiaid a thenantiaid

5.8.8 Cyflwynodd nifer o denantiaid ac aelodau o staff syniadau ar gyfer gwella cysylltiadau rhwng tenantiaid a landlordiaid:

- datblygu perthynas dda gyda'r naill yn ymddiried yn y llall a sicrhau bod y landlord yn gweithredu gan ymateb i geisiadau ac anawsterau;
- landlord a chynrychiolwyr tenantiaid yn bod yn agored, gan siarad â phobl a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl;
- landlord a chynrychiolwyr tenantiaid yn meithrin cysylltiadau â grwpiau cymunedol;
- landlordiaid yn sicrhau bod yr holl denantiaid newydd yn cael cyfarfod er mwyn dod i gysylltiad â swyddog tai ar ôl symud i mewn, er mwyn datrys unrhyw broblemau a gweld a ellir gwneud gwelliannau;
- landlordiaid yn anfon mwy o ffurflenni gwerthuso gwasanaethau at denantiaid gydag anogaeth i'w dychwelyd, e.e. gwobrau raffl; a
- landlordiaid yn cynnal mwy o sioeau pen ffordd a chymorthfeydd i denantiaid alw i mewn er mwyn casglu safbwyntiau mwyafrif y tenantiaid.

### Gweithdrefnau Llywodraeth y Cynulliad

5.8.9 Gwnaeth un grŵp o denantiaid awdurdod lleol y sylw bod papurau ymgynghori wedi cael eu hanfon gan

Lywodraeth y Cynulliad Cymru at y landlord ac nad oedd ond ychydig o amser i ymateb, a oedd yn golygu nad oedd yr awdurdod yn gallu ymgynghori'n iawn â thenantiaid. Fe awgrymon nhw y dylid ymestyn cyfnodau ymgynghori er mwyn sicrhau bod sefydliadau tenantiaid yn gallu derbyn yr wybodaeth a chyflwyno safbwyntiau.

5.8.10 Dywedodd grŵp arall o denantiaid yr hoffent i Lywodraeth y Cynulliad Cymru roi gwybodaeth eglur i sefydliadau tenantiaid am Safon Ansawdd Tai Cymru.

5.8.11 Dywedodd nifer o landlordiaid yr hoffent i Lywodraeth y Cynulliad Cymru chwarae rhan allweddol wrth arbrofi ag arferion gorau a rhannu arferion gorau yng nghyswllt cynnwys tenantiaid.

**Pwyntiau allweddol: syniadau ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid**

- Roedd gan aelodau o staff a thenantiaid amrediad eang o syniadau ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:
- Datblygu amrediad o ffyrdd i gynnwys tenantiaid a oedd yn cynnwys dulliau anffurfiol, arloesol a'r rheiny weithiau'n seiliedig ar drin y tenantiaid fel defnyddwyr;
- Defnyddio technoleg gwybodaeth yn amlach er mwyn datblygu'r broses o gynnwys tenantiaid a gwella trefniadau cyfathrebu a darparu gwybodaeth ar gyfer tenantiaid;
- Annog tenantiaid i chwarae mwy o ran ar lefel leol trwy roi pŵer i swyddogion tai wneud mwy o benderfyniadau a rhoi cyllidebau i denantiaid a staff eu gwario ar welliannau;
- Gwella'r broses o gynnwys tenantiaid wrth ddylunio tai trwy gynnal ymchwil er mwyn casglu safbwyntiau tenantiaid sy'n byw mewn tai Llyfr Patrwm ac adolygu'r Llyfr Patrwm er mwyn ei wneud yn llai cyfarwyddol a chyfyngol;
- Ymestyn cyfnodau ymgynghori Llywodraeth y Cynulliad er mwyn sicrhau bod gan sefydliadau tenantiaid amser i dderbyn gwybodaeth a chyflwyno'u sylwadau;
- Gwella'r berthynas rhwng tenantiaid a landlordiaid trwy ddatblygu mwy o gysylltiadau ac ymgymryd â gweithgareddau ar y cyd.

# 6 Crynodeb a chasgliadau

## Cyflwyniad

6.1 Mae'r adran hon yn cynnwys crynodeb o'r pwyntiau allweddol, a rhai casgliadau am ganfyddiadau'r ymchwil a ddisgrifir ym mhenodau 2 i 5. Mae'r crynodeb a'r casgliadau yn arwain at Bennod 7, sy'n cynnwys nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad, landlordiaid cymdeithasol, sefydliadau tenantiaid a sefydliadau cenedlaethol.

## Gwerthusiad o astudiaethau a chanllawiau arferion da eraill

6.2 Roedd yr holl ymchwil flaenorol a adolygwyd fel rhan o'r prosiect yn nodi bod angen amrediad eang o wahanol gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad sy'n cyfreithloni strwythurau anffurfiol yn ogystal â rhai ffurfiol ar gyfer cynnwys tenantiaid. Cafodd astudiaeth ddiweddar gan yr ODPM ar gynnwys tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn y broses dewisiadau stoc (**ODPM 2004**) fod grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn cael eu tangynrychioli mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid ond bod hyn yn wir hefyd am nifer o grwpiau ac unigolion eraill. Mae'r ddau bwynt hwn yn ategu canfyddiadau'r ymchwil a wnaed ymysg tenantiaid a landlordiaid yn ystod y prosiect hwn.

6.3 Er na ddaethpwyd ar draws gwerthusiad ar wahân o ddulliau anffurfiol yn ystod yr adolygiad, ystyriwyd y defnydd o'r fath ddulliau fel rhan o werthusiadau megis **Communities Scotland 2004, 'Analysis of the Baseline Study of Tenant Participation**'. Yn ogystal â hynny, canfu astudiaeth yr ODPM enghreifftiau o rai dulliau anffurfiol llwyddiannus ar gyfer cynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, er enghraifft, cymhorthfa mewn archfarchnad leol, ymgynghori drwy fynd o ddrws i ddrws, a chysylltu â thenantiaid trwy ddosbarthiadau Saesneg i ffoaduriaid.

6.4 Yn y rhan fwyaf o'r astudiaethau blaenorol a adolygwyd cafwyd fod amrywiaeth eang o ran faint o arian yr oedd landlordiaid yn ei fuddsoddi yn y broses cyfranogiad tenantiaid. Roedd astudiaethau'n cynnwys casgliadau a oedd yn groes i'w gilydd o ran a oes cydberthynas rhwng yr arian sy'n cael ei wario a chyfranogiad effeithiol. Cafodd dwy o'r astudiaethau fod cysylltiad rhwng sefydliadau a oedd yn perfformio'n dda a'r ymrwymiad ganddynt i gyfranogiad effeithiol (**TPAS Cymru/WTF, 1998 a Communities Scotland**, yn y gwaith a enwir uchod), ac roedd un astudiaeth wedi dod i'r casgliad nad oedd cydberthynas o'r fath (**Y Gorfforaeth Dai, 2000**). Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu nad adnoddau'n unig sy'n angenrheidiol er mwyn datblygu cyfranogiad llwyddiannus, ond bod nifer o ffactorau eraill yn bwysig hefyd. Gallai'r rhain gynnwys diwylliant y sefydliad ac agwedd gyffredinol y staff at gyfranogiad tenantiaid, hanes y sefydliad o fuddsoddi mewn cyfranogiad tenantiaid, ac i ba raddau y mae'r landlord wedi ymateb yn y gorffennol i bryderon tenantiaid.

6.5 Roedd yr ymchwil yn yr Alban hefyd yn dod i'r casgliad mai monitro a mesur canlyniadau cyfranogiad oedd yr elfen o arferion ym maes cyfranogiad tenantiaid sydd wedi'i datblygu leiaf. Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r prosiect hwn, sy'n dangos bod gweithdrefnau monitro a mesur perfformiad yng Nghymru ar y cyfan

yn canolbwyntio ar y broses yn hytrach nag ar ganlyniadau cyfranogiad.

### Fframweithiau cyfranogiad tenantiaid

6.6 Canfu'r ymchwil fod y fframweithiau ar gyfer cyfranogiad tenantiaid a'r safonau craidd ar gyfer datblygu compactau yng Nghymru a Lloegr yn debyg iawn. Serch hynny, mae'r safonau craidd yng Nghymru'n cynnwys elfen ychwanegol, sef "Cynnwys Tenantiaid", sy'n canolbwyntio ar ofynion ar gyfer datblygu strwythurau cyfranogiad ffurfiol.

6.7 Yn yr Alban, mae Gweithrediaeth yr Alban wedi cyflwyno deddfwriaeth sy'n gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i gynnwys tenantiaid, a chynnig cyfle i sefydliadau tenantiaid gofrestru fel Sefydliadau Tenantiaid Cofrestredig.

6.8 Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon ddyletswydd statudol i ymgynghori â thenantiaid, ac mae'r Weithrediaeth wedi sefydlu fframwaith gwirfoddol ar gyfer cynnwys y gymuned. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r lefel cynnwys tenantiaid ym meysydd tai a datblygu cymunedol yn drawiadol, ac mae'r NIHE a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn darparu llawer iawn o adnoddau ar gyfer hyn o'i gymharu â chyfranogiad tenantiaid yng Nghymru.

6.9 Nid oes sail statudol i'r fframwaith yng Nghymru a Lloegr ar gyfer cynnwys sefydliadau tenantiaid, sy'n golygu bod rhwydd hynt i landlordiaid yng Nghymru a Lloegr lunio strwythurau a phrosesau ar gyfer cynnwys tenantiaid fel y gwelant orau. Byddai'r gwerthusiad o gompactau tenantiaid ledled Cymru'n awgrymu bod y dull hwn yn arwain at amrywiaeth eang o arferion a safbwyntiau gwahanol gan denantiaid am effeithiolrwydd cyfranogiad tenantiaid. Dylai'r dull a fabwysiadwyd gan Weithrediaeth yr Alban arwain at fwy o gysondeb ymhlith landlordiaid cymdeithasol yn yr Alban. Serch hynny, ymddengys fod y dull a fabwysiadwyd yn yr Alban yn canolbwyntio ar strwythurau ffurfiol ar gyfer cynnwys tenantiaid ac ar amrediad culach o weithgareddau'n ymwneud â thai na'r dull yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon mae'r lefel cynnwys tenantiaid yn drawiadol, ond mae angen cryn dipyn yn fwy o nawdd canolog nag mewn rhannau eraill o'r DU.

### Compactau cyfranogiad tenantiaid

6.10 Canfu'r ymchwil nad yw mwyafrif y tenantiaid anghysylltiedig yn deall y term 'compact cyfranogiad tenantiaid' ac nad oeddent yn deall beth oedd compact cyfranogiad tenantiaid. Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y dylid newid y term i 'cytundeb cynnwys tenantiaid' er mwyn rhoi disgrifiad mwy cywir o gynnwys a statws y ddogfen.

6.11 Canfu'r ymchwil fod lefelau cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid yn isel ymhlith y mwyafrif o landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru sy'n darparu compactau cyfranogiad tenantiaid. Ymddengys yn arbennig fod 21% o'r landlordiaid sy'n awdurdodau lleol, a 24% o'r landlordiaid sy'n gymdeithasau tai a ddarparodd compactau wedi datblygu'r rhain heb weithio mewn partneriaeth â thenantiaid. Mae'r canfyddiad hwn yn awgrymu amrywiaeth o ran ymrwymiad landlordiaid cymdeithasol i gyfranogiad tenantiaid, ac mae'n cysylltu â'r canfyddiad nad yw 33% o'r sefydliadau tenantiaid a ymatebodd i'r arolwg ar ffurf holiadur yn meddwl bod eu cyfraniadau hwy'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r hyn y mae eu landlord yn ei wneud. 8% yn unig o'r landlordiaid

cymdeithasol hynny a ddarparodd gopïau o'u compactau tenantiaid a ddarparodd gopïau hefyd o gompactau a ddatblygwyd yn lleol a darparodd 13% arall o'r landlordiaid cymdeithasol enghreifftiau o gompactau arbenigol.

6.12 Mae'r casgliad uchod yn awgrymu bod y lefelau cydymffurfio isel â'r canllawiau ar gyfer compactau yn adlewyrchu nid yn unig ar ddiffyg brwdfrydedd rhai landlordiaid dros ddatblygu compactau ond hefyd ar berthnasedd ymarferol y canllawiau'u hunain. Caiff y dehongliad hwn ei ategu gan ganfyddiadau'r grwpiau ffocws a'r cyfweliadau dros y ffôn, gan fod nifer fawr o denantiaid a landlordiaid wedi mynegi'r safbwynt bod canllawiau Llywodraeth y Cynulliad Cymru yng nghyswllt compactau'n rhy gyfarwyddol ac anhyblyg, a'u bod yn ei gwneud yn ofynnol i'r compactau ganolbwyntio ar y broses gyfranogiad yn hytrach nag ar ganlyniadau cynnwys tenantiaid.

6.13 Canfu'r ymchwil fod y canllawiau ar gyfer compactau cyfranogiad tenantiaid yn annog landlordiaid cymdeithasol i ddilyn llwybrau traddodiadol wrth fynd ar drywydd cyfranogiad tenantiaid, yn hytrach na dilysu amrediad o ffyrdd o gynnwys tenantiaid. Canfu'r ymchwil fod nifer o sefydliadau tenantiaid a landlordiaid yn nodi anawsterau wrth recriwtio aelodau newydd a chael aelodau i ddal i gymryd rhan mewn sefydliadau tenantiaid, yn arbennig felly pobl ifanc, tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sydd ag anghenion o ran cymorth, a bod landlordiaid yn mynd ati'n fwyfwy i fabwysiadu amrediad o ffyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys mwyafrif y tenantiaid.

6.14 Canfu'r adolygiad o gompactau cyfranogiad tenantiaid mai 42% yn unig o awdurdodau lleol a 40% yn unig o gymdeithasau tai sy'n cydymffurfio â 6 o'r 12 cydran yn safonau craidd Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth ar gyfer tenantiaid. Un o'r rhagofynion ar gyfer cynnwys tenantiaid yn y broses gwneud penderfyniadau yw darparu gwybodaeth sydd o ansawdd dda, yn berthnasol, yn amserol ac yn ddealladwy er mwyn eu galluogi i ffurfio safbwyntiau deallus am faterion a chyfranogi'n effeithiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i awdurdodau lleol sydd, neu a fydd, yn ymgynghori â thenantiaid ynghylch dewisiadau stoc.

## Safbwyntiau budd-ddeiliaid am gynnwys tenantiaid

6.15 Canfu'r ymchwil fod nifer fawr o gyfranogwyr o'r grwpiau ffocws yn dehongli'r term 'cyfranogiad tenantiaid' fel disgrifiad o gynnwys tenantiaid mewn sefydliadau tenantiaid yn unig, yn hytrach na disgrifiad o'r amrediad llawn o ddulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gasglu safbwyntiau tenantiaid am y gwasanaeth.

6.16 Canfu'r ymchwil fod mwyafrif y tenantiaid yn dweud eu bod am gael lleisio barn am y gwasanaethau a ddarperir gan eu landlord, a'u bod am i'w safbwyntiau gael eu hystyried a gwneud gwahaniaeth. Dywedodd mwyafrif y tenantiaid anghysylltiedig a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws y byddai'n well ganddynt leisio barn mewn ffyrdd heblaw trwy sefydliadau tenantiaid. Roedd gan fwyafrif y landlordiaid agwedd gadarnhaol tuag at gyfranogiad tenantiaid. Nododd sefydliadau tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol amrediad eang o faterion yr ymgynghorir â thenantiaid yn eu cylch, ac

roeddent yn cytuno ar rannau o'r gwasanaeth yr oedd tenantiaid wedi cael eu cynnwys ynddynt.

6.17 Dywedodd nifer fawr o sefydliadau tenantiaid naill ai nad oeddent yn gwybod pa wahaniaeth yr oedd eu cyfraniadau wedi'i wneud, neu nad oedd eu cyfraniadau'n gwneud unrhyw wahaniaeth i'r hyn y mae eu landlord yn ei wneud. Roedd hyn yn groes i safbwyntiau mwyafrif y landlordiaid cymdeithasol a oedd o'r farn bod cyfranogiad tenantiaid wastad neu weithiau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Byddai'r anghysondeb hwn yn awgrymu naill ai nad yw nifer o landlordiaid yn ystyried safbwyntiau'u tenantiaid, neu nad ydynt yn mynd ati'n effeithiol i roi adborth i denantiaid o ran sut y mae eu cyfraniadau wedi dylanwadu ar bolisïau a gweithdrefnau. Daeth yr ymchwil o hyd i achosion penodol pan nad oedd tenantiaid wedi cael eu cynnwys mewn prosesau, gan gynnwys datblygu compactau cyfranogiad tenantiaid. Daeth o hyd i rai enghreifftiau hefyd o achosion pan oedd safbwyntiau tenantiaid wedi cyfrannu at newidiadau pwysig gan landlordiaid, ond nad oedd sefydliadau tenantiaid yn ymwybodol eu bod wedi dylanwadu ar y newidiadau hyn.

### Sut y cynhwysir tenantiaid

6.18 Roedd mwy na dwy ran o dair o denantiaid awdurdodau lleol yn byw mewn ardaloedd y mae grwpiau tenantiaid yn weithredol ynddynt, o'i gymharu â llai nag un rhan o bump o denantiaid cymdeithasau tai. Mynegodd tenantiaid cysylltiedig, a landlordiaid bryderon ynghylch anawsterau wrth ddenu grwpiau penodol o denantiaid i gymryd rhan mewn sefydliadau tenantiaid er mwyn sicrhau bod grwpiau'n cynrychioli holl denantiaid y landlord.

6.19 Roedd tenantiaid anghysylltiedig a gymerodd ran yn yr ymchwil yn cynnwys pobl ifanc, tenantiaid o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny sydd ag anghenion o ran cymorth. Dywedodd mwyafrif y tenantiaid hyn yn eglur fod yn well ganddynt ar y cyfan leisio barn yn unigol, neu drwy ffyrdd anffurfiol eraill, yn hytrach na thrwy ymuno â grŵp. Daeth yr ymchwil o hyd i dystiolaeth bod landlordiaid yn mynd i'r afael â'r pryder hwn trwy ymgymryd ag amrediad o fentrau i annog grwpiau penodol o denantiaid i gymryd rhan. Serch hynny, mynegodd cynrychiolwyr un sefydliad cenedlaethol sy'n rhoi cymorth i denantiaid bryder ynghylch y ffaith bod landlordiaid yn datblygu dulliau gwahanol ar gyfer cynnwys tenantiaid, am fod cynnwys tenantiaid trwy ddulliau ar wahân i sefydliadau tenantiaid yn tanseilio rôl y sefydliadau hynny.

### Canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid

6.20 Daeth yr ymchwil o hyd i amrediad eang o ganlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid yn yr holl weithgareddau amrywiol gan landlordiaid, ar lefelau lleol a strategol. Roedd cymdeithasau tai'n fwy tebygol nag awdurdodau lleol o gynnwys tenantiaid ar lefel strategol, gan gynnwys trwy'u gwneud yn aelodau o fyrddau.

6.21 Daeth yr ymchwil o hyd i dystiolaeth bod sefydliadau tenantiaid yn weithredol ac yn cael canlyniadau cadarnhaol mewn amrediad eang o feysydd, gan gynnwys gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â thai ac sy'n ymwneud â'r gymuned leol a'r amgylchedd lleol. Serch hynny, roedd landlordiaid gryn dipyn yn llai tebygol o nodi gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig â thai fel canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid,

gan eu bod yn tueddu i ganolbwyntio ar ddiffiniad culach o rôl y broses o gynnwys tenantiaid.

6.22 Roedd nifer o denantiaid, landlordiaid a darparwyr cymorth yn cytuno mai un o'r canlyniadau llwyddiannus yn sgîl cynnwys tenantiaid mewn sefydliadau tenantiaid oedd y cyfle i gynrychiolwyr tenantiaid hybu'u datblygiad personol a chynyddu'u hyder, gwybodaeth a sgiliau.

### Adnoddau a hyfforddiant

6.23 Daeth yr ymchwil o hyd i dystiolaeth fod landlordiaid yn darparu cryn dipyn o adnoddau er mwyn sicrhau llwyddiant y broses o gynnwys tenantiaid, ac amcangyfrifir fod cyfanswm y buddsoddiad hwn yn £1.5 miliwn y flwyddyn. Roedd mwy na hanner yr adnoddau ar y cyfan yn cael eu darparu er mwyn rhoi hyfforddiant a chymorth uniongyrchol i sefydliadau tenantiaid, gyda'r rhan fwyaf o'r arian sy'n weddill yn cael ei wario ar gostau a hyfforddiant staff.

6.24 Er bod cymdeithasau tai'n gwario ymron i ddwywaith gymaint y denantiaeth ar gyfranogiad tenantiaid ag y mae awdurdodau lleol, mae awdurdodau lleol yn fwy tebygol o gyflogi swyddog cyfranogiad tenantiaid arbenigol er mwyn rhoi cymorth i'r broses cynnwys tenantiaid. Gall hyn fod o fantais gan fod angen sgiliau penodol er mwyn datblygu'r broses o gynnwys tenantiaid yn effeithiol. Serch hynny, mae angen sicrhau hefyd bod aelodau eraill o staff ac adrannau eraill yn y sefydliad yn gefnogol i gyfranogiad tenantiaid, fel ei fod yn cael ei 'brif-ffrydio' yn hytrach na'i ystyried yn gyfrifoldeb un aelod o staff neu un adran. Yn ogystal â hynny, canfu'r ymchwil fod ymron i ddwywaith gymaint o awdurdodau lleol wedi llwyddo i gael nawdd allanol fel cymorth i'r broses cyfranogiad, sydd o bosib yn awgrymu bod cael swyddog penodedig yn gyfrifol am gyfranogiad yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd gan sefydliadau fwy o adnoddau ar gael i baratoi ceisiadau am nawdd.

6.25 Canfu'r ymchwil fod anghysonderau rhwng canfyddiadau am gyfleoedd hyfforddiant rhwng sefydliadau tenantiaid a landlordiaid. Er bod yr holl gymdeithasau tai a mwyafrif llethol yr awdurdodau lleol yn dweud eu bod yn darparu rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer tenantiaid, ychydig dros hanner y sefydliadau tenantiaid yn unig a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o hyn. Dywedodd mwyafrif y sefydliadau tenantiaid a oedd yn derbyn hyfforddiant ei fod yn cwrdd â'u gofynion. Serch hynny, soniodd aelodau o staff a chynrychiolwyr tenantiaid am broblemau wrth geisio perswadio tenantiaid i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Gwnaeth rhai tenantiaid sylw am yr anhawster o ran eu bod yn gorfod teithio'n bell i gael mynediad at hyfforddiant, a oedd weithiau'n golygu teithio i Loegr.

### Problemau wrth gynnwys tenantiaid

6.26 Daeth yr ymchwil o hyd i safbwyntiau cyson gan sefydliadau tenantiaid ac aelodau o staff a oedd yn dweud mai'r broblem fwyaf cyffredin wrth ddatblygu proses lwyddiannus ar gyfer cynnwys tenantiaid oedd bod mwyafrif y tenantiaid yn gyndyn o gymryd rhan mewn grwpiau ffurfiol. Roedd aelodau o staff a chynrychiolwyr tenantiaid fel ei gilydd yn pryderu ynghylch y methiant i gynrychioli amrediad o denantiaid mewn strwythurau cyfranogiad tenantiaid ffurfiol, gan nodi mai pobl ifanc, tenantiaid BME, tenantiaid ag anghenion o ran cymorth, rhieni sengl a thenantiaid anabl yw'r rhai lleiaf tebygol o gymryd rhan mewn sefydliadau tenantiaid. Cadarnhaodd tenantiaid anghysylltiedig o'r grwpiau hyn y byddai'n well ganddynt gymryd rhan mewn amrywiaeth o ffyrdd

eraill, gan gynnwys lleisio barn yn unigol, fel rhan o ddigwyddiadau cymdeithasol, trwy fynychu trafodaethau unigol er mwyn lleisio barn ar bwnc penodol, neu drwy gymryd rhan mewn prosiect penodol megis paratoi cylchlythyr. Cadarnhawyd y canfyddiad hwn gan ganlyniadau arolygon o denantiaid a wnaed gan ddau landlord, a oedd yn dangos nad oedd mwyafrif y tenantiaid am gymryd rhan mewn grwpiau.

6.27 Mae'r canfyddiad uchod yn adlewyrchu pryderon a fynegir mewn meysydd eraill yn y gymdeithas heddiw. Ar y cyfan, mae'r ymrwymiad i weithredu a chymryd rhan yn y gymuned wedi lleihau dros yr ugain mlynedd ddiwethaf. Nid sefydliadau tenantiaid yw'r unig rai sy'n ei chael yn anodd recriwtio aelodau newydd ac annog pobl i gyfranogi ar y cyd, ond mae hyn hefyd yn wir am bleidiau gwleidyddol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae nifer y rheiny sy'n pleidleisio mewn etholiadau cyffredinol, lleol ac Ewropeaidd yn gyson yn isel. Yn ôl ymchwil a wnaed gan Mori yn 2002, mae 90% o bobl ifanc yn mynegi diddordeb mewn gwleidyddiaeth, ond 39% yn unig o bobl ifanc a bleidleisiodd yn etholiad cyffredinol 2001. Serch hynny, mae tystiolaeth bod nifer y bobl sy'n pleidleisio trwy negeseuon testun, dros y rhyngrwyd a thros y ffôn ar gyfer sioeau realiti ar deledu megis Big Brother a Pop Idol yn gyson yn uchel, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae hyn yn ategu canfyddiadau'r ymchwil, sef bod yr holl denantiaid yn dweud eu bod am leisio barn am y gwasanaeth ond mai nifer fechan yn unig sy'n barod i gymryd rhan trwy strwythurau ffurfiol. Mae'n werth nodi hefyd bod y Llywodraeth wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno dulliau pleidleisio eraill megis anfon negeseuon testun a phleidleisio dros y rhyngrwyd, er mwyn annog mwy o bobl i gymryd rhan mewn etholiadau.

6.28 Mae angen sylweddoli a chydnabod bod anghydbwysedd yn rheoliadau Llywodraeth y Cynulliad Cymru ar gyfer cymdeithasau tai a'i chanllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ymgynghori â thenantiaid ac ystyried eu safbwyntiau wrth wneud penderfyniadau, ond nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i denantiaid gyfranogi o brosesau ymgynghori. Mae'r gofynion presennol ar gyfer landlordiaid yn seiliedig ar y dybiaeth bod tenantiaid yn barod i roi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn cymryd rhan ac ymuno â grwpiau. Yn amlwg, nid yw gorfodi tenantiaid i gymryd rhan yn wirfoddol yn y broses cyfranogiad yn ddewis realistig, gan ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn cael croeso gan y mwyafrif o denantiaid, ac mae'n annhebygol y byddai gorfodaeth o'r fath yn hybu perthynas gadarnhaol ac un sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth rhwng tenantiaid a landlordiaid.

6.29 Daeth yr ymchwil o hyd i nifer o enghreifftiau o sefydliadau tenantiaid yn gweithio'n effeithiol ac mewn partneriaeth â'u landlord. Heb os nac oni bai, mae gan sefydliadau tenantiaid ran allweddol i'w chwarae wrth sicrhau proses cyfranogiad tenantiaid lwyddiannus. Er bod yn rhaid cydnabod mai lleiafrif y tenantiaid sy'n dewis cymryd rhan mewn sefydliadau tenantiaid, mae'n bwysig cydnabod bod gan denantiaid hawl i fod â threfniadau annibynnol, a bod nifer o sefydliadau tenantiaid yn gweithio er mwyn datblygu ffyrdd o gynnwys y gymuned ehangach. Dengys yr ymchwil, er bod angen iddynt roi cymorth i, a gweithio gyda sefydliadau tenantiaid, fod yn rhaid i landlordiaid ystyried yr hyn sy'n well gan y mwyafrif o denantiaid sy'n byw mewn tai cymdeithasol, a datblygu ffyrdd ychwanegol o gynnwys yr holl denantiaid.

6.30 Dengys yr ymchwil fod canlyniadau cynnwys tenantiaid yr un mor bwysig â'r broses i denantiaid. Mynegodd nifer o gynrychiolwyr tenantiaid bryder nad oedd eu cyfraniadau hwy'n gwneud gwahaniaeth o gwbl i'r hyn yr oedd eu landlord yn ei wneud. Dywedodd nifer o denantiaid eu bod wedi bod yn rhan o'r broses ymgynghori a'u bod wedi lleisio barn, ond nad oedd eu landlordiaid wedi cymryd unrhyw sylw o'u safbwyntiau. Yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael, mae rheoliadau, dangosyddion perfformiad, trefniadau monitro a gwerthuso presennol yn canolbwyntio ar y broses o gyfranogi yn hytrach nag ar y canlyniadau. Gall hyn arwain yn rhwydd iawn at lefelau uchel o ran cynnwys tenantiaid trwy strwythurau sy'n creu argraff, ond nad ydynt yn rhoi canlyniadau cadarnhaol. Byddai newid pwyslais y rheoliadau ar gyfer cymdeithasau tai, ac atgyfnerthu'r canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol, er mwyn iddynt roi'r un faint o bwyslais ar werthuso canlyniadau'r broses ag y maent ar y broses ei hun yn sicrhau bod landlordiaid yn gorfod cymryd sylw o, a gweithredu ar safbwyntiau tenantiaid, a bod yn rhaid hysbysu tenantiaid ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd o ganlyniad i'w cyfraniadau.

6.31 Mynegodd nifer o gymdeithasau tai bryder fod Llyfr Patrwm Llywodraeth y Cynulliad Cymru ar gyfer cymdeithasau tai'n gosod cyfyngiadau a oedd yn lleihau gallu tenantiaid i gyfranogi'n effeithiol o'r broses o ddylunio'u tai. Hefyd daeth yr ymchwil o hyd i nifer o anawsterau gyda'r gofynion manwl yn y Llyfr Patrwm sy'n golygu na ellir dylunio tai sy'n diwallu anghenion tenantiaid unigol.

### Gwella'r broses o gynnwys tenantiaid

6.32 Canfu'r ymchwil mai un o'r awgrymiadau a wneir amlaf ar gyfer gwella'r broses o gynnwys tenantiaid yw y dylid gwneud mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth er mwyn casglu safbwyntiau a gwella trefniadau cyfathrebu â, a darparu gwybodaeth ar gyfer, tenantiaid. Roedd nifer o landlordiaid wedi cynnal ymchwil er mwyn gweld faint o denantiaid oedd â mynediad at gyfrifiaduron ac at y rhyngrwyd, ac roedd nifer yn bwriadu neu eisoes wedi cyflwyno mentrau a oedd yn cynnwys cyfathrebu trwy wefannau a ffonau symudol. Mae hyn unwaith eto'n adlewyrchu'r duedd gynyddol yn y gymdeithas, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, i gyfathrebu trwy'r dulliau hyn.

6.33 Roedd un arall o'r awgrymiadau a wneir amlaf ar gyfer gwella'n cynnwys annog tenantiaid i gymryd mwy o ran a bod yn fwy annibynnol ar lefelau lleol. Awgrymwyd y gellid gwneud hyn trwy roi pwerau i swyddogion tai wneud mwy o benderfyniadau a thrwy hynny allu ymateb yn y fan a'r lle i geisiadau gan denantiaid, a thrwy ddarparu cyllidebau ar gyfer gwelliannau lleol y gellir eu gwario ar flaenoriaethau a adnabuwyd gan y bobl sy'n byw a gweithio yn yr ardal.

6.34 Awgrymodd nifer o gymdeithasau tai hefyd y dylai Llywodraeth y Cynulliad gynnal ymchwil bellach ymhlith tenantiaid sydd wedi byw, neu sydd yn byw mewn cartrefi Llyfr Patrwm, er mwyn casglu'u safbwyntiau ar y dyluniad Llyfr Patrwm. Awgrymwyd y byddai o gymorth llacio'r gofynion yn y Llyfr Patrwm er mwyn galluogi landlordiaid i ystyried safbwyntiau tenantiaid a'u galluogi i weithio gyda thenantiaid er mwyn adeiladu cartrefi sy'n diwallu anghenion unigol.

# 7 Argymhellion

## Cyflwyniad

7.1 Mae crynodeb a chasgliadau'r ymchwil yn arwain at yr argymhellion canlynol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, landlordiaid sy'n awdurdodau lleol a chymdeithasau tai, sefydliadau tenantiaid a sefydliadau cenedlaethol i'u ystyried, Er mwyn sicrhau bod landlordiaid cymdeithasol a thenantiaid ledled Cymru'n gallu elwa yn y ffordd orau posib ar fanteision cynnwys tenantiaid wrth reoli a dylunio tai.

## Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru

7.2 Dylid newid y term "cyfranogiad tenantiaid" i "cynnwys tenantiaid" er mwyn annog dull creadigol ac arloesol o gynnwys tenantiaid a chydnabod bod ffyrdd ffurfiol ac anffurfiol yn ddilys wrth gynnwys tenantiaid.

7.3 Dylid newid y term "compact cyfranogiad tenantiaid" i "cytundeb cynnwys tenantiaid" er mwyn adlewyrchu cynnwys a statws y ddogfen.

7.4 Canfu'r ymchwil fod y canllawiau presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gymdeithasau tai fod â strategaeth cyfranogiad tenantiaid a chompact cyfranogiad tenantiaid yn drafferthus. Yn ogystal â hynny, dengys yr ymchwil nad yw compactau cyfranogiad tenantiaid yn cael eu defnyddio mor effeithiol ag a ragwelwyd yn wreiddiol. Argymhellir felly y dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru gael gwared ar yr orfodaeth sydd ar landlordiaid cymdeithasol i fod â chompactau cyfranogiad tenantiaid. Dylid ailysgrifennu'r canllawiau presennol ar gyfer compactau er mwyn datblygu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cynnwys Tenantiaid.


Dylai'r Strategaeth lacio'r pwyslais presennol ar lwybrau cyfranogiad traddodiadol sydd yn y gofynion ar gyfer landlordiaid a thenantiaid, a dylai ddilysu amrediad o ffyrdd o gynnwys tenantiaid fel a amlinellir yn yr adroddiad hwn, er mwyn sicrhau y gellir clywed safbwyntiau tenantiaid. Dylai'r Strategaeth bwysleisio pwysigrwydd cael canlyniadau cadarnhaol yn sgîl cynnwys tenantiaid yn ogystal â phrosesau effeithiol. Dylid rhoi canllawiau newydd i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod â strategaeth cynnwys tenantiaid yn seiliedig ar fodel Llywodraeth y Cynulliad Cymru, ynghyd â chytundeb (compact) gwirfoddol ar gyfer cynnwys tenantiaid os mai dyma yw dymuniad tenantiaid a landlordiaid.

Argymhellir fod y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cynnwys Tenantiaid yn:

- nodi safonau isaf penodol ar gyfer cynnwys tenantiaid;
- cydnabod dilysrwydd a rôl sefydliadau tenantiaid cynrychiolaidd;
- cynnwys amrediad o ddulliau dilys ar gyfer cynnwys tenantiaid er mwyn cael safbwyntiau'r holl denantiaid;
- ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ystyried y dulliau hyn gan ymgynghori â thenantiaid wrth ddatblygu'u strategaeth ar gyfer cynnwys tenantiaid;
- nodi gweithdrefnau ar gyfer sicrhau bod tenantiaid yn derbyn gwybodaeth gywir a hygyrch yn unol â'r gofynion 'Hawl i Wybod';

- cynnwys prosesau ar gyfer mesur lefel yr ymatebion gan denantiaid i bob dull gwahanol ar gyfer cynnwys tenantiaid;
- nodi'r ffyrdd y bydd landlordiaid yn cofnodi a defnyddio'r wybodaeth y byddant yn ei derbyn o ganlyniad i weithgareddau cynnwys tenantiaid;
- nodi'r ffyrdd y bydd landlordiaid yn rhoi gwybod i denantiaid sut y mae'u safbwyntiau wedi effeithio ar benderfyniadau landlordiaid;
- nodi faint o adnoddau a hyfforddiant fydd landlordiaid yn eu darparu er mwyn datblygu a rhoi cymorth i'r broses o gynnwys tenantiaid;
- ei gwneud yn bosib datblygu cytundebau cynnwys tenantiaid cyffredinol, lleol ac arbenigol, yn ddibynnol ar ofynion sefydliadau tenantiaid unigol, landlordiaid a'r gymuned tenantiaid ehangach; a
- cynnwys cynllun gweithredu sy'n ymorol am werthusiadau rheolaidd o ganlyniadau a'r broses cynnwys tenantiaid.

Ceir diagram isod, sy'n disgrifio'r dull hwn ar ffurf Olwyn Cymryd Rhan:



7.5 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyngor a chymorth i awdurdodau lleol sy’n ymgynghori â’u tenantiaid ynghylch dewisiadau stoc er mwyn sicrhau bod yr holl denantiaid yn derbyn gwybodaeth gywir, ddigonol a hygyrch yn unol â’r ‘Hawl i Wybod’, am:

- Safon Ansawdd Tai Cymru;
- ei heffaith ar landlordiaid;
- y dewisiadau sydd ar gael i’w landlord penodol hwy;
- y dewisiadau y gallant eu cefnogi; a
- canlyniadau cefnogi pob un o’r dewisiadau.

7.6 Dylid newid rheoliadau a chanllawiau cysylltiedig Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord cymdeithasol roi cymorth i sefydliadau tenantiaid a helpu i sicrhau bod grwpiau o’r fath yn annibynnol ac yn cael eu harwain gan denantiaid, trwy roi gwybodaeth iddynt i’w galluogi i gael mynediad at wasanaethau, megis y rhai a ddarperir gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (WTF), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), a Cymorth.

7.7 Dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru roi gwybodaeth i sefydliadau tenantiaid a landlordiaid am ffynonellau priodol ar gyfer cael nawdd annibynnol i roi cymorth i, a datblygu’r broses o gynnwys tenantiaid mewn materion yn ymwneud â thai, y gymuned a’r amgylchedd. Dylai hyn gynnwys newidiadau i reoliadau a chanllawiau presennol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid cymdeithasol ddarparu gwybodaeth ar gyfer sefydliadau tenantiaid am ffynonellau posib ar gyfer cael nawdd i’r broses cynnwys tenantiaid, a rhoi cymorth i sefydliadau tenantiaid baratoi ceisiadau am nawdd o ffynonellau annibynnol megis Grantiau Grymuso Tenantiaid, Grant Rheoli Tai Cymdeithasol, Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau’n Gyntaf, Y Loteri Genedlaethol, Plant Mewn Angen, Comic Relief, a.y.b.

7.8 Dylai fframwaith archwilio ac arolygu Llywodraeth y Cynulliad Cymru ar gyfer landlordiaid cymdeithasol gynnwys profi strategaethau a chanlyniadau cynnwys tenantiaid. Wrth eu profi, dylid canolbwyntio ar adnabod canlyniadau cynnwys tenantiaid yn ogystal â’r broses. Argymhellir cynnal asesiadau o’r canlynol:

- Pa mor gywir, digonol a hygyrch yw’r wybodaeth a ddarperir ar gyfer tenantiaid;
- Y gwahanol ddulliau sydd gan y sefydliad er mwyn casglu safbwyntiau tenantiaid am ei wasanaeth;
- Y rhannau o wasanaethau’r sefydliad yr effeithiwyd neu y dylanwadwyd arnynt gan safbwyntiau tenantiaid;
- Sut yr hysbysir tenantiaid ynghylch newidiadau a wnaed o ganlyniad i safbwyntiau tenantiaid; a
- Safbwyntiau tenantiaid am y ffyrdd y maent wedi cael eu cynnwys a’r effaith a gafodd hyn.

7.9 Dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru adolygu’r Llyfr Patrwm ar gyfer cymdeithasau tai gan ymgynghori â landlordiaid ac â thenantiaid sydd yn neu sydd wedi byw mewn cartrefi Llyfr Patrwm. Argymhellir y dylid adolygu’r gofynion yn y

Llyfr Patrwm er mwyn eu gwneud yn llai cyfarwyddol a chyfyngol, gan alluogi landlordiaid i gynnwys tenantiaid yn effeithiol yn y broses o ddylunio'u cartrefi ac ystyried anghenion tenantiaid unigol.

7.10 Dylai Llywodraeth y Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth dosbarthu gwybodaeth a darparu cymorth a hyfforddiant ar gyfer sefydliadau tenantiaid a landlordiaid sy'n cynnwys cadw'r canlynol:

- cronfa ddata sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am arferion gorau wrth gynnwys tenantiaid ac sydd ar gael i denantiaid a landlordiaid;
- cronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddiant a chymorth i denantiaid a landlordiaid sydd am datblygu proses effeithiol ar gyfer cynnwys tenantiaid; a
- cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am ffynonellau nawdd posib ar gyfer cynnwys tenantiaid a hyfforddiant i denantiaid.

### Argymhellion ar gyfer sefydliadau tenantiaid

7.11 Dylai sefydliadau tenantiaid archwilio ffyrdd o ymestyn y broses cynnwys tenantiaid ac annog amrediad o aelodau i gymryd rhan, gan sicrhau eu bod yn rhannu llwyddiannau, ac yn gwneud defnydd da o enghreifftiau o arferion da gan grwpiau eraill. Gellid gwneud hyn trwy:

- ymweliadau astudio â sefydliadau eraill;
- gwneud defnydd cyson o'r gronfa ddata arferion da arfaethedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; ac
- archwilio mentrau newydd gyda chymorth ffynonellau nawdd allanol megis y Grant Grymuso Tenantiaid a'r cynllun Grant Rheoli Tai Cymdeithasol.

7.12 Dylai sefydliadau tenantiaid geisio eglurhad o'r canlynol gan eu landlordiaid:

- y gweithgareddau hyfforddiant a'r cynadleddau y mae disgwyl i sefydliadau tenantiaid eu hariannu gyda'u cyllidebau;
- a yw sefydliadau tenantiaid yn gallu defnyddio nawdd o gyllidebau eraill y landlord ar gyfer hyfforddiant a chynadleddau; ac
- a yw cyllideb y sefydliad tenantiaid yn ddigonol er mwyn diwallu anghenion aelodau o safbwynt hyfforddiant.

7.13 Dylai sefydliadau tenantiaid gydnabod ei bod yn dderbyniol i nifer y gweithgareddau a'r aelodau sydd gan eu sefydliadau gynyddu a gostwng yn ôl anghenion ac amgylchiadau presennol, a chynnwys darpariaeth ar gyfer cyfnodau o seibiant a mecanweithiau adolygu yn eu cyfansoddiadau er mwyn cymryd hyn i ystyriaeth.

### Argymhellion ar gyfer landlordiaid cymdeithasol

7.14 Dylai landlordiaid cymdeithasol ddatblygu strategaethau cynnwys tenantiaid yn unol â Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad Cymru ar gyfer Cynnwys Tenantiaid, (gweler argymhelliad 7.4), ac archwilio ffyrdd o annog yr holl denantiaid i gymryd rhan ac ymestyn y rhan a gymerir ganddynt trwy ddefnyddio'r prosesau a ddisgrifir ar gyfer sefydliadau tenantiaid yn argymhelliad 7.11.

7.15 Dylai landlordiaid cymdeithasol gadw cronfa ddata sy'n cael ei diweddaru'n gyson ac yn cynnwys manylion cyswllt yr holl denantiaid er mwyn eu galluogi i gyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid a chasglu'u safbwyntiau. Dylai'r rhain gynnwys, pan fo hynny'n briodol, rhifau ffôn cartref a symudol a chyfeiriadau e-bost. Awgrymir y dylai landlordiaid gyfuno'r manylion cyswllt ar gyfer tenantiaid a gedwir gan wahanol adrannau o fewn y sefydliad, er mwyn sicrhau bod gan bawb wybodaeth gynhwysfawr.

7.16 Dylai landlordiaid gynnal arolygon o'u tenantiaid er mwyn canfod faint o denantiaid sydd â mynediad at y rhyngrwyd, sicrhau bod hyfforddiant technoleg gwybodaeth ar gael i denantiaid, ac archwilio ffyrdd o ddatblygu trefniadau'r sefydliad ar gyfer cyfathrebu â thenantiaid gan ddefnyddio'r dulliau hyn.

7.17 Dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau bod eu gweithgareddau cynnwys tenantiaid yn dod yn rhan ganolog o weithgarwch pob adran o fewn y sefydliad, a bod yr holl wybodaeth a ddarperir ar gyfer tenantiaid yn eglur, yn gywir ac yn hygyrch ac amserol, er mwyn eu galluogi i ffurfio safbwyntiau deallus am faterion a chymryd rhan yn effeithiol.

7.18 Dylai landlordiaid cymdeithasol sicrhau eu bod yn datblygu systemau er mwyn mynd ati'n effeithiol i roi adborth i denantiaid ar ganlyniadau eu cyfraniadau, rhoi gwybod iddynt sut y cafodd safbwyntiau tenantiaid eu hystyried a pha gamau a gymerwyd o ganlyniad i'w cyfraniadau.

7.19 Dylai landlordiaid cymdeithasol roi cymorth i sefydliadau tenantiaid cynrychioladol a helpu i sicrhau bod grwpiau o'r fath yn annibynnol ac yn cael eu harwain gan denantiaid, trwy roi gwybodaeth ac adnoddau iddynt i'w galluogi i gael mynediad at wasanaethau, megis y rhai a ddarperir gan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru, Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (WTF), Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru (WFHA), Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), a Cymorth.

7.20 Dylai landlordiaid cymdeithasol egluro'r canlynol i sefydliadau tenantiaid:

- pa weithgareddau hyfforddiant a chynadleddau y mae disgwyl i sefydliadau tenantiaid eu hariannu gyda'u cyllidebau;
- a yw sefydliadau tenantiaid yn gallu defnyddio nawdd o gyllidebau eraill y landlord ar gyfer hyfforddiant a chynadleddau; a
- a yw cyllideb y sefydliad tenantiaid yn ddigonol er mwyn diwallu anghenion aelodau o safbwynt hyfforddiant.

7.21 Dylai landlordiaid cymdeithasol ddatblygu strategaethau sy'n cydnabod ac yn ymateb i'r ffaith y bydd cynnwys tenantiaid yn aml yn golygu eu bod yn chwarae rhan mewn materion yn ymwneud â datblygu cymunedol, a sicrhau eu bod yn gallu ymateb yn gadarnhaol pan gaiff materion o'r fath eu codi gan denantiaid, er enghraifft trwy wneud y canlynol:

- datblygu rhwydweithiau effeithiol gyda sefydliadau perthnasol er mwyn meithrin dull amlasiantaethol;
- darparu gwybodaeth ar gyfer sefydliadau tenantiaid am gyfleoedd nawdd, a'u cyfeirio at sefydliadau perthnasol; a

- rhoi cymorth i sefydliadau tenantiaid baratoi ceisiadau am nawdd gan fentrau cymunedol.

7.22 Dylai landlordiaid cymdeithasol archwilio ffyrdd o annog tenantiaid i chwarae mwy o ran a bod yn fwy annibynnol ar lefelau lleol trwy wneud y canlynol:

- rhoi pwerau i swyddogion tai wneud mwy o benderfyniadau ac ymateb yn y fan a'r lle i geisiadau gan denantiaid; a

- darparu cyllidebau ar gyfer gwelliannau yn yr ardal y gellir eu gwario ar flaenoriaethau a adnabuwyd gan y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

### Argymhellion ar gyfer sefydliadau cenedlaethol

7.23 Dylai'r ddau sefydliad sy'n rhoi cymorth i denantiaid, WTF a TPAS Cymru gydnabod bod yn well gan y mwyafrif o denantiaid leisio barn mewn ffyrdd ar wahân i strwythurau ffurfiol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid. Dylai'r sefydliadau ystyried hyn wrth wneud y canlynol:

- cynllunio'u strategaethau yn y dyfodol; a

- datblygu'u gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried dewisiadau'r mwyafrif o denantiaid ar gyfer cymryd rhan.

7.24 Dylai sefydliadau cenedlaethol ddosbarthu gwybodaeth am arferion da wrth gynnwys tenantiaid yn effeithiol, trwy'u gwefannau, trwy ddarparu gwybodaeth i aelodau a thrwy gyfrannu'n rheolaidd at y gronfa ddata gan Lywodraeth y Cynulliad Cymru y cyfeiriwyd ati yn argymhelliad 7.10.

7.25 Dylai'r ddau sefydliad cenedlaethol sy'n rhoi cymorth i denantiaid, WTF a TPAS Cymru, gydweithio er mwyn cael a chadw manylion cyswllt cynhwysfawr, cywir ac wedi'u diweddaru ar gyfer pob sefydliad tenantiaid yng Nghymru. Dylai'r broses gynnwys:

- mynd ati ar y cyd i gynnal archwiliad o'r wybodaeth a gedwir gan y ddau sefydliad am sefydliadau tenantiaid yn eu cronfeydd data; a

- rhoi gwybod i bob sefydliad tenantiaid sy'n cyfrannu gwybodaeth i'r ddwy gronfa ddata y bydd eu manylion yn cael eu rhannu gan y ddau sefydliad oni bai eu bod yn gwrthwynebu.

7.26 Dylai'r sefydliadau cenedlaethol sy'n rhoi cymorth i denantiaid a chymdeithasau tai, WFHA a TPAS Cymru, sicrhau eu bod yn rhoi cymorth digonol ac effeithiol i denantiaid sy'n aelodau presennol o'u Byrddau ac i denantiaid a allai fod yn aelodau o'u Byrddau yn y dyfodol pan fo sefydliadau trosglwyddo stoc newydd yn cael eu sefydlu. Dylai'r cymorth hwn gynnwys archwiliad blynyddol o anghenion aelodau o'r Byrddau o safbwynt hyfforddiant.

# Atodiad 1

## RHESTR O'R RHAI A GYMERODD RAN YN YR YMCHWIL

Cymerodd cyfanswm o 130 o sefydliadau ran yn yr ymchwil gan gyfrannu gwybodaeth a safbwyntiau. Ceir dadansoddiad manwl o'r sefydliadau isod:

### 1 Holiaduron a gwblhawyd (108)

**Cymdeithasau Tai (20)**

Aelwyd

Bro Myrddin

Cadwyn

Canolbarth Cymru

Cantref

Clwyd Alyn

Clwyd

Cynon Taf

Dewi Sant

First Choice

Gwalia

Gwerin

Hafod

Morgannwg a Gwent

Rhondda

Sir Benfro

Teulu

United Welsh

Valleys to Coast

Wales and West

**Awdurdodau Lleol (14)**

Abertawe

Bro Morgannwg

Caerffili

Castell-nedd a Phort Talbot

Conwy

Pen-y-bont ar Ogwr

Powys

Sir Benfro

Sir Ddinbych

Sir Fynwy

Sir Gaerfyrddin

Sir y Fflint

Rhondda Cynon Taf

Wrecsam

**Darparwyr Cymorth (2)**

Innovate Trust

Tai Sylfaen

**Sefydliadau Tenantiaid a Thrigolion (72)**

Bwrdd Partneriaeth Powys a'r Cylch

Bwrdd Tenantiaid a Thrigolion Maerdy/Ferndale

CT Cwrt Hafren

Bwrdd Trigolion Harbour View a Royal Clase

Cymdeithas Cwrt Selwyn Morris

Cymdeithas Gymunedol Graig

Cymdeithas Gymunedol Marsh

Cymdeithas Gymunedol West Mill

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Aberystwyth a Gogledd Ceredigion

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Ardal y Felin Wyllt

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Bilton Park

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Bryntirion

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Coedcae

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Cwm Celyn

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Eastside

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Fir Tree Drive

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Garden City

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Garth Owen, Maes y Rhandir a Maes y Dail

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Gilfach Fargoed

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Hill Top (Yr Ochr Ddeheuol)

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Isgraig

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Llaneirwg Morgannwg a Gwent (2)

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Maes y Deri

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Melin Ifan Ddu a Glynogwr

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Pentref Treowen

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Rassau Garnwydden

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Top Gwaun Helyg

Cymdeithas Tenantiaid a Thrigolion Thornhill

Cymdeithas Tenantiaid Bronhaul

Cymdeithas Tenantiaid Bruton Park

Cymdeithas Tenantiaid Elis Fisher

Cymdeithas Tenantiaid Ffordd Seign

Cymdeithas Tenantiaid Hafod Y Barri

Cymdeithas Tenantiaid Llaneirwg

Cymdeithas Tenantiaid Maes y Barics

Cymdeithas Tenantiaid Mornington Meadow

Cymdeithas Tenantiaid Old Hereford

Cymdeithas Tenantiaid Tai Teulu

Cymdeithas Tenantiaid Tan y Lan

Cymdeithas Tenantiaid yr Hen Gurnos

Cymdeithas Trigolion a Phwyllgor Ymgynghorol Tenantiaid Twmbarlwm View

Cymdeithas Trigolion Cefn Llan Rhyd-y-fro

Cymdeithas Trigolion Colcot

Cymdeithas Trigolion Croesern

Cymdeithas Trigolion Hanover Court

Cymdeithas Trigolion Llys Ednyfed

Cymdeithas Trigolion Petit Goffa

Cymdeithas Trigolion Sealand Manor

Cymdeithas Trigolion Shakespeare

Cymdeithas Trigolion Sir Pen-y-bont

Cymdeithas Trigolion Southville a Tower Cwmbrân

Ffederasiwn Tai Vale

Ffederasiwn Tenantiaid Pen-y-bont

Fforwm Cyfranogiad Trigolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd a Phort Talbot

Fforwm Tenantiaid a Thrigolion Newton a'r Cylch

Fforwm Ymgynghorol Tenantiaid Cynon Taf

Grŵp Cymunedol Golden Hill (2)

Grŵp Trigolion Darren Las a Bryn Tawel

INTACT

Panel Tenantiaid Cadwyn

Panel Tenantiaid Eastern Valley

Panel Tenantiaid Penplas

Panel Trigolion Cymdeithas Tai (De) Cymru a Gorllewin Lloegr (Wales and West)

Pwyllgor Trigolion Cwrt WM Hughes

Tenantiaid a Thrigolion Moriah Rhymni

Tenantiaid a Thrigolion Y Pant

The Hill

TPAS Gwynedd

TRAC

Trem yr Wyddfa

Trigolion Llansawel

Trigolion Ystad Thompson Street

## 2 Cyfweliadau dros y ffôn

(33 o gyfweliadau â sampl o aelodau o fyrddau sy'n denantiaid, uwch reolwyr, staff rheng flaen a chynrychiolwyr sefydliadau tenantiaid a thrigolion)

### Cymdeithasau tai

Clwyd

Eastern Valley

Gwerin

Hafod

Morgannwg a Gwent

Sir Benfro

Rhondda

Taf

### Awdurdodau lleol

Blaenau Gwent

Bro Morgannwg

Caerdydd

Merthyr Tudful

Powys

Sir Fynwy

Torfaen

Wrecsam

### Darparwyr cymorth

Caer Las

Consortiwm Tai Gorllewin Morgannwg

First Choice

Hafan

Llamau

Trothwy

## 3 Grwpiau ffocws – Sefydliadau a oedd yn rhan o astudiaeth achos

Cyngor Bwrdeistref Sirol Gwynedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cymdeithas Tai Abertawe *

Cymdeithas Tai Cadwyn

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru

Cymdeithas Tai Charter

Dinas a Sir Abertawe*

* grwpiau ffocws ar y cyd

## 4 Cyfweliadau â sefydliadau cenedlaethol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)

Cymorth

Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru (WFHA)

Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (WTF)

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru

Rhwydwaith swyddogion cyfranogiad tenantiaid TPAS Cymru

Rhwydwaith aelodau o fyrddau sy'n denantiaid TPAS Cymru

## 5 Cyflwyniadau a thrafodaethau mewn cynadleddau

Cynhadledd flynyddol WTF/TPAS Cymru 2003

Cynhadledd flynyddol Y Sefydliad Tai Siartredig Cymru 2004

# Atodiad 2

## DISGRIFIAD MANWL O'R FETHODOLEG

### 1 Gwerthusiad o astudiaethau a chanllawiau arferion da eraill

Roedd tri cham i'r rhan hon o'r prosiect.

- Roedd y cam cyntaf yn cynnwys adolygiad o astudiaethau diweddar yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i werthuso gwahanol elfennau o gyfranogiad tenantiaid. Lluniwyd crynodeb o'r prif ganfyddiadau ac argymhellion ymhob astudiaeth. Arweiniodd hyn at ddadansoddiad o themâu y daeth yn amlwg eu bod yn gyffredin rhwng yr astudiaethau.

- Roedd yr ail gam yn cynnwys adolygiad o ganllawiau arferion da presennol ym maes cyfranogiad tenantiaid o'r astudiaethau a adolygwyd fel rhan o'r cam cyntaf ac o ffynonellau eraill megis Dogfen Gyfarwyddyd y Sefydliad Tai Siartredig ar Arferion Gorau Innovation in Resident Involvement. Lluniwyd crynodeb o ganllawiau arferion da penodol dan y themâu cyffredin a adnabuwyd mewn astudiaethau presennol.

- Roedd y trydydd cam yn ymwneud ag adnabod enghreifftiau o arferion da ac arloesi o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys yr astudiaethau a adolygwyd fel rhan o'r cam cyntaf a ffynonellau arferion da dilys megis Uned Arferion Da'r Sefydliad Tai Siartredig, HouseMark ac arferion cadarnhaol a adnabuwyd mewn adroddiadau ar archwiliadau gan y Comisiwn Archwilio

### 2 Yr arolwg ar ffurf holiadur

Pwrpas yr arolwg oedd canfod sut y caiff tenantiaid eu cynnwys yn y broses o reoli a dylunio tai ledled Cymru. Dosbarthwyd yr holiadur i'r canlynol:

- pob un o'r 22 awdurdod lleol;

- y 29 prif gymdeithas dai;

- amrediad o sefydliadau tai â chymorth / partneriaid rheoli; a

- 333 o grwpiau tenantiaid a thrigolion.

Yr arolwg oedd y cam cyntaf yn y broses o gasglu gwybodaeth a safbwyntiau gan sefydliadau ac unigolion sy'n gysylltiedig â TP ledled Cymru.

Rhoddwyd sicrwydd i'r holl ymatebwyr y byddai'r holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol gan CIH Cymru a Rowan Associates ac na fyddid yn datgelu ymatebion unigol i sefydliadau eraill heb ganiatâd y sefydliad dan sylw.

Derbyniwyd ymatebion gan:

| Landlord | Nifer | % | nifer y tai | cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdodau lleol | 14 | 64% | 107,084 | 7649 |
| Cymdeithasau tai | 20 | 69% | 50,121 | 2506 |
| **Cyfanswm** | **36** | **67%** | **157,355** | |

Derbyniwyd 78 o ymatebion gan Gymdeithasau Tenantiaid a Thrigolion, sef 23% o'r rheiny y ceisiodd yr ymchwilwyr gysylltu â hwy.

Derbyniwyd 5 o ymatebion gan ddarparwyr cymorth.

## 3 Gwerthusiad o Gompactau Cyfranogiad Tenantiaid

Gofynnwyd i bob awdurdod lleol a chymdeithas dai yng Nghymru ddarparu copi o gompact cyfranogiad tenantiaid eu sefydliad er mwyn ei werthuso fel rhan o'r ymchwil. Derbyniwyd cyfanswm o 39 compact cyfranogiad tenantiaid. O'r rhain, derbyniwyd 14 o gompactau oddi wrth landlordiaid awdurdodau lleol a derbyniwyd 25 oddi wrth gymdeithasau tai, a oedd yn golygu bod y gyfradd ymateb ar y cyfan yn 64% .

## 4 Cyfweliadau dros y ffôn

Cynhaliwyd cyfanswm o 33 o gyfweliadau dros y ffôn. Amcan y cyfweliadau dros y ffôn oedd ymchwilio ymhellach i faterion a nodwyd yn yr arolwg ar ffurf holiadur, er mwyn cael darlun mwy manwl o gyfranogiad tenantiaid ymhlith amrediad o sefydliadau a budd-ddeiliaid.

Isod ceir dadansoddiad o'r rheiny y cyfwelwyd â hwy

| Cyfranogion | Nifer |
|---|---|
| Staff ALl | 7 |
| Cadeiryddion ALl | 1 |
| Staff RSL | 8 |
| Cadeiryddion RSL | 1 |
| Tenantiaid sy'n aelodau o fyrddau | 4 |
| Sefydliadau Tai â chymorth | 6 |
| Cynrychiolwyr tenantiaid | 6 |

## 5 Grwpiau ffocws astudiaeth achos

Cynhaliwyd 28 grŵp ffocws, gan gasglu safbwyntiau cyfanswm o 72 aelod o staff a 98 o denantiaid.

Y sefydliadau astudiaeth achos oedd:

| **Awdurdodau lleol** | **Cymdeithasau tai** |
|---|---|
| Abertawe | Abertawe |
| Gwynedd | Cadwyn |
| Rhondda Cynon Taf | Canolbarth Cymru |
| | Charter |

Cynhaliwyd 4 grŵp ffocws o fewn pob sefydliad astudiaeth achos. Roedd pob grŵp ffocws yn cynnwys gwahanol fudd-ddeiliaid fel a ganlyn:

Grŵp 1 uwch reolwyr a rhai tenantiaid sy'n aelodau o'r bwrdd

Grŵp 2 staff rheng flaen

Grŵp 3 tenantiaid sy'n gysylltiedig â strwythurau cyfranogiad tenantiaid ffurfiol a rhai tenantiaid sy'n aelodau o'r bwrdd (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel "tenantiaid cysylltiedig")

Grŵp 4 tenantiaid nad ydynt yn gysylltiedig â strwythurau cyfranogiad tenantiaid ffurfiol (y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn fel "tenantiaid anghysylltiedig")

Roedd y grŵp hwn yn cynnwys:

- pobl ag anableddau dysgu;
- tenantiaid tai â chymorth;
- rhai sydd ag anableddau corfforol;
- pobl ifanc;
- tenantiaid BME; a

- pobl sy'n byw mewn tai â chymorth gan gynnwys cyn-droseddwyr, y rheiny â phroblemau iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol.

Isod ceir dadansoddiad o'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws:

| | Grŵp 1 | Grŵp 2 | Grŵp 3 | Grŵp 4 |
|---|---|---|---|---|
| Cymdeithasau Tai | 10 | 30 | 29 | 21 |
| Awdurdodau Lleol | 13 | 19 | 24 | 24 |
| Cyfanswm | 23 | 49 | 53 | 45 |

Fel crynodeb, gellir dosbarthu'r budd-ddeiliaid a gyfrannodd at yr ymchwil fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Holiaduron | |
| sefydliadau tenantiaid | 72 |
| landlordiaid cymdeithasol | 34 |
| darparwyr cymorth | 5 |
| | |
| Cyfweliadau dros y ffôn | |
| sefydliadau tenantiaid a thenantiaid sy'n aelodau o fyrddau | 10 |
| landlordiaid cymdeithasol | 17 |
| darparwyr cymorth | 6 |
| | |
| Grwpiau ffocws | |
| tenantiaid landlordiaid cymdeithasol | 98 |
| staff landlordiaid cymdeithasol | 72 |

# Atodiad 3

## LLYFRYDDIAETH YN NODI ASTUDIAETHAU A CHANLLAWIAU ARFERION DA ERAILL

Y Comisiwn Archwilio (2002) **Connecting with Users and Citizens** Llundain: Y Comisiwn Archwilio

Y Comisiwn Archwilio/HouseMark (2003) **CD Rom of Housing Inspectorate Positive Practice September 2000 to September 2003** Coventry: HouseMark

Y Sefydliad Tai Siartredig (2004) **Good Practice Briefing Innovation in Resident Involvement** Coventry: CIH

Communities Scotland (2004) **A Good Practice Framework for Tenant Participation in Scotland** Caeredin: Communities Scotland

Communities Scotland (2003) **Analysis of the Baseline Study of Tenant Participation** Caeredin: Communities Scotland

Communities Scotland (2003) **Methodologies for Obtaining Customers' Views of Service Quality** Caeredin: Communities Scotland

Tasglu Tai Cymunedol (diddyddiad) **Communication and Consultation Strategies in Options Appraisal** Llundain: CHTF

Tasglu Tai Cymunedol (diddyddiad) **Tenant Empowerment Strategies in Options Appraisal** Llundain: CHTF

Y Gorfforaeth Dai (2002) **Customer Involvement: Opportunities for Learning from the Private Sector?** Llundain: Y Gorfforaeth Dai

Y Gorfforaeth Dai (2001) **The Involvement Business: The Business Imperative for Involving Consumers in the Work of Registered Social Landlords** Llundain: Y Gorfforaeth Dai

Y Gorfforaeth Dai (2000) **Study of Tenant Participation in Registered Social Landlords** Llundain: Y Gorfforaeth Dai

**ODPM (2003)** Interim Evaluation of Tenant Participation Compacts Llundain: ODPM

ODPM (2004) **Empowering Communities, Improving Housing: Involving Black and Minority Tenants and Communities** Llundain: ODPM

ODPM (2003) **Interim Evaluation of the Innovation into Action Programme** Llundain: ODPM

ODPM (2002) **Tenants Managing: An Evaluation of Tenant Management Organisations in England** Llundain: ODPM

Gweithrediaeth yr Alban (2001) **Housing (Scotland) Act 2001:** Guidance on Tenant Participation Caeredin: Gweithrediaeth yr Alban

Cyngor Defnyddwyr yr Alban (2003) **Open house? A study of tenant organisations in Scotland** Glasgow: SCC

Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru/Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (1998) **Count Us In! A Report on Tenant Participation in Wales** Caerdydd: TPAS Cymru/WTF

Tai Cymru (1998) **Tenant Participation Topic Audit** Caerdydd: Tai Cymru

Tai Cymru (1997) **Gofynion Rheoleiddio ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol yng Nghymru** Caerdydd. Tai Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001) **Adolygiad o Gyfranogiad Tenantiaid: Nodyn ar Arferion Da**

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru** Caerdydd. Llywodraeth Cynulliad Cymru

# Atodiad 4

## SAFONAU CRAIDD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR GYFER COMPACTAU CYFRANOGIAD TENANTIAID

### Gwasanaethau Tai

Mae a wnelo'r elfen gyntaf o'r safonau craidd â'r meysydd o fewn gwasanaethau tai y dylai compactau cyfranogiad tenantiaid ymwneud â hwy. Mae'r fframwaith yn nodi y dylai compactau cyfranogiad tenantiaid ymwneud â'r gwasanaethau tai canlynol:

- Datblygu polisi a strategaeth tai'r awdurdod lleol, gan gynnwys adolygu dewisiadau ar gyfer buddsoddi;
- Llunio rhaglenni gwariant yr awdurdod;
- Datblygu a sefydlu rhaglenni adfywio a gwella;
- Cyllidebau, cyllid a rhenti;
- Polisïau ar gyfer pennu rhenti a thaliadau am wasanaeth;
- Polisïau ar gyfer dyrannu a gosod cartrefi;
- Rheoli gwasanaethau tai;
- Amodau a chytundebau tenantiaeth;
- Materion sy'n ymwneud â lesddalwyr a thaliadau lesddalwyr;
- Polisïau ymddygiad gwrthgymdeithasol;
- Strategaethau ar gyfer gwasanaethau a pherfformiad a threfniadau ar gyfer monitro ac adolygu perfformiad yr awdurdod ac ymdrin ag unrhyw broblemau;
- Gosod, monitro, adolygu safonau perfformiad yng nghyswllt y gwasanaethau a thargedau ar gyfer rheoli gwasanaethau tai a gwasanaethau ar gyfer y gymdogaeth ac ymdrin â phroblemau;
- Materion yn ymwneud â'r gymdogaeth sy'n effeithio ar gartrefi tenantiaid neu reoli'r gwasanaeth tai;
- Gwaith amgylcheddol;
- Gofal am gwsmeriaid;
- Trefniadau ar gyfer cael safbwyntiau tenantiaid am ansawdd a hyd a lled y gwasanaethau a ddarperir gan y landlord;
- Trefniadau i ddarparu gwybodaeth er mwyn ymgynghori â thenantiaid ac er mwyn i denantiaid allu cymryd rhan, gan gynnwys ymdrin â chwynion ac unrhyw broblemau.

### Adnoddau

Mae'r canllawiau'n nodi chwe chydran o fewn yr elfen sy'n ymwneud â darparu adnoddau ar gyfer tenantiaid er mwyn eu galluogi i sefydlu strwythurau newydd a chynnal strwythurau presennol ar gyfer cyfranogi. Caiff y chwe chydran eu disgrifio yn y fframwaith, sy'n nodi y dylai cymorth gynnwys:

- cymorth ariannol rhesymol, er enghraifft grantiau cychwyn, grantiau blynyddol, benthyciadau a chyllidebau ar gyfer ystadau;

- cyfleusterau, er enghraifft, mynediad at adeiladau ac offer, deunydd ysgrifennu, llungopïo a chymorth i ddosbarthu cylchlythyrau;
- cyngor, cymorth gyda datblygu cymunedol, a chymorth i rwydweithiau tenantiaid lleol;
- hyfforddiant sy'n diwallu anghenion cynrychiolwyr tenantiaid neu grwpiau cynrychiolwyr tenantiaid, gan gynnwys hyfforddiant ar y cyd â staff ac aelodau awdurdodau lleol, os yw hynny'n briodol;
- cyflwyno dulliau newydd er mwyn annog tenantiaid i gymryd mwy o ran a pharhau i gymryd rhan; a
- darparu gwybodaeth o ran faint o adnoddau sydd ar gael, y swyddogion arweiniol sy'n gyfrifol am gyflawni amcanion penodol o fewn ei strategaeth, a'r adnoddau sydd ar gael yn benodol er mwyn rhoi cymorth i hyfforddiant ymhlith tenantiaid a grwpiau tenantiaid.

## Cyfarfodydd

Mae'r canllawiau'n nodi pum cydran er mwyn sicrhau bod cyfarfodydd rhwng landlordiaid a thenantiaid yn cael eu cynnal mewn modd effeithiol. Mae'r fframwaith yn nodi y dylai'r landlord wneud y canlynol:

- mynd ati mewn ffordd effeithiol i hyrwyddo cyfarfodydd gan roi digon o rybudd. Gallai hyn gynnwys, yn ôl yr hyn sy'n briodol, gwahoddiadau personol i holl ddefnyddwyr y gwasanaethau, hysbysebion mewn papurau newydd lleol a mannau cyhoeddus, a gwybodaeth yn ieithoedd y cymunedau;
- darparu lwfansau, cludiant neu gymorth technegol ar gyfer pobl ac arnynt angen cymorth arbennig, er enghraifft lwfansau gofal plant i alluogi pobl sydd â phlant i fynychu cyfarfodydd perthnasol neu drefnu cael cyfieithwyr, cyfieithwyr iaith arwyddion a dolenni anwytho pan fo hynny'n briodol ac yn ymarferol;
- cynnal cyfarfodydd ar adegau addas ac mewn mannau addas;
- sicrhau y caiff cyfarfodydd eu cynnal mewn ffordd deg a democrataidd, fel bod cyfle i bawb leisio barn a chael gwybodaeth; a
- sicrhau bod gwybodaeth am ganlyniadau cyfarfodydd ac adborth arall yn cael eu darparu ar gyfer pawb a fynychodd a thenantiaid yr effeithir arnynt.

## Gwybodaeth

Mae'r canllawiau'n disgrifio deuddeg cydran ar gyfer sicrhau y caiff gwybodaeth ei darparu'n effeithiol ar gyfer tenantiaid. Mae'r fframwaith yn nodi y dylai gwybodaeth fod:

- wedi'i chyfleu'n eglur, gan ddefnyddio iaith blaen ac osgoi jargon;
- yn hygyrch (gan ddefnyddio print bras, Braille, casetiau, cyfieithiadau a.y.b.);
- yn rhydd rhag iaith hiliol, rhywiaethol neu iaith wyrdueddol arall; a
- o ansawdd dda, yn amserol ac yn briodol i anghenion tenantiaid.

Dylai tenantiaid dderbyn gwybodaeth am:

- strategaethau, polisïau a blaenoriaethau ym maes tai;
- dewisiadau a chynlluniau ar gyfer buddsoddi ym maes tai;
- trefniadau ar gyfer datblygu a sefydlu gwerth gorau, gan gynnwys monitro ac adolygu perfformiad, a gosod safonau a thargedau ar gyfer y gwasanaeth;
- rheoli tai a gwasanaethau lleol eraill sy'n berthnasol;
- adroddiadau ar berfformiad yr awdurdod lleol wrth fynd ar drywydd y targedau a bennwyd ar gyfer rheoli tai;
- cynlluniau ar gyfer gwariant a gwaith yn y dyfodol a fydd yn effeithio ar denantiaid, eu cartrefi a'u hardal;
- cyfleoedd a chymorth i denantiaid gymryd rhan, cael dylanwad a rheoli; a
- materion eraill y mae tenantiaid yn eu hystyried yn berthnasol.

### Cynnwys tenantiaid

Mae'r fframwaith yn nodi y dylai strwythurau llwyddiannus ar gyfer cynnwys tenantiaid sicrhau:

- bod tenantiaid yn cael dewis sut yr ymgynghorir â hwy a sut y'u hysbysir ynghylch yr effaith y mae eu safbwyntiau wedi'u cael ar ddarparu a thargedau'r gwasanaethau tai;
- y caiff mwyafrif y tenantiaid a thrigolion eu cynrychioli gan sefydliadau tenantiaid cydnabyddedig a gweithredol, ac y caiff yr holl denantiaid eu cynrychioli mewn ffyrdd eraill;
- bod ffederasiwn tenantiaid neu sefydliad tebyg yn bodoli os yw hynny'n briodol; a
- bod dulliau anffurfiol eraill yn bodoli, megis paneli neu grwpiau ffocws ar gyfer tenantiaid, ac y caiff cyllidebau'u rheoli gan denantiaid pan fo hyn yn briodol.

### Sefydliadau tenantiaid, rhestr o ddewisiadau

Mae'r fframwaith yn nodi, os ydynt yn cymryd rhan mewn strwythurau ffurfiol sydd â swyddogaeth yn y broses o wneud penderfyniadau, y dylai tenantiaid ddangos bod y strwythurau hyn yn ddemocrataidd ac yn cynnwys:

- cyfansoddiad enghreifftiol;
- polisïau cyfle cyfartal y maent yn ymlynu wrthynt;
- etholiadau rheolaidd, ac isafswm aelodau;
- cofnodion ariannol agored;
- cyfarfodydd rheolaidd a CCB y cedwir cofnodion ar eu cyfer gydag isafswm o aelodau'n bresennol;
- isafswm neu ganran benodedig o denantiaid ymhlith yr aelodau;
- aelodaeth agored;
- trefniadau ar gyfer cyfleu cwynion ac unioni'r sefyllfa; a
- gweithredu trefniadau ar gyfer adolygiad blynyddol, gyda mynediad at gymorth annibynnol er mwyn cyflawni hyn.

## Monitro a mesur perfformiad

Mae'r fframwaith yn nodi fel a ganlyn:

Wrth fonitro compactau TP, dylai'r awdurdod lleol a thenantiaid:

- asesu manteision a chanlyniadau'r compactau TP gan eu cymharu â'u disgwyliadau cychwynnol;
- pennu safonau a thargedau eglur ar gyfer ymgynghori â, a chynnwys tenantiaid;
- monitro a gwerthuso'r effaith a'r gwerth am arian a geir yn sgîl gwahanol ddulliau o gynnwys tenantiaid, gan gynnwys y cyfleoedd i newid a datblygu'r rhain er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol ac effeithlon;
- monitro cynrychiolwyr a grwpiau tenantiaid er mwyn gwneud yn siŵr bod cyfle cyfartal; a
- gwirio bod gweithdrefnau'r awdurdod ar gyfer ymgynghori â, a chynnwys tenantiaid yn effeithiol, yr ymlynir wrthynt, ac annog tenantiaid o bob rhan o'r gymuned i gymryd rhan.

Dylid pennu safonau a thargedau perfformiad bob blwyddyn ar gyfer y canlynol:

- A yw tenantiaid yn fodlon ar y trefniadau;
- Hysbysu tenantiaid;
- Ystyried safbwyntiau tenantiaid wrth wneud penderfyniadau;
- Yr hyn y mae tenantiaid yn ei feddwl am werth am arian; a
- Bodlonrwydd tenantiaid ar yr ardal.

# Atodiad 5

## MWY O WYBODAETH AC ADNODDAU

Mae'r atodiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

1) Gwefannau a gwasanaethau arferion da

2) Cyhoeddiadau diweddar a pherthnasol

### 1) Gwefannau a gwasanaethau arferion da

| Pwy | Disgrifiad | Ble |
|---|---|---|
| Communities Scotland | Tîm Datblygu Cyfranogiad Tenantiaid | www.communitiesscotland.gov.uk/Web/Site/Whatwedo/Tenant_Participation.asp |
| Tasglu Tai Cymunedol | Mae'n rhoi cymorth i awdurdodau lleol, tenantiaid ac RSL sy'n prynu, trwy'r broses trosglwyddo stoc, datblygu Sefydliadau Rheoli Hyd Braich (ALMO) a'r Fenter Cyllid Preifat (PFI), ac yn rhoi canllawiau i awdurdodau yng nghyswllt y broses Arfarnu Dewisiadau | www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_housing/documents/page/odpm_house_601949.hcsp<br><br>chtf@odpm.gsi.gov.uk. |
| Uned Arferion Da, Sefydliad Tai Siartredig | Uned sy'n cynnwys enghreifftiau o arferion da ac a all ateb ymholiadau ynghylch agweddau ymarferol a chyfreithiol<br><br>Gwasanaeth tanysgrifio | www.cih.org<br><br>024 7685 1767 |
| Housing Quality Network | Mae HQN yn archwilio ac yn gwerthuso camau a allai arwain at welliannau ym mherfformiad, ansawdd a gwerth gwasanaethau tai<br><br>Gwasanaeth tanysgrifio | www.hqnetwork.org.uk<br><br>01723 350099 |

| Pwy | Disgrifiad | Ble |
|---|---|---|
| Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid Cymru | Mae TPAS Cymru yn gweithio ar lefel genedlaethol er mwyn hybu a rhoi cymorth i bartneriaethau effeithiol, cynaliadwy rhwng tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol | www.tpascymru.org.uk<br><br>029 2023 7303 |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru | Mae'r wefan yn cynnwys canllawiau gan y Cynulliad | www.tai.cymru.gov.uk |
| Ffederasiwn Tenantiaid Cymru | Mae'n rhoi cymorth I denantiaid a thrigolion ledled Cymru wella ansawdd bywyd trwy eu grymuso i chwarae rhan lawn yng nghyswllt eu cartrefi a'u cymunedau | www.welshtenantsfed.com<br><br>029 2064 5168 |

## 2) Cyhoeddiadau

| Teitl | Disgrifiad | Ar gael oddi wrth |
|---|---|---|
| **A Good Practice Framework for Tenant Participation in Scotland** | Cyhoeddwyd yn 2004 | Communities Scotland<br><br>www.communitiesscotland.gov.uk/web/FILES/CSPrecis35.pdf |
| **Analysis of the Baseline Study of Tenant Participation** | Cyhoeddwyd yn 2003 | Communities Scotland<br><br>www.communitiesscotland.gov.uk/web/FILES/CSPrecis28.pdf |
| **Communication and Consultation Strategies in Options Appraisal** | Diddyddiad | Y Tasglu Tai Cymunedol<br><br>www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_housing/documents/page/odpm_house_025186.hcsp |
| **Connecting with Users and Citizens** | Cyhoeddwyd yn 2002 | Y Comisiwn Archwilio<br><br>www.audit-commission.gov.uk/Products/NATIONAL-REPORT/F1B75570-9AA7-469E-8BA6-3354AA457D61/Making%20Connections_FINAL.pdf |
| **Customer Involvement: Opportunities for Learning from the Private Sector?** | Cyhoeddwyd yn 2002 | Y Gorfforaeth Dai<br><br>www.housingcorplibrary.org.uk/housingcorp.nsf/AllDocuments/C33610636D6E639980256D35003DE0AA |
| **Empowering Communities, Improving Housing: Involving Black and Minority Tenants and Communities** | Cyhoeddwyd yn 2004 | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog |
| **Good Practice Briefing Innovation in Resident Involvement** | Cyhoeddwyd yn 2004 | Y Sefydliad Tai Siartredig<br><br>024 7685 1752 |
| **Housing (Scotland) Act 2001: Guidance on Tenant Participation** | Cyhoeddwyd yn 2001 | Gweithrediaeth yr Alban<br><br>www.scotland.gov.uk/library5/housing/gotp-00.asp |

| Teitl | Disgrifiad | Ar gael oddi wrth |
|---|---|---|
| **Interim Evaluation of Tenant Participation Compacts** | Cyhoeddwyd yn 2003 | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog<br><br>www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_housing/documents/page/odpm_house_025264.hcsp |
| **Interim Evaluation of the Innovation into Action Programme** | Cyhoeddwyd yn 2003 | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog<br><br>www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_housing/documents/page/odpm_house_608530.hcsp |
| **Just do it: a directory of examples of service user involvement in supported housing** | Cyhoeddwyd yn 2000 | Y Gorfforaeth Dai<br><br>020 7393 2000 |
| **Methodologies for Obtaining Customers' Views of Service Quality** | Cyhoeddwyd yn 2003 | Communities Scotland<br><br>www.communitiesscotland.gov.uk/web/FILES/RR13.pdf |
| **Open house? A study of tenant organisations in Scotland** | Cyhoeddwyd yn 2003 | Cyngor Defnyddwyr yr Alban<br><br>www.scotconsumer.org.uk/reps03/rp05open.pdf |
| **Adolygiad o Gyfranogiad Tenantiaid yng Nghymru: Nodyn ar Arferion Da** | Cyhoeddwyd yn 2001 | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>www.housing.wales.gov.uk/archive.asp?a=99 |
| **Study of Tenant Participation in Registered Social Landlords** | Cyhoeddwyd yn 2000 | Y Gorfforaeth Dai<br><br>www.housingcorplibrary.org.uk/housingcorp.nsf/AllDocuments/6077F9D411E41EB980256AB9003E235A |
| **Tenant Empowerment Strategies in Options Appraisal** | Diddyddiad | Y Tasglu Tai Cymunedol<br><br>www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_housing/documents/page/odpm_house_025187.hcsp |

| Teitl | Disgrifiad | Ar gael oddi wrth |
|---|---|---|
| **Tenants Managing: An Evaluation of Tenant Management Organisations in England** | Cyhoeddwyd yn 2002 | Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog<br><br>www.odpm.gov.uk/stellent/groups/odpm_housing/documents/page/odpm_house_603850.hcsp |
| **Compactau Cyfranogiad Tenantiaid ar gyfer Awdurdodau Lleol yng Nghymru** | Cyhoeddwyd yn 2000 | Llywodraeth Cynulliad Cymru<br><br>www.housing.wales.gov.uk/pdf.asp?a=i3 |
| **The Involvement Business: The Business Imperative for Involving Consumers in the Work of Registered Social Landlords** | Cyhoeddwyd yn 2001 | Y Gorfforaeth Dai<br><br>www.housingcorplibrary.org.uk/housingcorp.nsf/AllDocuments/064CA54BF0F58A2F80256AB9003E2304 |

| Sefydliad | Enghreifftiau | Cyswllt |
|---|---|---|
| Carr Gomm | Cydraddoldebau: pobl ag anghenion o ran cymorth | www.carr-gomm.org.uk |
| Clackmannanshire Council | Adnoddau ar gyfer cyfranogiad | www.clacksweb.org.uk/dyna/participstrategy |
| East Northamptonshire Housing | Casglu a gweithredu ar safbwyntiau defnyddwyr | www.longhurst-group.org.uk/infoForTenants-TenantInvolvement.html |
| Liverpool Housing Action Trust | Sianel deledu ryngweithiol a arweinir gan y gymuned | www.superchannel.org |
| London Borough of Southwark | Cydraddoldebau Tenantiaid BME | www.southwark.gov.uk/OurServices/Councilhousing/YourCouncilTenancy/Consultation.html |
| Rochdale Boroughwide Housing | Cysylltiad rhwng perfformiad da ac ymgynghori â /cynnwys defnyddwyr gwasanaethau | www.rochdale.gov.uk/living/housing.asp?url=rbh |

| Sefydliad | Enghreifftiau | Cyswllt |
|---|---|---|
| Royal Borough of Kensington and Chelsea Tenant Management Organisation | Prif-ffrydio cyfranogiad | www.tmo.org.uk |
| South Gloucestershire District Council | Mesur llwyddiant | www.southglos.gov.uk/Housing/NewHousing/Tenants.htm |
| Southampton City Council | Cynnwys tenantiaid wrth lunio cyllidebau | www.southampton.gov.uk/housing |
| Swaythling Housing Society | Dewisiadau ar gyfer cyfranogiad | www.swayhs.org.uk |
| TPAS Cymru | Ymgeiswyr am y wobr cyfranogiad tenantiaid, 2004 | enquiries@tpascymru.demon.co.uk |